



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 11 Mehefin 2008  
Wednesday, 11 June 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethu Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 19 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Questions to Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport
- 36 Ethol Aelod ar gyfer y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion  
Election of a Member to the Proposed Healthy Eating in Schools Measure Committee
- 36 Datganiad gan y Llywydd  
Statement by the Presiding Officer
- 37 Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig Peter Black—Trefniadau Etholaethol Llywodraeth Leol  
Peter Black's Proposed Legislative Competence Order—Local Government Electoral Arrangements
- 51 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Twf Economaidd  
Welsh Conservatives Debate: Economic Growth
- 83 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Gorchmynion Adfeddiant yng Nghymru  
Welsh Liberal Democrats Debate: Repossession Orders in Wales
- 100 Dadl Fer: Pŵer i'r Bobl  
Short Debate: Power to the People
- 107 Cyfnod Pleidleisio  
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.  
In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethu Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services**

### **Mental Health Services**

**Q1 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on what action she is taking to improve access to mental health services for 16 and 17-year-olds? OAQ(3)0581(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I have set specific targets in 2008-09 to improve access to child and adolescent mental health services, including those for 16 and 17-year-olds. A mapping exercise by Durham University will later this year collect information on the number of 16 and 17-year-olds placed on adult wards.

**Jenny Randerson:** I am relieved to hear that you are undertaking that exercise. However, I am sure that you are aware that child and adolescent mental health services are supposed to take those in full-time education, in that age group, and that adult mental health services are supposed to take people from the age of 16 if they have left school. Do you agree that the principle behind this is discriminatory, and that access should be to the service that is appropriate to your needs? I agree that age needs to be taken into account, but it should not be based on whether or not you are in education.

**Edwina Hart:** It should be based on your care pathway requirements.

**Jenny Randerson:** In some areas, children and young people aged between 16 and 18 are taken into CAMHS treatment, whether

### **Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

**C1 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae'n eu cymryd i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc 16 a 17 oed? OAQ(3)0581(HSS)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Yr wyf wedi gosod targedau penodol yn 2008-09 er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, gan gynnwys y gwasanaethau hynny ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed. Bydd ymarfer mapio gan Brifysgol Durham yn ddiweddarach eleni yn casglu gwybodaeth am nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed sy'n cael eu rhoi mewn wardiau i oedolion.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch o glywed eich bod yn cyflawni'r ymarfer hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol y dylai gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gynnwys y rheini sydd mewn addysg amser llawn yn y grŵp oedran hwnnw, ac y dylai gwasanaethau iechyd meddwl oedolion gynnwys pobl 16 oed neu hŷn os ydynt wedi gadael yr ysgol. A ydych yn cytuno bod yr egwyddor y tu ôl i hyn yn gamwahaniaethol, ac y dylech gael mynediad at y gwasanaeth sy'n briodol i'ch anghenion? Yr wyf yn cytuno y dylid ystyried oedran, ond ni ddylai hyn fod yn seiliedig ar p'un a ydych mewn addysg ai peidio.

**Edwina Hart:** Dylai fod yn seiliedig ar ofynion eich llwybr gofal.

**Jenny Randerson:** Mewn rhai ardaloedd, caiff plant a phobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed driniaeth gan y gwasanaeth iechyd meddwl

they are in school or not. Do you agree that access to the best services should be available to all young people between the ages of 16 and 18, and that the principle of whether or not they are in education should not be taken into account?

**Edwina Hart:** Yes.

**Alun Cairns:** In relation to recent tragic events in Bridgend, do you recognise that the Welsh Assembly Government has a role to play in supporting the local authorities and schools concerned? What investigation have you conducted into the merits, or otherwise, of having counsellors in schools who are always available to provide support, particularly in difficult times, such as those that have been experienced locally?

**Edwina Hart:** Some £6.5 million has already been allocated to counselling in schools over the budgetary period. However, we have been actively engaged in Bridgend, and in all communities across Wales—this is not just an issue for the Bridgend community. I thank Assembly Members for the sensitive way in which they have dealt with issues in the Bridgend area—they have chosen not to go to the press, or anything untoward like that, and have taken a responsible line in light of the tragic incidents there.

### Epilepsy Services

**Q2 Leanne Wood:** Will the Minister make a statement regarding epilepsy services in South Wales Central? OAQ(3)0600(HSS)

**Edwina Hart:** Epilepsy services in South Wales Central are planned and commissioned by local health boards to respond to local needs. Patients in South Wales Central are assessed by a consultant neurologist, with ongoing care and support provided by general practitioners and other health professionals.

**Leanne Wood:** A number of my constituents attended a meeting of the cross-party epilepsy group recently, at which they said that there was a real need for better services,

plant a'r glasoed, p'un a ydynt yn yr ysgol ai peidio. A ydych yn cytuno y dylai mynediad at y gwasanaethau gorau fod ar gael i'r holl bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, ac na ddylid ystyried a ydynt yn cael addysg ai peidio?

**Edwina Hart:** Ydw.

**Alun Cairns:** Yng nghyswllt y digwyddiadau trychinebus ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar, a ydych yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl i'w chwarae o ran cefnogi'r awdurdodau lleol a'r ysgolion dan sylw? Pa ymchwiliad yr ydych wedi'i gynnal i fanteision, neu anfanteision, cael cwmselwyr mewn ysgolion sydd bob amser ar gael i roi cefnogaeth, yn enwedig ar adegau anodd, fel y rheini sydd wedi'u profi'n lleol?

**Edwina Hart:** Mae tua £6.5 miliwn eisoes wedi'i ddyrannu i gwnsela mewn ysgolion dros gyfnod y gyllideb. Fodd bynnag, yr ydym wedi bod yn ymwneud yn rhagweithiol â Phen-y-bont ar Ogwr, ac ym mhob cymuned ledled Cymru—nid problem i gymuned Pen-y-bont ar Ogwr yn unig yw hon. Yr wyf yn diolch i Aelodau'r Cynulliad am ddelio â'r materion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr mewn ffordd sensitif—maent wedi penderfynu peidio â mynd at y wasg, neu unrhyw beth aflednais o'r fath, ac wedi ymddwyn yn gyfrifol yng ngoleuni'r digwyddiadau trychinebus yno.

### Gwasanaethau Epilepsi

**C2 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau epilepsi yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0600(HSS)

**Edwina Hart:** Caiff gwasanaethau epilepsi yng Nghanol De Cymru eu cynllunio a'u comisiynu gan fyrdau ieched lleol er mwyn ymateb i anghenion lleol. Caiff cleifion yng Nghanol De Cymru eu hasesu gan niwrolegydd ymgynghorol, a byddant yn cael gofal a chefnogaeth barhaus gan feddygon teulu a gweithwyr ieched proffesiynol eraill.

**Leanne Wood:** Yr oedd llawer o'm hetholwyr yn bresennol yng nghyfarfod y grŵp epilepsi trawsbleidiol yn ddiweddar, lle dywedasant fod gwir angen gwasanaethau

particularly in the Rhondda Cynon Taf and Vale of Glamorgan areas. I appreciate the work that you and the One Wales Government have done in terms of recognising epilepsy, but what steps are you taking to ensure that epilepsy sufferers get the help and support that they need in every community in Wales?

**Edwina Hart:** It is important that we recognise that epilepsy sufferers have not enjoyed the best of treatment in the NHS, and that there has been inequality of access to treatment. I hope that the improvements in delivery that we have been looking at with the recently issued service developing and commissioning directives, which have gone out for public consultation—my officials are looking at the responses—will form an excellent basis for future changes in service provision. The neuroscience review, which is due to report in the summer, also deals with some of these issues. Therefore, by the autumn I will hopefully be able to report back to Assembly Members on how we intend to take further service developments forward.

### Modern Drug Treatments

**Q3 David Melding:** Will the Minister make a statement on the availability of modern drug treatments in South Wales Central? OAQ(3)0551(HSS)

**Edwina Hart:** Modern drug treatments that are proven to be effective both clinically and in terms of cost are made available to patients across the whole of Wales. Directives are issued by me to the NHS in Wales to this effect.

**David Melding:** You will know that a new generation of highly targeted cancer drugs are testing some of the old protocols, to put it delicately. I feel that we need a solution to this issue. Sutent has already caused a lot of controversy, with some patients who have paid for it privately being told that they have no entitlement to NHS care in relation to their cancer. These sorts of brutal approaches may have made more sense 30 or 40 years

gwell, yn enwedig yn ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Yr wyf yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydych chi a Llywodraeth Cymru'n Un wedi ei gyflawni o ran cydnabod epilepsi, ond pa gamau yr ydych yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod pobl sy'n dioddef o epilepsi yn cael y cymorth a'r gefnogaeth y mae ei angen arnynt ym mhob cymuned yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod nad yw pobl sy'n dioddef o epilepsi wedi cael y driniaeth orau gan y GIG, ac nid ydynt wedi cael yr un tegwch o ran mynediad at driniaeth. Gobeithiaf y bydd y gwelliannau o ran y ddarpariaeth yr ydym wedi bod yn ei hystyried gyda'r cyfarwydddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus—mae fy swyddogion yn ystyried yr ymatebion—yn ffurfio sail ardderchog ar gyfer newidiadau yn narpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r adolygiad niwrowyddorau, a fydd yn adrodd yn ôl yn ystod yr haf, hefyd yn delio â rhai o'r problemau hyn. Felly, erbyn yr hydref gobeithiaf allu adrodd yn ôl i Aelodau'r Cynulliad sut yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â mwy o ddatblygiadau gwasanaeth.

### Triniaethau Cyffuriau Modern

**C3 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd triniaethau cyffuriau modern yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0551(HSS)

**Edwina Hart:** Mae triniaethau cyffuriau modern sydd wedi profi eu bod yn effeithiol yn glinigol ac o ran costau ar gael i gleifion ledled Cymru. Yr wyf yn cyhoeddi cyfarwydddebau i'r GIG yng Nghymru i'r perwyl hwn.

**David Melding:** Byddwch yn gwybod bod cenhedlaeth newydd o gyffuriau sy'n targedu gwahanol fathau o ganser yn benodol yn profi rhai o'r hen brotocolau, a dweud y lleiaf. Yr wyf yn teimlo bod angen ateb arnom i'r broblem hon. Mae Sutent eisoes wedi achosi llawer o ddadlau, gyda rhai cleifion sydd wedi talu amdano'n breifat yn cael gwybod nad oes ganddynt yr hawl i gael gofal y GIG yng nghyswllt eu canser. Efallai

ago, when there was a real NHS monopoly, but now families will feel bitter that they face the double whammy of having to pay for the new drug and not receiving general NHS care in relation to that condition. Are you reviewing the situation?

**Edwina Hart:** Your question is very pertinent, David. I have looked with interest at the discussions about drugs and their development across the piece. I must be guided by professionals about using drugs in the service generally, but I have been interested in recent discussions in the media. I have been discussing with officials whether we should have a structured discussion, particularly with clinicians and patients—probably starting with the cancer network—about dealing with these matters, because it is a fast-moving agenda in terms of what drugs become available. People now go on the internet, and look at the issues—what drugs have been used in Australia and America, for example—and it is very different, as you said, to the situation even 10 years ago, and certainly 20 or 30 years ago. I will probably consider this issue over the summer recess and I hope to come back with an announcement that will take this forward in the autumn.

**Chris Franks:** I welcome yesterday's report on Health Commission Wales, grim as it is. What assurances can you give on addressing inadequate staffing levels at the commission, identified in the report, so that funding applications for new medicines through the individual patient commissioning route will be as effective as possible? What impact has the £30 million overspend in HCW budgets had on providing new treatments?

**Edwina Hart:** I have already made additional money available this year in the HCW budget when matters have been raised with me; for example, I think that there is a clinical need for treatment like deep brain stimulation to be funded. I am responsible for

y byddai'r mathau hyn o agweddau creulon wedi gwneud mwy o synnwyr 30 neu 40 mlynedd yn ôl, pan oedd monopoli gwirioneddol yn y GIG, ond bellach bydd teuluoedd yn teimlo'n chwerw eu bod yn wynebu ergyd ddwbl o orfod talu am y cyffur newydd ac na fyddant yn cael gofal cyffredinol y GIG yng nghyswllt y cyflwr hwnnw. A ydych yn adolygu'r sefyllfa?

**Edwina Hart:** Mae eich cwestiwn yn berthnasol iawn, David. Yr wyf wedi edrych gyda diddordeb ar y trafodaethau ar gyffuriau a'r datblygu sy'n mynd rhagddo. Mae'n rhaid imi gael arweiniad gan bobl broffesiynol o ran defnyddio cyffuriau yn y gwasanaeth yn gyffredinol, ond yr wyf wedi bod yn dangos diddordeb mewn trafodaethau diweddar yn y cyfryngau. Yr wyf wedi bod yn trafod â swyddogion a ddylem gael trafodaeth strwythuredig, yn enwedig gyda chlinigwyr a chleifion—gan ddechrau gyda'r rhwydwaith cancer fwy na thebyg—ynghylch delio â'r materion hyn, oherwydd mae'n agenda sy'n symud yn gyflym o ran pa gyffuriau sydd ar gael. Mae pobl bellach yn defnyddio'r we, ac yn edrych ar y materion—pa gyffuriau sydd wedi'u defnyddio yn Awstralia ac America, er enghraifft—ac mae'n sefyllfa wahanol iawn, fel y dywedasoch, i'r sefyllfa hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl, ac yn sicr 20 neu 30 mlynedd yn ôl. Byddaf yn ystyried y mater hwn dros doriad yr haf fwy na thebyg a gobeithiaf ddychwelyd gyda datganiad a fydd yn bwrw ymlaen â hyn yn yr hydref.

**Chris Franks:** Yr wyf yn croesawu adroddiad Comisiwn Iechyd Cymru ddoe, er mor ddifrifol ydyw. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y byddwch yn mynd i'r afael â lefelau staffio annigonol y comisiwn, fel y nodwyd yn yr adroddiad, fel y bydd ariannu ceisiadau ar gyfer meddyginiaethau newydd drwy lwybr comisiynu cleifion unigol mor effeithiol â phosibl? Pa effaith y mae'r gorwariant o £30 miliwn yng nghyllidebau Comisiwn Iechyd Cymru wedi'i gael ar y broses o ddarparu triniaethau newydd?

**Edwina Hart:** Yr wyf eisoes wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael eleni yng nghyllideb Comisiwn Iechyd Cymru pan godwyd materion â mi; er enghraifft, credaf fod angen clinigol i ariannu triniaeth fel ysgogi yn nwf yn yr ymennydd. Yr wyf yn

many things, but staffing nationally is not one of them. Ann Lloyd is aware of the discussions that took place in Plenary yesterday and the indications that I gave that I wanted a fully staffed service to be able to deal with the crucial issues that you have raised with me today. Therefore, I am sure that that matter will be dealt with. On the question of the £30 million, we must, at the end of the day, look at the budget provision within HCW to ensure that it picks up on the points made by Professor Aylward in his report, which is an excellent report and which has set out new strategic directions for how we deal with these issues.

**Jonathan Morgan:** According to the announcement last week, screening for bowel cancer for people aged 50 to 60 will now not be introduced for a further seven years. The Assembly Government has said that more time is needed to screen everyone in the 50 to 74 age range. Why do you need more time, when Scotland is making a greater advance?

**Edwina Hart:** It was always envisaged that we would look at certain groups first, and that screening programme is going live. I am aware of the concerns that Members have raised in the Chamber, and I have asked officials to look at what work we can do to enhance arrangements.

**Jonathan Morgan:** The more that we delay, the more risk there is to patients in Wales who could, potentially, suffer from bowel cancer. You will know that an approach has been made by Nucleus Healthcare in Newport, which is run by a former NHS gastroenterologist, to say that it could carry out 60 colonoscopies per day. Is it not time that the Assembly Government looked at the capacity throughout Wales to see how the bowel cancer screening programme could be rolled out a lot quicker?

**Edwina Hart:** We are looking at capacity issues in the national health service for the rolling out of the programme.

gyfrifol am lawer o bethau, ond nid yw staffio'n genedlaethol yn un ohonynt. Mae Ann Lloyd yn ymwybodol o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ddoe ac imi nodi fy mod am gael gwasanaeth sy'n gyflawn o ran staff er mwyn gallu delio â'r materion hollbwysig yr ydych wedi'u codi gyda mi heddiw. Felly, yr wyf yn siŵr yr ymdrinnir â'r mater. Ynglŷn â'r £30 miliwn, mae'n rhaid inni, yn y pen draw, edrych ar ddarpariaeth y gyllideb o fewn Comisiwn Iechyd Cymru er mwyn sicrhau yr ystyrir y pwyntiau a wnaeth yr Athro Aylward yn ei adroddiad, sy'n adroddiad ardderchog ac sydd wedi gosod allan gyfarwyddiadau strategol ar gyfer sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Jonathan Morgan:** Yn ôl y cyhoeddiad a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf, ni fydd sgrinio ar gyfer canser y coluddyn i bobl rhwng 50 a 60 oed yn cael ei gyflwyno am saith mlynedd arall. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud bod angen rhoi mwy o amser i sgrinio pawb rhwng 50 a 74 oed. Pam mae angen mwy o amser arnoch, pan mae'r Alban ar y blaen?

**Edwina Hart:** Rhagwelwyd erioed y byddem yn ystyried rhai grwpiau gyntaf, ac mae'r rhaglen sgrinio honno ar waith. Yr wyf yn ymwybodol o'r pryderon y mae Aelodau wedi'u codi yn y Siambr, ac yr wyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud er mwyn gwella'r trefniadau.

**Jonathan Morgan:** Po fwyaf yr ydym yn oedi, y mwyaf yw'r risg i gleifion yng Nghymru, a allai, o bosibl, ddioddef o ganser y coluddyn. Byddwch yn gwybod bod Nucleus Healthcare yng Nghasnewydd, sy'n cael ei redeg gan un o gyn gastroenterolegyddion y GIG, wedi dweud y gallai gynnal 60 colonosgopi y dydd. Onid yw'n bryd i Lywodraeth y Cynulliad edrych ar y gallu drwy Gymru gyfan i weld sut y gellid cyflwyno'r rhaglen sgrinio canser y coluddyn yn llawer cynt?

**Edwina Hart:** Yr ydym yn edrych ar faterion cynhwysedd yn y gwasanaeth iechyd gwladol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen.

**Health Reorganisation**

**Q4 Paul Davies:** Will the Minister make a statement on the progress of health reorganisation in west Wales? OAQ(3)0568(HSS)

**Edwina Hart:** The formation of the Hywel Dda NHS Trust has been completed through the merger of the three former trusts in west Wales. I am now consulting on further NHS reorganisational changes to ensure that the people of Wales get the best possible healthcare.

12.40 p.m.

**Paul Davies:** Before I ask my supplementary question, I declare an interest, as my wife is employed by Hywel Dda NHS Trust. As the Minister is aware, I opposed the merger of health trusts in west Wales for reasons that are well-rehearsed in the Chamber. Prior to the merger of the three trusts, it was made clear, certainly to the people of Pembrokeshire, that the combined debt of the new merged trust, which I believe to be in the region of £37 million, would be written off. Will the Minister now confirm that this debt has been written off and that Hywel Dda NHS Trust is starting with a clean slate?

**Edwina Hart:** I am currently considering the financial position of all trusts in Wales and will be happy to report on that, and on what I intend to do about the debt, in due course.

**Christine Chapman:** I was pleased to attend one of the consultation sessions on health reorganisation in Rhondda Cynon Taf recently, at which there was a very good discussion on the future shape of health services in the area. I welcome the consultation document's commitment to localism, but one of the issues raised at the meeting was how we ensure that the larger proposed local health boards are responsive to the healthcare needs of individual communities. I am aware that the consultation has not yet ended, but, in your deliberations, will you ensure that strong

**Ad-drefnu Iechyd**

**C4 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd ad-drefnu iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(3)0568(HSS)

**Edwina Hart:** Mae'r gwaith o ffurfio Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda wedi'i gwblhau drwy uno tair cyn ymddiriedolaeth yng ngorllewin Cymru. Yr wyf bellach yn ymgynghori ar newidiadau pellach yn y broses o ad-drefnu'r GIG er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn cael y gofal iechyd gorau posibl.

**Paul Davies:** Cyn imi ofyn fy nghwestiwn atodol, yr wyf yn datgan buddiant, gan fod fy ngwraig yn gweithio i Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda. Fel mae'r Gweinidog yn ymwybodol, yr oeddwn yn gwrthwynebu uno ymddiriedolaethau iechyd gorllewin Cymru am resymau sydd wedi'u trafod yn drylwyr yn y Siambr. Cyn uno'r tair ymddiriedolaeth hyn, dywedwyd yn glir, yn enwedig wrth bobl sir Benfro, y byddai dyled gyfunol yr ymddiriedolaeth gyfun newydd, a oedd tua £37 miliwn o'r hyn a ddeallaf, yn cael ei dileu. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau yn awr bod y ddyled hon wedi'i dileu a bod Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda yn dechrau gyda llechen lân?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ystyried sefyllfa ariannol bob ymddiriedolaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, a byddaf yn fwy na pharod i adrodd ar hynny, a'r hyn yr wyf yn bwriadu ei wneud ynglŷn â'r ddyled, maes o law.

**Christine Chapman:** Yr oeddwn yn falch o fod yn bresennol yn un o'r sesiynau ymgynghori ar ad-drefnu'r maes iechyd yn Rhondda Cynon Taf yn ddiweddar, lle'r oedd trafodaeth dda iawn ar ffurf y gwasanaethau iechyd yn yr ardal yn y dyfodol. Yr wyf yn croesawu ymrwymiad y ddogfen ymgynghori i gadw pethau'n lleol, ond un o'r materion a godwyd yn y cyfarfod oedd sut yr ydym yn sicrhau bod y byrddau iechyd lleol arfaethedig mwy yn ymateb i anghenion gofal iechyd cymunedau unigol. Yr wyf yn ymwybodol nad yw'r ymgynghoriad wedi dod i ben eto, ond, yn eich trafodaethau, a



consideration is given to ensuring that any changed structures will be fully representative of the individual communities that they serve?

**Edwina Hart:** I absolutely confirm that I will do that. Once the consultation ends and some decisions are made regarding how we intend to take this forward, the issue will be how we deal with the issues around localism and the involvement of local people in health services in terms of them being able to comment on this and feel that their comments are included in a plan. That will be one of the key areas in the second stage that I will be taking into account.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)0612(HSS), cwestiwn 6, OAQ(3)0565(HSS), a chwestiwn 7, OAQ(3)0562(HSS), yn ôl.

#### Ambulance Service

**Q8 Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement about the ambulance service in South Wales East?  
OAQ(3)0570(HSS)

**Edwina Hart:** I remain unhappy with the ambulance service's performance in some localities and I expect to see significant and sustained improvements in those areas.

**Mohammad Asghar:** I thank the Minister for her very positive response to a letter that I sent to her after a concerned constituent contacted me. The case of 85-year-old Bernard LeClaire received publicity after the ambulance service took 45 minutes to reach him while he was bleeding from a head wound following a fall at his home, when his family had rung 999 three times. Will the Minister join with me in urging the Welsh Ambulance Services NHS Trust to investigate this incident thoroughly and to take steps to ensure that nothing like this happens again?

**Edwina Hart:** I always encourage NHS trusts to be open and transparent in their dealings with members of the public when they have cause to complain, and the

wnewch sicrhau y rhoddir ystyriaeth gref i sicrhau y bydd unrhyw newid mewn strwythurau yn cynrychioli'r cymunedau unigol y maent yn eu gwasanaethu yn llwyr?

**Edwina Hart:** Gallaf gadarnhau yn bendant y byddaf yn gwneud hynny. Unwaith y daw'r ymgynghoriad i ben ac y gwneir rhai penderfyniadau o ran sut yr ydym yn bwriadu mynd â hyn rhagddo, byddwn yn canolbwyntio ar sut yr ydym yn delio â materion ardaloedd a chyfraniad pobl leol yn y gwasanaethau iechyd o ran eu bod yn gallu rhoi sylwadau ar hyn a themlo y caiff eu sylwadau eu cynnwys mewn cynllun. Dyna fydd un o'r prif feysydd y byddaf yn ei ystyried yn ystod yr ail gam.

**The Presiding Officer:** Question 5, OAQ(3)0612(HSS), question 6, OAQ(3)0565(HSS), and question 7, OAQ(3)0562(HSS), have been withdrawn.

#### Gwasanaeth Ambiwllans

**C8 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth ambiwlans yn Nwyrain De Cymru?  
OAQ(3)0570(HSS)

**Edwina Hart:** Nid wyf yn fodlon o hyd ar berfformiad y gwasanaeth ambiwlans mewn rhai ardaloedd a disgwyliaf weld gwelliannau sylweddol a pharhaus yn yr ardaloedd hynny.

**Mohammad Asghar:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei hymateb cadarnhaol iawn i lythyr a anfonais ati ar ôl i etholwr pryderus gysylltu â mi. Rhoddwyd cyhoedduswydd i achos Bernard LeClaire, sy'n 85 mlwydd oed, ar ôl i'r gwasanaeth ambiwlans gymryd 45 munud i gyrraedd ato tra'r oedd ei ben yn gwaedu ar ôl iddo syrthio yn ei gartref, pan oedd ei deulu wedi ffonio 999 dair gwaith. A wnaiff y Gweinidog gytuno â mi y dylid annog Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i ymchwilio i'r digwyddiad hwn yn drylwyr ac i gymryd camau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw beth fel hyn yn digwydd eto?

**Edwina Hart:** Yr wyf bob amser yn annog ymddiriedolaethau'r GIG i fod yn agored ac yn eglur yn eu hymwneud ag aelodau o'r cyhoedd pan fyddant wedi achosi i rywun

situation is no different for the Welsh Ambulance Services NHS Trust. I very much hope that it takes on board your constituent's concerns. The position that some people have been placed in because of the way in which the ambulance service has functioned is absolutely dreadful.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** I raised in the Chamber yesterday the issue of the withdrawal of the rapid response unit from Abergavenny—the service has only been in place for just over a month. As you rightly said, the service in Monmouthshire has one of the poorest ambulance response time records in the whole of Wales—just over half of its calls are responded to within the eight-minute target. Can you give the constituents of Monmouthshire and Blaenau Gwent who use this service some reassurance that you will examine this matter urgently and, if possible, restore this valued service, which provides cover for people who are currently not being well-served by the ambulance service?

**Edwina Hart:** I, like you, have some concerns in this regard and I will ask my officials to take up this operational matter with the trust. We must also consider the role and function of rapid response vehicles. They are a useful addition to the service, but if they are the first vehicles to arrive at the scene and an ambulance is then required, we must consider how long it takes for those vehicles to arrive and then for the ambulance to arrive, and what targets exist there. I have asked officials to refocus on some of those issues regarding targets.

**Trish Law:** I have every sympathy with the case highlighted by Mohammad Asghar as I have had to raise several similar incidents in my constituency with Mr Alan Murray. You may all have heard of the case of three-month-old Liam King, who is the youngest patient in Britain to have been fitted with a pacemaker and who recently contracted the MRSA infection. His parents are from Cwm and are therefore constituents of mine. Nevill Hall Hospital in Abergavenny decided that

gwyno, ac nid yw'r sefyllfa'n wahanol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru. Gobeithiaf yn wirioneddol ei bod yn rhoi sylw i bryderon eich etholwr. Mae rhai pobl wedi bod mewn sefyllfaoedd ofnadwy oherwydd y ffordd y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gweithio.

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Yn y Siambr ddoe, codais fater cael gwared ar yr uned ymateb cyflym yn y Fenni—er mai dim ond ychydig dros fis sydd wedi mynd heibio ers i'r gwasanaeth gael ei roi ar waith. Fel y dywedasoeh yn gywir, y gwasanaeth yn sir Fynwy sydd â'r amseroedd ymateb ambiwlans gwaethaf drwy Gymru gyfan—dim ond ychydig dros hanner y galwadau yr ymatebir iddynt o fewn y targed wyth munud. A allwch roi rhywfaint o sicrwydd i etholwyr sir Fynwy a Blaenau Gwent sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn y byddwch yn ymchwilio i'r mater hwn ar frys ac, os yw'n bosibl, yn adfer y gwasanaeth gwerthfawr, sy'n gyfrifol am bobl nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y gwasanaeth ambiwlans ar hyn o bryd?

**Edwina Hart:** Mae gennyf i, fel chi, rai pryderon ynglŷn â hyn a byddaf yn gofyn i'm swyddogion godi'r mater gweithredol hwn gyda'r ymddiriedolaeth. Mae'n rhaid inni hefyd ystyried rôl a swyddogaeth cerbydau ymateb cyflym. Maent yn ychwanegiad defnyddiol i'r gwasanaeth, ond os hwy yw'r cerbydau cyntaf i gyrraedd y safle a bod angen ambiwlans wedyn, mae'n rhaid inni ystyried faint o amser y mae'n ei gymryd i'r cerbydau hynny gyrraedd ac yna i'r ambiwlans gyrraedd, a pha dargedau sy'n bodoli yno. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ail-edrych ar rai o'r materion hynny yng nghyswllt targedau.

**Trish Law:** Mae gennyf bob cydymdeimlad gyda'r achos a amlinellodd Mohammad Asghar gan fy mod wedi gorfod codi nifer o ddigwyddiadau tebyg yn fy etholaeth gyda Mr Alan Murray. Mae'n bosibl eich bod oll wedi clywed am achos Liam King, babi tri mis oed, y claf ieuengaf ym Mhrydain i fod â rheoliadur ac a gafodd haint MRSA yn ddiweddar. Daw ei rieni o Cwm ac felly maent yn byw yn fy etholaeth. Penderfynodd Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni fod angen

baby Liam needed to be transferred by ambulance to the Bristol Royal Hospital for Children. Alas, the pre-booked ambulance had to be cancelled and the couple were left literally holding the baby and had to transfer little Liam to Bristol by car. Had anything happened to Liam en route to Bristol, the consequences for the couple—and, indeed, the ambulance service—would have been very grave indeed.

Will the Minister acknowledge that, while public attention is usually only drawn to category A responses, more emphasis needs to be placed on category B and C responses which, if they fall below acceptable expectations, can cause considerable distress and trauma to patients and family members?

**Edwina Hart:** It must have been a traumatic experience for the parents. It was certainly not the standard of service that we would expect from the ambulance service or the national health service. In addition to category A issues, there are other issues relating to what happens when patients are discharged from hospital, and collecting patients for appointments. All of this is now being looked at. I was delighted that, yesterday, the first meeting took place of the patient transport review under Win Griffiths. A number of people from the voluntary sector and other sectors were present and they will get to grips with some of these patient transport issues, because they need to be dealt with properly. My best wishes go to the family; it must have been a difficult time for them.

### Hospital Car Parking Charges

**Q9 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the abolition of hospital car parking charges? OAQ(3)0590(HSS)

**Edwina Hart:** Car parking at all NHS trust sites in Wales is now provided free of charge for patients, staff and visitors, unless external contracts are in place. Where there are contracts in place, NHS trusts have introduced schemes to reduce costs.

**Peter Black:** Thank you for that response,

trosglwyddo Liam mewn ambiwlans i Ysbyty Brenhinol Plant Bryste. Ond, yn anffodus, bu'n rhaid canslo'r ambiwlans a drefnwyd ymlaen llaw a gadawyd y cwpl yn gwbl gyfrifol am y babi, a bu'n rhaid iddynt gludo Liam bach i Fryste mewn car. Petai unrhyw beth wedi digwydd i Liam ar y ffordd i Fryste, byddai canlyniad hynny wedi bod yn ddifrifol dros ben i'r cwpl ac, yn wir, i'r gwasanaeth ambiwlans.

A wnaiff y Gweinidog gydnabod, er mai dim ond at ymatebion categori A y tynnir sylw'r cyhoedd fel rheol, bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ymatebion categori B a C a all, os na chyrrhaeddant ddisgwyliadau derbyniol, achosi trallod a thrawma sylweddol i gleifion ac i aelodau o'u teuluoedd?

**Edwina Hart:** Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn brofiad trawmatig i'r rhieni. Yn bendant, nid dyna safon y gwasanaeth y byddem yn ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ambiwlans na chan y gwasanaeth iechyd gwladol. Yn ychwanegol at broblemau categori A, ceir problemau eraill yn ymwneud â beth sy'n digwydd pan fydd cleifion yn gadael yr ysbyty, ac wrth nôl cleifion ar gyfer apwyntiadau. Mae hyn oll yn cael ei ystyried yn awr. Yr oeddwn yn falch iawn y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr adolygiad o gludo cleifion, dan arweiniad Win Griffiths, ddoe. Yr oedd amryw o bobl o'r sector gwirfoddol a sectorau eraill yn bresennol, a byddant yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn yn ymwneud â chludo cleifion, oherwydd mae angen mynd i'r afael â hwy'n iawn. Anfonaf fy nymuniadau gorau i'r teulu; mae'n rhaid ei fod wedi bod yn gyfnod anodd iddynt.

### Tâl Parcio Ceir mewn Ysbytai

**C9 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiddymu tâl parcio ceir mewn ysbytai? OAQ(3)0590(HSS)

**Edwina Hart:** Gall cleifion, staff ac ymwelwyr barcio ceir am ddim ym mhob safle ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn awr, onid oes contractau allanol ar waith. Lle ceir contractau ar waith, mae ymddiriedolaethau'r GIG wedi cyflwyno cynlluniau i leihau costau.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw,

Minister. I ask you to look at issues such as those faced at Singleton Hospital, about which I am receiving anecdotal evidence. Constituents tell me that they are having trouble parking at that hospital because people other than hospital patients are using the car park. Many people have approached me to say that, when they have been visiting relatives, they have been unable to get into the car park or have had to leave half an hour or an hour earlier just to make sure that they are able to get a parking place and get there for visiting times.

**Edwina Hart:** It has also been drawn to my attention that this difficulty is faced by people attending an appointment at Singleton Hospital. I have spoken strongly to my officials about the position of the trusts on this. The trusts can administer a system to ensure that each car has a ticket, so I am sure that they can administer a system to ensure that each car belongs to a patient or visitor to the hospital. It is about time that they got on with it. We have only to look at the management structures in NHS trusts to see that they have plenty of people who can deliver this. I will ask them to update me, six months on from 1 April, as to exactly what is going on, because this is totally unacceptable.

**Lesley Griffiths:** Minister, in my constituency, Wrexham, your announcement on abolishing hospital car parking charges was welcomed by the vast majority of people to whom I spoke. My constituents described those charges as a stealth tax on the sick. The decision has also been welcomed in Wales by the British Medical Association, the Royal College of Nursing, Macmillan Cancer Support Wales, the Conservative-supporting TaxPayers Alliance, and even the Liberal Democrat Shadow Health Secretary, Norman Lamb. Do you feel vindicated by the support for that decision?

**Edwina Hart:** I have never sought vindication from anyone, because I already thought that I had made the right decision, Lesley.

Weinidog. Gofynnaf ichi edrych ar faterion megis y rheini a wynebir yn Ysbyty Singleton—materion yr wyf yn cael tystiolaeth anecdotaidd yn eu cylch. Dywed etholwyr wrthyf eu bod yn cael trafferth parcio yn yr ysbyty hwnnw am fod pobl ar wahân i gleifion yr ysbyty'n defnyddio'r maes parcio. Mae llawer o bobl wedi dod ataf i ddweud nad ydynt wedi llwyddo i gael lle yn y maes parcio neu eu bod wedi gorfod gadael hanner awr neu awr yn gynharach pan fyddant yn ymweld â pherthnasau er mwyn gwneud yn siŵr y gallant ddod o hyd i le parcio a'u bod yn cyrraedd erbyn yr amseroedd ymweld.

**Edwina Hart:** Dygwyd i'm sylw hefyd fod pobl sy'n mynd i apwyntiad yn Ysbyty Singleton yn wynebu'r anhawster hwn. Yr wyf wedi siarad yn gadarn â'm swyddogion am sefyllfa'r ymddiriedolaethau ynghylch hyn. Gall yr ymddiriedolaethau weinyddu system i sicrhau bod gan bob car docyn, felly yr wyf yn siŵr y gallant weinyddu system i sicrhau bod pob car yn eiddo i glaf neu i rywun sy'n ymweld â'r ysbyty. Mae'n hen bryd iddynt fwrw iddi. Dim ond edrych ar strwythurau rheoli ymddiriedolaethau'r GIG sy'n rhaid inni ei wneud i weld bod ganddynt ddigon o bobl a all gyflwyno hyn. Byddaf yn gofyn iddynt roi'r manylion diweddaraf imi chwe mis ar ôl 1 Ebrill ynghylch beth sy'n digwydd yn union, oherwydd mae hyn yn gwbl annerbyniol.

**Lesley Griffiths:** Weinidog, yn fy etholaeth i, Wrecsam, cafodd eich cyhoeddiad am ddiddymu tâl parcio ceir mewn ysbytai groeso brwd ymhlith mwyafrif helaeth y bobl y siaradais â hwy. Yr oedd fy etholwyr yn disgrifio'r taliadau hynny fel treth lechwraidd ar bobl sâl. Mae'r penderfyniad hefyd wedi'i groesawu yng Nghymru gan Gymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymorth Canser Macmillan Cymru, y Cynghrair Trethdalwyr sy'n cefnogi'r Ceidwadwyr, a hyd yn oed Norman Lamb, Ysgrifennydd Iechyd y Democratiaid Rhyddfrydol. A ydych yn teimlo bod y gefnogaeth i'r penderfyniad hwnnw'n cyfiawnhau'ch penderfyniad?

**Edwina Hart:** Nid wyf erioed wedi ceisio cyfiawnhad gan neb, oherwydd yr oeddwn eisoes yn meddwl imi wneud y penderfyniad cywir, Lesley.

**Janet Ryder:** To follow on from that, we have heard the Liberal Democrats refer to free parking at hospitals as one of the trivial provisions that should be dispensed with—they think that the money should instead be put into such things as the foundation phase. While we would all like to see the foundation phase fully funded, hospital car parking charges are, as we have just heard, a tax on being ill and should be abolished as soon as possible.

**Edwina Hart:** Absolutely. I agree with what both Lesley and you have said about that. That is what the majority of the public thinks. If you go into an NHS facility, the last thing that you want to worry about is whether you have the correct change, how long you will need to pay for, and what you have to do about parking. It is unfortunate that some of the trusts had entered into such long-term contracts for parking. I would have thought that they would have taken better advice before entering into some of them, because they do not have the clauses to allow them to get out of the contracts.

### Ysbyty Llandudno

**C10 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu argymhellion adroddiad Burns am ddyfodol Ysbyty Llandudno? OAQ(3)0615(HSS)

**Edwina Hart:** I have asked the local health board to lead on this work. A project team comprising local key stakeholders will meet in June to progress this work. By December 2008 it will send me its proposed model with a timescale for implementation.

**Gareth Jones:** A fedrwch gadarnhau y bydd, i'r dyfodol, tua 70 y cant o gleifion cardiac a strôc yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau yn Llandudno dan brotocol newydd a gymeradwywyd gan Mr Burns? A allwch gynnig unrhyw fanylion pellach ynghylch sut a pha bryd yr eir ati i bennu a all Llandudno ddod yn brif safle arbenigol ar gyfer llawdriniaeth canser y fron?

**Janet Ryder:** I ddilyn hynny, yr ydym wedi clywed y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfeirio at barcio am ddim mewn ysbytai fel un o'r darpariaethau dibwys y dylid ei hepgor—credant y dylid buddsoddi'r arian mewn pethau megis y cyfnod sylfaen yn hytrach na hynny. Er yr hoffai pob un ohonom weld y cyfnod sylfaen yn cael ei ariannu'n llawn, fel yr ydym newydd ei glywed, mae taliadau parcio ceir mewn ysbytai yn dreth ar bobl sâl a dylid eu diddymu cyn gynted â phosibl.

**Edwina Hart:** Yn ddi-os. Cytunaf â'r hyn yr ydych chi a Lesley ill dwy wedi'i ddweud am hynny. Dyna farn mwyafrif y cyhoedd. Os byddwch yn mynd i gyfleuster GIG, y peth olaf y mae arnoch eisiau poeni amdano ydy a yw'r newid cywir gennych, am faint o amser y bydd angen i chi dalu, a beth mae'n rhaid i chi ei wneud ynghylch parcio. Mae'n anffodus bod rhai o'r ymddiriedolaethau wedi ymrwymo i gontractau cyn hired ar gyfer parcio. Byddwn wedi meddwl y byddent wedi cymryd gwell cyngor cyn ymrwymo i rai ohonynt, oherwydd nid ydynt yn cynnwys cymalau i ganiatáu iddynt adael y contractau.

### Llandudno Hospital

**Q10 Gareth Jones:** Will the Minister make a statement on the implementation of recommendations made in the Burns report on the future of Llandudno Hospital? OAQ(3)0615(HSS)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi gofyn i'r bwrdd iechyd lleol arwain y ffordd ar y gwaith hwn. Bydd tîm prosiect, a fydd yn cynnwys rhanddeiliad allweddol lleol, yn cwrdd ym mis Mehefin er mwyn mynd â'r gwaith hwn rhagddo. Bydd yn anfon ei fodel arfaethedig imi erbyn Rhagfyr 2008, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei weithredu.

**Gareth Jones:** Can you confirm that, in future, some 70 per cent of cardiac and stroke patients will continue to use services in Llandudno under the new protocol approved by Mr Burns? Can you give any further details on how and when it will be decided that Llandudno can become a main specialist centre for breast cancer surgery?

12.50 p.m.

**Edwina Hart:** In terms of what is going on, the agreed service model will be completed by the end of the year. We will be looking for the finances and the implementation to be dealt with by March 2009 so that we can take strategic decisions on it. I am anxious for us to move ahead on the breast cancer centre, and that will be part of the discussions. A large percentage of patients will carry on using those services there.

We have to recognise that in Llandudno Hospital we have another excellent centre that offers a load of services and which is a key to delivering good health services across north Wales.

**Darren Millar:** The Burns report was just one outcome of the many reviews of the NHS in Wales that you have commissioned, a number of which are yet to report. What progress has been made in the review of clinical governance at Abergele Hospital? I am led to believe by the trust that this review is yet to commence, despite your announcement that it would be completed by the end of last year and that you hoped to be able to make some decisions in January.

**Edwina Hart:** That is one of the few reviews that I will not be able to report on—

**The Presiding Officer:** Order. This question is about Llandudno. Abergele is not in Llandudno as far as I am aware. However, perhaps the Minister can say something helpful about the matter.

**Edwina Hart:** I am more than happy to say something helpful. The majority of reviews will be completed and reported on in Plenary within the timescales given. The review of Abergele Hospital will, unfortunately, not be among them. We decided to use a particular route for the review with regard to who we involved in it in the academy, which meant that we were not quite able to get it off the ground when we wanted. Progress is being made, however, and there is discussion at a clinical level—that is progress in the centre; I

**Edwina Hart:** O ran yr hyn sy'n digwydd, bydd y model gwasanaeth cytunedig wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Byddwn yn ceisio sicrhau y delir â'r cyllid â'r gwaith gweithredu erbyn Mawrth 2009 er mwyn inni allu gwneud penderfyniadau strategol yn ei gylch. Yr wyf yn awyddus inni fwrw ymlaen â'r ganolfan canser y fron, a bydd hynny'n rhan o'r trafodaethau. Bydd cyfran uchel o'r cleifion yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny yn y ganolfan honno.

Rhaid inni gydnabod bod gennym yn Ysbyty Llandudno ganolfan ragorol arall sy'n cynnig amryfal wasanaethau ac sy'n allweddol o ran cyflenwi gwasanaethau iechyd da ar draws y gogledd.

**Darren Millar:** Dim ond un canlyniad o blith nifer o'r adolygiadau o'r GIG yng Nghymru a gomisiynwyd gennych oedd adroddiad Burns, ac mae amryw o'r adolygiadau heb adrodd yn ôl eto. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn yr adolygiad o lywodraethu clinigol yn Ysbyty Abergele? Mae'r ymddiriedolaeth yn fy arwain i gredu nad yw'r adolygiad hwn wedi dechrau eto, er gwaethaf eich cyhoeddiad y byddai wedi'i gwblhau erbyn diwedd y llynedd, ac ichi obeithio y gallech wneud rhai penderfyniadau ym mis Ionawr.

**Edwina Hart:** Mae hwnnw'n un o'r ychydig adolygiadau na fyddaf yn gallu adrodd arno—

**Y Llywydd:** Trefn. Cwestiwn am Landudno yw hwn. Nid yw Abergele yn Llandudno hyd y gwn i. Fodd bynnag, efallai y gall y Gweinidog ddweud rhywbeth defnyddiol am y mater.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn dra pharod i ddweud rhywbeth defnyddiol. Bydd mwyafrif yr adolygiadau wedi'u cwblhau, a byddaf wedi adrodd arnynt yn y Cyfarfod Llawn o fewn yr amserlenni a roddwyd. Yn anffodus, ni fydd yr adolygiad o Ysbyty Abergele yn eu plith. Penderfynwyd defnyddio trywydd penodol ar gyfer yr adolygiad a chofio pwy o'r academi a oedd yn gysylltiedig â'r adolygiad, a golygai hynny na allem ei roi ar waith pan hoffem. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud, a cheir trafodaeth ar lefel glinigol—cynnydd

am not talking about the involvement of the trust. When I get further information, I will write to the Member concerned.

### **Mental Health Treatment**

**Q11 Alun Cairns:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for the treatment of mental health? OAQ(3)0592(HSS)

**Edwina Hart:** There is a 'One Wales' commitment to a renewed priority for mental health services in Wales, and I refer you to my statement on the Michael Williams report on 3 June.

**Alun Cairns:** I would like to move on from the treatment of mental health for people at school to mental health support for people in the workplace. Will the Minister support those employers who are prepared to employ individuals who have some mental health issues? What additional support can the Assembly Government offer to encourage more employers to do that? After all, treatment in the workplace is often far better than treatment in isolation.

**Edwina Hart:** I concur with the principles behind your question. We have a duty here and in the Assembly we try to look at how we treat staff with mental health issues. That should apply across the public sector. We should also engage with the employers who are good on these issues. I am concerned about developing better occupational health services across the piece, and this is a strand that I am currently pursuing.

### **Occupational Health Services**

**Q12 Lesley Griffiths:** What is the Welsh Assembly Government doing to improve occupational health services in north Wales? OAQ(3)0584(HSS)

**Edwina Hart:** That follows on nicely from the previous question. We are pursuing an integrated approach to improving occupational health services, including Workboost Wales, the occupational health

yn y ganolfan hynny yw; nid sôn am gyfraniad yr ymddiriedolaeth ydwyf. Ysgrifennaf at yr Aelod dan sylw pan gaf ragor o wybodaeth.

### **Triniaeth Iechyd Meddwl**

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer trin iechyd meddwl? OAQ(3)0592(HSS)

**Edwina Hart:** Ceir ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i flaenoriaeth a adnewyddwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, ac fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ar 3 Mehefin am adroddiad Michael Williams.

**Alun Cairns:** Carwn symud ymlaen oddi wrth y modd yr ymdrinnir ag iechyd meddwl ar gyfer pobl yn yr ysgol, at gefnogaeth iechyd meddwl i bobl yn y gweithle. A wnaiff y Gweinidog gefnogi'r cyflogwyr hynny sy'n barod i gyflogi unigolion sydd â rhywfaint o broblemau iechyd meddwl? Pa gymorth ychwanegol y gall Llywodraeth y Cynulliad ei gynnig i annog mwy o gyflogwyr i wneud hynny? Wedi'r cyfan, mae triniaeth yn y gweithle'n aml yn well o lawer na thriniaeth ar eich pen eich hun.

**Edwina Hart:** Cytunaf â'r egwyddorion sy'n sail i'ch cwestiwn. Mae gennym ddyletswydd yma, ac yn y Cynulliad ceisiwn edrych ar sut yr ydym yn trin staff a chanddynt broblemau iechyd meddwl. Dylai hynny fod yn berthnasol ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Dylem hefyd ymgysylltu â'r cyflogwyr sy'n dda gyda'r materion hyn. Mae datblygu gwasanaethau iechyd galwedigaethol gwell yn gyffredinol yn peri pryder imi, ac mae hon yn elfen yr wyf yn mynd ar ei thrywydd ar hyn o bryd.

### **Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol**

**C12 Lesley Griffiths:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella gwasanaethau iechyd galwedigaethol yng nogledd Cymru? OAQ(3)0584(HSS)

**Edwina Hart:** Mae hynny'n ddilyniant naturiol o'r cwestiwn blaenorol. Yr ydym yn mynd ar drywydd dull integredig i wella gwasanaethau iechyd galwedigaethol, gan gynnwys Hybu Gwaith Cymru, y prosiect

and physiotherapy project, the corporate health standard and Healthy Working Wales. In addition, I am convening a task and finish group to explore the potential to provide occupational health services on a statutory basis. I was pleased to open, with you, a new occupational health service facility, with new dedicated facilities, at Wrexham Maelor Hospital earlier this year.

**Lesley Griffiths:** As you said, you opened the new facility at Wrexham Maelor Hospital earlier this year. This new facility will provide support and advice to staff and managers on protecting against ill health associated with conditions at work, assess risks to health and educate staff in health matters.

The facility also offers services to other public and private organisations in the Wrexham area, such as the North East Wales Institute of Higher Education, Yale College, Nightingale House Hospice and Wrexham County Borough Council to name but a few. Do you agree that specialist occupational health advice of this kind gives Wrexham a double benefit? It is not just good sense in healthcare for local employees, but good news for Wrexham's economy.

**Edwina Hart:** I totally concur with your comments. It is a first-class example of what can be done in the NHS in Wales in partnership with the private sector. I referred to large companies in my response to Alun Cairns, but one of the difficult areas arises in relation to small and medium-sized companies and the help that they need with employees. That is something that Professor Aylward, when he chairs the task and finish group on the 'One Wales' commitments will be looking at specifically.

**Mark Isherwood:** How will you provide clarity for the occupational therapy service in the North East Wales NHS Trust, which has written to you in response to the consultation document on the structure of the NHS, saying that it is unclear and does not adequately define what 'community' refers to, and expressing its concerns as an integrated trust

iechyd galwedigaethol a ffisiotherapi, y safon iechyd gorfforaethol a Healthy Working Wales. Hefyd, yr wyf yn cynnull grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio i bosibilrwydd darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar sail statudol. Yr oedd yn bleser gennyf agor, gyda chi, cyfleuster gwasanaeth iechyd galwedigaethol newydd, gyda chyfleusterau penodol newydd, yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn gynharach eleni.

**Lesley Griffiths:** Fel y dywedasoeh, gwnaethoch agor y cyfleuster newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn gynharach eleni. Bydd y cyfleuster newydd hwn yn darparu cymorth a chynghor i staff a rheolwyr ynghylch amddiffyn yn erbyn iechyd gwael sy'n gysylltiedig ag amodau yn y gwaith, asesu peryglon iechyd ac addysgu staff am faterion iechyd.

Mae'r cyfleuster hefyd yn cynnig gwasanaethau i sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill yn ardal Wrecsam, megis Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Coleg Iâl, Hosbis Tŷ'r Eos a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i enwi dim ond rhai. A gytunwch fod cynghor arbenigol o'r math hwn am iechyd galwedigaethol yn rhoi dwywaith cymaint o fudd i Wrecsam? Mae'n gwneud synnwyr o ran gofal iechyd i weithwyr lleol a hefyd yn newyddion da i economi Wrecsam.

**Edwina Hart:** Cytunaf yn llwyr â'ch sylwadau. Mae'n enghraifft wych o'r hyn y gellir ei wneud yn y GIG yng Nghymru mewn partneriaeth â'r sector preifat. Cyfeiriais at gwmnïau mawr yn fy ateb i Alun Cairns, ond mae un o'r meysydd anodd yn codi yng nghyd-destun cwmnïau bach a chanolig eu maint a'r cymorth y mae arnynt ei angen gyda gweithwyr. Mae hynny'n rhywbeth y bydd yr Athro Aylward yn edrych arno'n benodol pan fydd yn cadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen ynghylch ymrwymadau 'Cymru'n Un'.

**Mark Isherwood:** Sut y byddwch yn darparu eglurdeb ar gyfer gwasanaeth therapi galwedigaethol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru sydd wedi ysgrifennu atoch i ymateb i'r ddogfen ymgynghori am strwythur y GIG, gan ddweud ei bod yn aneglur ac nad yw'n rhoi diffiniad digonol o beth mae 'cymuned' yn cyfeirio ato?



with a defined therapy model covering community care and acute care on a seamless basis?

**Edwina Hart:** We have had substantial communications about the NHS reforms. I will be looking at the consultation responses in the round when they all come in, so it would be unfair for me to comment on an individual response at this stage.

### Intensive Care Unit Beds

**Q13 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on the provision of intensive care unit beds in north Wales hospitals? OAQ(3)0608(HSS)

**Edwina Hart:** The provision of intensive care beds in north Wales is currently being reviewed as a result of a quality requirements audit undertaken at the end of 2007. The regional critical care network is meeting each trust to develop local plans to achieve the required standards and capacity for north Wales.

**Brynle Williams:** Thank you for that response, Minister; it is pleasing to hear that something is being done. I have written to you on several occasions about the lack of intensive care unit beds in Ysbyty Glan Clwyd. There are only eight of these beds, all of which are constantly in demand. On three occasions a constituent of mine has been prepared for an operation, only for it to be cancelled at a half hour's notice. Minister, what assurances can you give that the recommendations of the damning report on Health Commission Wales will be taken on board by your Government so that people in north Wales can see an improvement in this respect?

**Edwina Hart:** I appreciate the difficulties that critical care departments experience at times of increased pressure, and they certainly have those in north Wales. We recognise the need to improve the way in which critical care services are currently planned, organised and delivered across Wales, particularly in north Wales. I very much hope that this will be addressed when I look at the future of Ysbyty Glan Clwyd and

Mynegodd ei phryderon fel ymddiriedolaeth integredig sydd â model therapi diffiniedig sy'n ymdrin â gofal cymunedol a gofal aciwt ar sail ddi-dor.

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi cyfathrebu llawer am ddiwygiadau'r GIG. Byddaf yn edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn eu cyfanrwydd pan ddônt i gyd i law, felly byddai'n annheg imi wneud sylw am ymateb unigol ar hyn o bryd.

### Gwelyau Unedau Gofal Dwys

**C13 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwelyau unedau gofal dwys yn ysbytai gogledd Cymru? OAQ(3)0608(HSS)

**Edwina Hart:** Mae darpariaeth gwelyau gofal dwys yn y gogledd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn sgil archwiliad o ofnyion ansawdd a gynhaliwyd ddiwedd 2007. Mae'r rhwydwaith gofal critigol rhanbarthol yn cwrdd â phob ymddiriedolaeth i ddatblygu cynlluniau lleol i gyflawni'r safonau a'r capasiti gofynnol ar gyfer y gogledd.

**Brynle Williams:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog; mae'n braf clywed bod rhywbeth yn cael ei wneud. Yr wyf wedi ysgrifennu atoch droeon ynghylch y prinder gwelyau yn yr uned gofal dwys yn Ysbyty Glan Clwyd. Dim ond wyth o'r gwelyau hyn sydd ar gael, ac mae galw am bob un ohonynt yn gyson. Mae un o'm hetholwyr wedi paratoi ar gyfer llawdriniaeth deirgwaith, a'r llawdriniaeth honno wedi'i chanslo gyda hanner awr o rybudd bob tro. Weinidog, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd eich Llywodraeth yn ystyried argymhellion yr adroddiad damniol am Gomisiwn Iechyd Cymru, er mwyn i bobl yn y gogledd weld gwelliant yn hyn o beth?

**Edwina Hart:** Sylweddolaf yr anawsterau y mae'r adrannau gofal critigol yn eu hwynebu ar adegau pan geir pwysau cynyddol, ac maent yn bendant yn cael yr adegau hynny yn y gogledd. Cydnabyddwn yr angen i wella'r modd y mae gwasanaethau gofal critigol yn cael eu cynllunio, eu trefnu a'u cyflenwi ar hyn o bryd ar draws Cymru, yn enwedig yn y gogledd. Gobeithiaf yn fawr yr eir i'r afael â hyn pan edrychaf ar ddyfodol Ysbyty Glan

other aspects of the health service in north Wales. On the Health Commission Wales report, it is fair to say that it was a very difficult report to respond to, but I very much want to take forward what Professor Aylward has said about HCW; it will benefit your constituents in north Wales.

### Protecting Staff from Violence

**Q14 Rosemary Butler:** Will the Minister make a statement on measures to protect staff from violence at the Royal Gwent Hospital? OAQ(3)0605(HSS)

**Edwina Hart:** The hospital has 28 CCTV cameras, two trained security officers, an emergency response telephone, glass safety screens or shutters for reception areas at risk, a security escort service for night workers and departmental attack alarms. I also understand that staff are trained in personal safety as well as break away and physical intervention techniques.

**Rosemary Butler:** Thank you very much for that response, Minister. I am sure that you will agree that staff at the Royal Gwent Hospital do far more than one would expect. Recently, two ambulance men tackled and detained an armed man who was trying to run into the hospital, so they do things that are way above what one would expect. I am appalled at the verbal abuse of staff. The frequency of attacks on ordinary nurses by patients is an absolute disgrace. I hope that the measures that you have mentioned will help to protect the staff, because they are the biggest asset of the Gwent NHS Health Trust. They are exceptional, and I hope that they will not be deterred from going to work or applying for jobs because of this constant threat of verbal and physical abuse. Will you be reviewing the actions within six months?

**Edwina Hart:** Yes. We have had the task and finish group on dealing with violence against NHS staff. We are currently working through the proposals on how to introduce measures, and how to deal with lone workers and whatever alarm systems they require.

Clwyd ac ar agweddau eraill ar y gwasanaeth iechyd yn y gogledd. Parthed adroddiad Comisiwn Iechyd Cymru, mae'n deg dweud iddo fod yn adroddiad a oedd yn anodd iawn ymateb iddo, ond yr wyf wir am weithredu ar yr hyn y mae'r Athro Aylward wedi'i ddweud am CIC; bydd o fudd i'ch etholwyr yn y gogledd.

### Amddiffyn Staff rhag Trais

**C14 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau i amddiffyn staff rhag trais yn Ysbyty Brenhinol Gwent? OAQ(3)0605(HSS)

**Edwina Hart:** Mae gan yr ysbyty 28 camera teledu cylch cyfyng, dau swyddog diogelwch hyfforddedig, ffôn ymateb brys, sgriniau gwydr diogelwch neu gaeadon mewn derbynfeydd sy'n agored i risg, gwasanaeth hebrwng diogelwch ar gyfer gweithwyr nos a larymau ymosod mewn adrannau. Caf ar ddeall hefyd bod staff wedi cael hyfforddiant mewn diogelwch personol ac mewn technegau rhyddhau eu hunain ac ymyrryd corfforol.

**Rosemary Butler:** Diolch yn fawr iawn ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod staff Ysbyty Brenhinol Gwent yn gwneud llawer mwy na fyddai rhywun yn ei ddisgwyl. Yn ddiweddar, cafodd gŵr arfog a oedd yn ceisio rhedeg i mewn i'r ysbyty ei daclo a'i ddal gan ddau ddyn ambiwlans. Felly, maent yn gwneud pethau llawer mwy na fyddai rhywun yn ei ddisgwyl. Mae'r modd y caiff staff eu cam-drin yn eiriol yn fy nychryn. Mae amllder ymosodiadau gan gleifion ar nyrsys cyffredin yn gwbl warthus. Gobeithiaf y bydd y camau yr ydych wedi'u crybwyll yn gymorth i ddiogelu'r staff, oherwydd hwy yw ased fwyaf Ymddiriedolaeth Iechyd GIG Gwent. Maent yn eithriadol, a gobeithio na chânt eu digalonni rhag mynd i'r gwaith neu ymgeisio am swyddi oherwydd y bygythiad cyson hwn o gam-drin geiriol a chorfforol. A fyddwch yn adolygu'r camau gweithredu ymhen chwe mis?

**Edwina Hart:** Byddwn. Yr ydym wedi cael y grŵp gorchwyl a gorffen ynghylch ymdrin â thrais yn erbyn staff y GIG. Yr ydym ar hyn o bryd yn gweithio drwy'r cynigion ynghylch sut mae cyflwyno camau gweithredu, a sut mae delio â phobl sy'n gweithio ar eu pen eu

Many staff do not report verbal abuse, and that is part of the problem, because the reporting mechanisms are not fit for purpose. You feel that you have to get a form or be spoken to. You need to be able to have some system, because we have to have records on this. You are absolutely correct in saying that the greatest asset that we have in the NHS is our staff, and they need to be protected. I have found that NHS staff tend to take verbal abuse as par for the course and just get on with the job, but it would not be accepted in any other walk of life. We must explain to staff that it is their duty to report this, so that we can know about the incidents. It is then my duty to see whether this is happening all of the time with the same patients, and question what we start to do about those individuals, and whether they should be allowed the type of access that they currently have under the national health service, or whether they should have to access it in a specific way that protects staff from their abuse.

hunain a pha systemau larwm y mae eu hangen arnynt. Mae llawer o staff yn peidio â riportio achosion o gam-drin geiriol, ac mae hynny'n rhan o'r broblem, oherwydd nid yw'r mecanweithiau riportio yn addas i'r pwrpas. Yr ydych yn teimlo ei bod yn rhaid i chi gael ffurflen neu gael rhywun i siarad â chi. Mae angen ichi allu cael rhyw fath o system, oherwydd mae'n rhaid inni gael cofnodion am hyn. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud mai ein staff yw ein hased fwyaf yn y GIG, ac mae angen eu hamddiffyn. Yr wyf wedi canfod bod staff y GIG yn dueddol o dderbyn cam-drin geiriol fel rhan o'r swydd ac yn mynd ymlaen â'r gwaith, ond ni châi ei dderbyn mewn unrhyw sefyllfa arall mewn bywyd. Rhaid inni egluro wrth staff mai eu dyletswydd hwy yw cofnodi hyn, er mwyn inni allu gwybod am yr achosion. Fy nyletswydd i wedyn yw gweld a yw hyn yn digwydd drwy'r amser gyda'r un cleifion, a chwestiynu beth yr ydym am ddechrau ei wneud am yr unigolion hynny, ac a ddylid caniatáu iddynt gael y math o fynediad sydd ganddynt ar hyn o bryd dan y gwasanaeth iechyd gwladol, ynteu a ddylent orfod cael mynediad ato mewn ffordd benodol sy'n amddiffyn staff rhag cael eu cam-drin ganddynt.

1.00 p.m.

**The Presiding Officer:** Question 15, OAQ(3)0597(HSS), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)0597(HSS), yn ôl.

### **Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

#### **Questions to Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport**

##### **The Business Partnership Council**

##### **Y Cyngor Partneriaeth Busnes**

**Q1 David Melding:** Will the Deputy First Minister make a statement on the current status of the business partnership council?  
OAQ(3)0546(ECT)

**C1 David Melding:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am statws cyfredol y cyngor partneriaeth busnes?  
OAQ(3)0546(ECT)

**The Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** The business partnership council last met on 7 May and will meet again on 16 October. It remains an important, informative and robust forum within which we test and develop our policies with the business community and trade unions.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Cyfarfu'r cyngor partneriaeth busnes y tro diwethaf ar 7 Mai a bydd yn cyfarfod eto ar 16 Hydref. Mae'n parhau'n fforwm pwysig a chadarn sy'n rhoi llawer o wybodaeth a lle yr ydym yn pwysu a mesur ac yn datblygu ein polisiau gyda'r gymuned

fusnes a'r undebau llafur.

**David Melding:** I am relieved to hear that it has at least met at last—it did not quite make the first anniversary of this Assembly. This is sluggish performance compared to that of the voluntary sector partnership and the local government partnership. However, I hope that it informs and persuades the Assembly Government in a robust fashion to take on the concerns of the private sector in particular. I endorse the calls in the *Western Mail* today by the Confederation of British Industry for us to use the skills of the private sector much more, in particular to achieve the Beecham agenda. Will you discuss with the business partnership council the whole Beecham agenda and how we get over this terrible ideological barrier, which your party has brought to this term of the Assembly, that somehow the private sector is not welcome to help us to deliver effective public services?

**The Deputy First Minister:** In recent question sessions, there has been a trend for me to find little to disagree with David Melding on. However, today he has decided to go in a slightly different direction. There we are; perhaps we can resume our agreement across the Chamber at some other time.

It is important to recognise that there was a delay in setting up the business partnership council last year for pretty obvious reasons. However, I am pleased that the partnership is now up and running; it will be meeting in its normal way. Although there was no meeting in the early months, I have met the Confederation of British Industry, Chamber Wales, the Association of Chartered Certified Accounts, the Engineering Employers' Federation and others, which shows that there is considerable engagement with the private sector. I want to develop many ideas alongside the private sector. I have had constructive dialogue in my meetings with the private sector.

**David Melding:** Mae'n rhyddhad gennyf glywed ei fod wedi cyfarfod, o leiaf, o'r diwedd—bu bron iddo lwyddo i gyfarfod cyn pen-blwydd cyntaf y Cynulliad hwn, ond ni wnaeth. Mae'r perfformiad hwn yn ddiegni o'i gymharu â pherfformiad partneriaeth y sector gwirfoddol a'r bartneriaeth llywodraeth leol. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd yn mynd ati'n gadarn i ddweud wrth Lywodraeth y Cynulliad am ymgymryd â phryderon y sector preifat yn benodol, ac yn ei pherswadio i wneud hynny. Croesawaf y ffaith bod Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi galw yn y *Western Mail* heddiw am inni ddefnyddio mwy o lawer ar sgiliau'r sector preifat, yn benodol er mwyn cyflawni agenda Beecham. A drafodwch agenda Beecham yn ei chyfanrwydd gyda'r cyngor partneriaeth busnes, ynghyd â sut y gallwn gamu dros y rhwystr ideolegol ofnadwy hwn a ddaeth gyda'ch plaid i dymor presennol y Cynulliad, sef nad oes croeso, rywsut, i'r sector preifat ein helpu i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithiol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn ystod sesiynau holi diweddar, bu tuedd imi beidio â chanfod bron ddim rheswm dros anghytuno â David Melding. Heddiw, fodd bynnag, mae wedi penderfynu mynd i gyfeiriad ychydig yn wahanol. Dyna ni; efallai y cawn barhau i gytuno yn y Siambr ryw dro eto.

Mae'n bwysig cydnabod y bu oedi wrth sefydlu'r cyngor partneriaeth busnes y llynedd am resymau pur amlwg. Fodd bynnag, yr wyf yn falch bod y bartneriaeth yn awr wedi'i sefydlu; bydd yn cyfarfod yn ei ffordd arferol. Er na chafwyd cyfarfod yn y misoedd cynnar, yr wyf wedi cyfarfod â Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain, Siambrau Cymru, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianeg ac eraill, sy'n dangos cyswllt sylweddol â'r sector preifat. Mae arnaf eisiau datblygu llawer o syniadau ochr yn ochr â'r sector preifat. Yr wyf wedi cael deialog adeiladol yn fy nghyfarfodydd gyda'r sector preifat.

**Mentergarwch**

**C2 David Lloyd:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo mentergarwch? OAQ(3)0569(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae fy ngweledigaeth o economi gryfach a mwy mentrus wedi ei hamlinellu yn 'Cymru'n Un'. Yr wyf wrthi'n cyflawni'r weledigaeth honno drwy nifer o fentrau, gan gynnwys cefnogi menter drwy fodel newydd cymorth hyblyg i fusnes.

**David Lloyd:** Yr oedd llwyddiant cwmni Fluid Power Solutions Wales ym Mhort Talbot, wedi denu cefnogaeth cronfeydd strwythurol Ewrop 2002-06, yn adlewyrchu'r manteision y mae rhaglenni megis y gronfa fenthyciadau i gychwyn yn gallu eu cynnig i fusnesau newydd yng Nghymru. Bydd cefnogaeth y fenter honno yn sicr o roi hwb i bobl sy'n ystyried cymryd y cam cyntaf i fyd busnes. A gytunwch fod codi ymwybyddiaeth o'r fenter wych hon yn allweddol i'w llwyddiant?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn falch bod y cwmni hwn wedi elwa o'r gronfa ac o'r cymorth y mae modd i'r Llywodraeth ei roi i fusnesau newydd. Mae'n bwysig i ni bwysleisio bod cefnogaeth yn cael ei rhoi yn y dyddiau cyntaf anodd hynny. Byddaf yn cydweithio â'm swyddogion i sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei rhoi am y cymorth a roddir i fusnesau newydd. Bydd y gronfa newydd ar gyfer busnesau newydd yn weithredol o 16 Mehefin. Felly, bydd arian ychwanegol ar gael i fusnesau newydd. Gwerthfawrogaf y ffaith bod cymorth wedi'i roi yn y gorffennol a hyderaf y gallwn wneud mwy i helpu busnesau newydd yn y dyfodol.

**Alun Cairns:** Entrepreneurship is often a measure of the dynamism of an economy and the success of many of the business support units. Why is the rate in Wales so much lower than that in England?

**The Deputy First Minister:** Entrepreneurship is an important concept for us to develop. I am sure that Alun is aware that there is a commitment on this in the

**Entrepreneurship**

**Q2 David Lloyd:** What steps is the Welsh Assembly Government taking to promote entrepreneurship? OAQ(3)0569(ECT)

**The Deputy First Minister:** My vision for a stronger and more enterprising economy is outlined in 'One Wales'. I am delivering that vision through a number of initiatives, including supporting enterprise via the new flexible support for business model.

**David Lloyd:** The success of the Fluid Power Solutions Wales company in Port Talbot, having attracted support from the 2002-06 European structural funds, is a reflection of the benefits that new businesses in Wales can gain through programmes such as the start-up loan fund. Support from that initiative will certainly give a boost to those considering taking the first step into the world of business. Would you agree that raising awareness of that excellent initiative is vital to its success?

**The Deputy First Minister:** I am pleased that this company has benefited from the fund and from the support that the Government can provide to new businesses. It is important for us to emphasise that support is provided during those difficult early days. I will work with my officials to ensure that more information is offered on the support that is available for new businesses. The new fund for new businesses will be operational from 16 June. Therefore, additional funds will be available for new businesses. I appreciate the fact that support has been provided in the past, and I am hopeful that we can do more to help new businesses in the future.

**Alun Cairns:** Mae entrepreneuriaeth yn aml yn fesur o egni economi a llwyddiant llawer o'r unedau cefnogi busnes. Pam mae'r gyfradd yng Nghymru gymaint yn llai na'r gyfradd yn Lloegr?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae entrepreneuriaeth yn gysyniad pwysig inni ei ddatblygu. Yr wyf yn siŵr y gŵyr Alun y ceir ymrwymiad yng nghyswllt hyn yng

'One Wales' agreement, and I have also made it clear that I want to work with the higher education sector in particular and others to drive up the numbers of entrepreneurs in Wales. As a result of our commitment as a Government, I will be making a clear statement that I want to see this happen, working with higher education, and I will announce further funding for these projects.

### Improving the Welsh Economy

**Q3 Angela Burns:** What steps is the Deputy First Minister taking to improve the Welsh economy? OAQ(3)0576(ECT)

**The Deputy First Minister:** As I have stated previously in the Chamber, my priorities for improving the economy are: providing flexible support for business to respond to the needs of individual companies across Wales; increasing research in Wales for commercial benefit; taking a strategic approach to regeneration; and having a progressive agenda on transport.

**Angela Burns:** I do not think that I heard you mention skills. Recent reports have shown that labour productivity in Wales is much lower than the UK average. You have pointed out that the gross value added figures have gone down and that Wales has been overtaken by the north-east of England. These are real concerns that we must address immediately. Do you agree that, until we accept the recommendations of the Leitch review, we are destined to have low productivity and a low skills base in Wales?

**The Deputy First Minister:** I did not mention skills specifically in my reply because they are the departmental responsibility of Jane Hutt and John Griffiths. However, I recognise that it is important for us to work together and I acknowledge your point about the need for skills. I am working very closely with Jane Hutt and John Griffiths on this agenda, and I am now chairing a Cabinet committee that brings all of these issues, including skills, regeneration and research and development, together. I am pretty sure that we will be

nghytundeb 'Cymru'n Un', ac yr wyf hefyd wedi'i gwneud yn glir fy mod am weithio gyda'r sector addysg uwch yn benodol ac eraill i godi niferoedd yr entrepreneuriaid yng Nghymru. O ganlyniad i'n hymrwymiad fel Llywodraeth, byddaf yn gwneud datganiad clir fy mod yn dymuno gweld hyn yn digwydd, gan weithio gydag addysg uwch, a byddaf yn cyhoeddi rhagor o gyllid ar gyfer y prosiectau hyn.

### Gwella Economi Cymru

**C3 Angela Burns:** Pa gamau y mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn eu cymryd i wella economi Cymru? OAQ(3)0576(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fel y dywedais o'r blaen yn y Siambr, dyma fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella'r economi: darparu cymorth hyblyg i fusnes yn ymateb i anghenion cwmnïau unigol ar hyd a lled Cymru; cynnal mwy o ymchwil yng Nghymru a fydd yn fanteisiol o safbwynt masnachol; sefydlu dull strategol o adfywio; a chael agenda flaengar ar drafnidiaeth.

**Angela Burns:** Nid wyf yn meddwl imi eich clywed yn crybwyll sgiliau. Mae adroddiadau diweddar wedi dangos bod cynhyrchiant llafur yng Nghymru yn is o lawer na chyfartaledd y DU. Yr ydych wedi tynnu sylw at y ffaith bod ffigurau gwerth ychwanegol crynswth wedi gostwng a bod ffigurau gogledd-ddwyrain Lloegr bellach yn uwch na rhai Cymru. Mae'r rhain yn bryderon gwirioneddol y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy ar unwaith. A gytunwch mai cynhyrchiant isel a sylfaen sgiliau isel fydd gennym yng Nghymru nes inni dderbyn argymhellion adolygiad Leitch?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni chrybwyllais sgiliau'n benodol yn fy ateb oherwydd mai cyfrifoldeb adrannol Jane Hutt a John Griffiths ydynt. Fodd bynnag, yr wyf yn sylweddoli ei bod yn bwysig inni weithio gyda'n gilydd ac yr wyf yn cydnabod eich sylw am ar angen i gael sgiliau. Yr wyf yn gweithio'n agos iawn gyda Jane Hutt a John Griffiths ar yr agenda hon, ac yr wyf bellach yn gadeirydd ar un o bwyllgorau'r Cabinet sy'n dod â'r holl faterion hyn, gan gynnwys sgiliau, adfywio ac ymchwil a datblygu, at ei gilydd. Yr wyf yn bur sicr y byddwn yn

making considerable progress in that regard. However, I will take no lessons from the Conservatives on GVA figures. In fact, we had some of the worst figures that we have ever seen under the last Conservative Government, which we must bear in mind.

**Jenny Randerson:** We used to have frequent statements in the Chamber on job losses. Mercifully, there have not been so many recently. However, in the past week or so, we have had some bad news in Cardiff. Cardiff has a growing reputation for being a centre for education at all levels, but there have been two worrying recent announcements. One is the potential redundancy of 300 staff employed by the International Baccalaureate. Have you had conversations or meetings with the IB to try to encourage and persuade it to stay in Wales, and in Cardiff, and to let it know that its reputation is important to us? Those 300 jobs are highly skilled, high quality jobs. The other announcement was of the potential loss of 40 jobs at Coleg Glan Hafren. Those two announcements concern high quality jobs. Fforwm estimates that the further education sector in Wales contributes more than £1 billion a year to the Welsh economy through increased skills, direct jobs and, of course, spin-off factors such as lower crime rates and so on.

Have you had discussions with your colleague, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to try to offset the impact—not only in Cardiff, but throughout Wales—of the wave of job losses in further education?

**The Deputy First Minister:** I recognise the importance of what you have said about these jobs and I will write to you in greater detail when I have received an updated report from Jane Hutt. We will be working across Government to do what we can. However, as I think you have recognised, Cardiff, as a capital city, has benefited from substantial investment and job creation over the past few years. It is well placed in terms of its status

gwneud cynnydd sylweddol yng nghyswllt hynny. Fodd bynnag, ni dderbyniaf wersi am ffigurau GYC gan y Ceidwadwyr. Yn wir, yr oedd gennym rai o'r ffigurau gwaethaf inni eu gweld erioed dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf, a rhaid cofio hynny.

**Jenny Randerson:** Arferem gael datganiadau rheolaidd yn y Siambr ar golli swyddi. Nid chafwyd cynifer yn ddiweddar, diolch am hynny. Fodd bynnag, yn yr wythnos neu ddwy diwethaf, yr ydym wedi cael rhywfaint o newyddion drwg yng Nghaerdydd. Mae gan Gaerdydd enw cynyddol dda am fod yn ganolfan addysg ar bob lefel, ond cafwyd dau ddatganiad yn ddiweddar, sy'n peri pryder. Mae un yn ymwneud â phosibilrwydd gwneud 300 aelod o staff a gyflogir gan y Fagloriaeth Ryngwladol yn ddi-waith. A ydych wedi cael sgwrs neu drafodaeth gyda'r Fagloriaeth Ryngwladol i geisio ei hannog a'i pherswadio i aros yng Nghymru, ac yng Nghaerdydd, ac i'w hysbysu bod ei henw da yn bwysig inni? Mae'r 300 o swyddi hynny'n swyddi hynod greffus, uchel eu hansawdd. Yr oedd a wnelo'r ail gyhoeddiad â phosibilrwydd colli 40 o swyddi yng Ngholeg Glan Hafren. Mae'r ddau gyhoeddiad hynny'n ymwneud â swyddi o safon uchel. Mae Fforwm yn amcangyfrif bod y sector addysg bellach yng Nghymru yn cyfrannu mwy na £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru drwy gyfrwng rhagor o sgiliau, swyddi uniongyrchol ac, wrth gwrs, ffactorau sy'n deillio o hyn megis lefelau troseddu is ac ati.

A ydych wedi cynnal trafodaethau â'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i geisio gwneud iawn am effaith y don o golledion swyddi ym maes addysg bellach—nid yn unig yng Nghaerdydd, ond ledled Cymru?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd yr hyn yr ydych wedi'i ddweud am y swyddi hyn ac ysgrifennaf atoch gyda rhagor o fanylion pan fyddaf wedi cael adroddiad wedi'i ddiweddarau gan Jane Hutt. Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o'r Llywodraeth i wneud yr hyn a allwn. Fodd bynnag, fel yr ydych wedi sylweddoli, fe dybiaf, mae Caerdydd, fel prif ddinas, wedi elwa yn sgil

and its capacity to draw in new employment. However, as I said, I will write to you specifically on those points.

buddsoddi sylweddol a chreu swyddi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae mewn sefyllfa dda o ran ei statws a'i gallu i ddenu cyflogaeth newydd. Fodd bynnag, fel y dywedais, ysgrifennaf atoch yn benodol am y pwyntiau hynny.

### The Economy of North Wales

**Sandy Mewies:** I had the great pleasure today of welcoming colleagues from my trade union, Unite. They are in the public gallery. Will you join me in congratulating them on their efforts to support the Welsh economy? Can you assure me that, as the Welsh Assembly Government, you will continue to do everything in your power to support their efforts and that you will urge your colleagues in the Westminster Government to do the same?

1.10 p.m.

**The Deputy First Minister:** Yes, indeed. When I was answering the question from David Melding, I wanted to make it clear that the discussions that we are having are with both sides of industry. I have had considerable contact with the trade unions, particularly regarding issues around potential job losses that there have been in recent months. I have found my discussions with them to be extremely helpful and positive. In many areas, they have assisted us in our efforts to ensure that job losses were averted in some cases and, in others, that significant investment decisions have been made. I continue to look forward to working with the trade unions and others to ensure that we can make progress in these areas.

**Mark Isherwood:** I, too, am a great personal supporter of industrial democracy. I am sure that you will be aware of any threats and opportunities facing the aerospace and defence industries in north Wales that will have a direct impact on the economy of north Wales. What is the current position regarding plans to bring work on the unmanned air vehicle—work that is currently being undertaken in the US—to the UK and specifically to Llanbedr airfield where, I understand, the Ministry of Defence had

### Economi Gogledd Cymru

**Sandy Mewies:** Cefais bleser gwirioneddol heddiw yn sgil croesawu cydweithwyr o'm hundeb llafur, Unite. Maent yn y galeri cyhoeddus. A ymunwch â mi i'w llongyfarch am eu hymdrechion i gefnogi economi Cymru? A allwch fy sicrhau y byddwch, fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn parhau i wneud popeth yn eich gallu i gefnogi eu hymdrechion ac y byddwch yn annog eich cyd-Weinidogion yn Llywodraeth San Steffan i wneud yr un fath?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwnaf, yn wir. Pan oeddwn yn ateb cwestiwn David Melding, yr oedd arnaf eisiau ei gwneud yn glir ein bod yn cynnal trafodaethau gyda dwy ochr y diwydiant. Yr wyf wedi cael cyswllt sylweddol â'r undebau llafur, yn enwedig am faterion yn ymwneud â'r colledion swyddi posibl a gafwyd yn y misoedd diwethaf. Mae'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda hwy wedi bod yn hynod ddefnyddiol a chadarnhaol. Mewn nifer o ardaloedd, maent wedi ein cynorthwyo yn ein hymdrechion i sicrhau nad oedd y swyddi, mewn rhai achosion, yn cael eu colli, ac, mewn achosion eraill, fod penderfyniadau pwysig o ran buddsoddi wedi cael eu gwneud. Parhaf i edrych ymlaen at weithio gydag undebau llafur ac eraill er mwyn sicrhau y gallwn wneud cynnydd yn yr ardaloedd hyn.

**Mark Isherwood:** Yr wyf finnau hefyd yn gefnogwr brwd ym maes democratiaeth ddiwydiannol. Yr wyf yn siŵr y gwyddoch am unrhyw fygythiadau a chyfleoedd sy'n wynebu'r diwydiannau awyrofod ac amddiffyn yn y gogledd, a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar economi'r gogledd. Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran cynlluniau i ddod â gwaith ar gerbyd awyr heb oruchwyliwr—gwaith sy'n cael ei wneud yn yr UD ar hyn o bryd—i'r DU, ac yn benodol i faes awyr Llanbedr lle, os deallaf yn iawn,



originally intended to locate this hugely valuable project?

**The Deputy First Minister:** As I understand it, most of the advances in that particular technology are currently at Aberporth, not Llanbedr. I was not aware of the link with Llanbedr, which may have existed before I was in post. However, those developments are certainly ongoing and I know that my officials are in touch with those in this sector in relation to further developments at Aberporth. I will be visiting that facility fairly shortly. I think that you make an important point about the importance of the aerospace industry. Of course, I was very pleased to announce a significant investment by this Government and others in the Airbus project at Broughton, which I think will secure the future of that plant for some years to come.

**Gareth Jones:** Yn ddiweddar, cefais y pleser o gyfarfod Alun Jones, prif weithredwr cwmni Menter a Busnes. Mae'r cwmni bychan hwn wedi llwyddo i gynorthwyo busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghonwy i ennill cytundebau yn y sectorau preifat a chyhoeddus gwerth £2 filiwn yn ystod y tair blynedd diwethaf, dan gynllun datblygu darparwyr lleol, er mai ym 1989 yn unig y sefydlwyd y cwmni fel menter gymdeithasol gyda'r bwriad o hyrwyddo diwylliant mentergarwch ym musnesau ar draws Cymru, gan gynnwys ardal Aberconwy. Mae adfywio cymunedau yn un o brif amcanion 'Cymru'n Un'. Mae gwaith a llwyddiannau'r cwmni hwn yn cyfrannu'n helaeth at hynny. A wnewch ymuno â mi, felly, i ganmol cyraeddiadau Menter a Busnes ac a wnewch geisio trefnu cyfarfod gyda'r cwmni neu ymweliad ag un o'i swyddfeydd yn y dyfodol agos?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn naturiol, os daw gwahoddiad i law gan Aelod Cynulliad i gyfarfod â Menter a Busnes, byddaf yn hapus i'w dderbyn. Yr ydych yn gwneud pwynt pwysig ynglŷn â'r sector hwn yn benodol, a'r mentrau cymunedol a chymdeithasol sy'n gallu gwneud cyfraniad sylweddol. Yn aml, maent yn gallu gwneud pethau yn yr economi leol na fyddai'r economi

yr oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi bwriadu lleoli'r prosiect hynod werthfawr hwn yn wreiddiol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fel y deallaf, mae'r rhan fwyaf o gynnydd yn y dechnoleg benodol honno yn Aberporth ar hyn o bryd, nid yn Llanbedr. Nid oeddwn yn gwybod am y cysylltiad â Llanbedr—efallai i hynny fodoli cyn imi fod yn y swydd hon. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hynny'n bendant yn barhaus a gwn fod fy swyddogion mewn cysylltiad â'r rheini yn y sector hwn o ran datblygiadau pellach yn Aberporth. Byddaf yn ymweld â'r cyfleuster hwnnw yn fuan. Credaf fod y pwynt a wnewch am bwysigrwydd y diwydiant awyrofod yn un pwysig. Wrth gwrs, yr oeddwn yn falch o gyhoeddi buddsoddiad sylweddol gan y Llywodraeth hon ac eraill yn y prosiect Airbus ym Mrychdyn, a fydd, fe gredaf, yn sicrhau dyfodol y gwaith am rai blynyddoedd i ddod.

**Gareth Jones:** Recently, I had the pleasure of meeting Alun Jones, chief executive of Menter a Busnes. That small company has succeeded in assisting small and medium-sized enterprises in Conwy to win contracts worth £2 million in the private and public sector over the past three years, through a scheme for developing local providers, even though the company was established only in 1989 as a social enterprise with the aim of promoting entrepreneurship in businesses across Wales, including the Aberconwy area. Community regeneration is a main objective of 'One Wales'. The work and success of this company contributes significantly towards that objective. Will you join me, therefore, in praising the achievements of Menter a Busnes, and will you try to arrange a meeting with the company or a visit to one of its offices in the near future?

**The Deputy First Minister:** Naturally, if I receive an invitation from an Assembly Member to meet with Menter a Busnes, I would be pleased to accept it. You make an important point about this sector in particular, and the community and social enterprises that can make a substantial contribution. Often, they can achieve successes in the local economy that the

draddodiadol yn gallu eu cyffwrdd, gan roi'r math o gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod mentrau yn llwyddo na fyddent yn llwyddo fel arall. Mae'r math o arbenigedd sydd gan rai o'r cwmnïau hyn yn golygu y byddai gwerth i ni ystyried sut y gallwn eu helpu fwyfwy yn y dyfodol. Wrth gwrs, yn 'Cymru'n Un' yr ydym wedi ymrwymo i roi cefnogaeth bellach iddynt.

**Eleanor Burnham:** Yr wyf am ofyn cwestiwn am Wrecsam, yn gryno. Gwn eich bod yn ymwybodol o'r broblem fawr a'r ergyd a ddaw yn sgîl cau Flexsys. A gawn y diweddaraf ynglŷn â'r arian a oedd i fod ar gael i gwblhau'r ffordd gyswllt i'r ystâd ddiwydiannol? O'r hyn yr wyf yn ei ddeall, mae pryderon ynghylch hynny ar hyn o bryd.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** O ran y ffordd gyswllt, yr ydym wedi cyhoeddi bod arian yn cael ei roi yn y grant trafndiaeth a gyhoeddwyd eleni i ddechrau'r gwaith ar y ffordd, neu i ddechrau'r gwaith o baratoi ar ei chyfer. Wrth gwrs, yr oedd arweinydd y cyngor yn Wrecsam cyn yr etholiad, ac yn awr wedi'r etholiad—sy'n aelod o'ch plaid chi—wedi canmol ymrwymiad y Llywodraeth yn hynny o beth, a gwn fod Lesley Griffiths, yr Aelod lleol, wedi ei groesawu. Felly, credaf fod ymrwymiad i symud mor gyflym â phosibl, yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael. Gwn y bu problemau gyda Flexsys, fel yr ydych yn ei gydnabod, ond gallaf eich sicrhau bod trafodaethau yn mynd yn eu blaen gyda'r rheolwyr i weld pa gefnogaeth y gallwn ei rhoi i'r gweithwyr. Yr ydym yn edrych i weld a oes modd arbed cyfran o swyddi mewn ardal arall sy'n ddibynnol ar y cyflenwad ynni a ddaw o'r cwmni.

### Regeneration Initiatives

**Q5 Jeff Cuthbert:** Will the Deputy First Minister make a statement on regeneration initiatives throughout Caerphilly county borough? OAQ(3)0560(ECT)

**The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews):** The regeneration of the Caerphilly county borough is progressing in a number of areas, both in the wards that fall within the Heads of the Valleys

traditional economy could not get close to achieving, by providing the kind of support necessary to ensure that enterprises succeed when otherwise they would not. The expertise of some of these companies means that it would be beneficial to look at how we can provide them with further assistance in the future. Of course, in 'One Wales', we have made a commitment to provide them with further support.

**Eleanor Burnham:** I will ask a brief question on Wrexham. I know that you are aware of the major setback and blow that will arise from the Flexsys closure. Will you give us an update on the funding that was meant to be available to complete the link road to the industrial estate? As I understand it, there are concerns about that at present.

**The Deputy Prime Minister:** Regarding the link road, we have announced that funding will be available in the transport grant that was announced this year to start the work on the road, or to start the preparatory work. Of course, the leader of Wrexham council prior to the elections and now after the elections—who is a member of your party—has praised the Government's commitment in this regard, and I know that Lesley Griffiths, the local Member, has welcomed it. Therefore, I believe that there is a commitment to move forward as swiftly as possible, subject to the funding that is available. I know that there were problems with Flexsys, as you acknowledge, but I can assure you that discussions are ongoing with management to see what support we can give to the workers. We are looking to see whether a proportion of the jobs can be saved in another area that is dependent upon the company's energy supply.

### Cynlluniau Adfywio

**C5 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am gynlluniau adfywio ledled bwrdeistref sirol Caerffili? OAQ(3)0560(ECT)

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews):** Mae adfywio bwrdeistref sirol Caerffili'n mynd rhagddo mewn nifer o ardaloedd, yn y wardiau sydd o fewn ardal rhaglen Blaenau'r Cymoedd a

programme area and those that sit within the lower Valleys areas.

**Jeff Cuthbert:** Will you join me in welcoming the invaluable work being done in Communities First areas by partnerships such as that in Graig-y-Rhacca, which you kindly visited last week? It has developed particular initiatives, such as Meat and Two Veg, to highlight and improve men's health by promoting a balanced diet. The partnership's work has also led to the establishment of a doctor's surgery and a local police station in Graig-y-Rhacca, which have certainly helped to raise the quality of life of local people. Do you agree that these are excellent outcomes for Communities First?

**Leighton Andrews:** I was pleased to visit Graig-y-Rhacca last week and, apart from the schemes that you have mentioned, which demonstrate the partnership's range of activities, I was also interested to see its schemes to create job opportunities in co-operation with private businesses and, as you mentioned, healthy eating and cooking initiatives. We want to encourage such activities as we develop the Communities First programme. We want to see greater interaction between our community regeneration and economic regeneration programmes. I thought that that was a good example of how it could be done.

**Mohammad Asghar:** Deputy Minister, will you continue to have as good a relationship with the new administration at Caerphilly County Borough Council as you have enjoyed with the council previously?

**Leighton Andrews:** I look forward to meeting the leader of the new administration on the Heads of the Valleys board in due course. We have developed an extensive range of activities in Caerphilly, supported by the Heads of the Valleys programme. Indeed, this year, I announced further projects that will be undertaken under the tourism banner. I have every reason to believe that we will continue to make a success of the Heads of the Valleys programme in co-operation with all local authorities in that area.

hefyd yn y wardiau sydd o fewn ardaloedd rhannau is y Cymoedd.

**Jeff Cuthbert:** A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r gwaith amhrisiadwy a wneir mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gan bartneriaethau fel honno yn Graig-y-Rhaca, y buoch mor garedig ag ymweld â hi'r wythnos diwethaf? Mae wedi datblygu cynlluniau arbennig, fel Cig a Dau Lysieuyn, i amlygu a gwella iechyd dynion drwy hyrwyddo deiet cytbwys. Mae gwaith y bartneriaeth wedi arwain hefyd at sefydlu meddygfa a swyddfa heddlu leol yn Graig-y-Rhaca, sydd yn sicr wedi helpu i godi ansawdd bywyd pobl leol. A ydych yn cytuno bod y rhain yn ganlyniadau rhagorol i Cymunedau yn Gyntaf?

**Leighton Andrews:** Yr oeddwn yn falch o ymweld â Graig-y-Rhaca'r wythnos diwethaf ac, ar wahân i'r cynlluniau yr ydych wedi'u crybwyll, sy'n dangos amrediad gweithgareddau'r bartneriaeth, yr oedd yn ddiddorol hefyd gweld ei chynlluniau i greu cyfleon am swyddi mewn cydweithrediad â busnesau preifat ac, fel y soniasoch, cynlluniau bwyta a choginio'n iach. Mae arnom eisiau annog gweithgareddau o'r fath wrth inni ddatblygu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae arnom eisiau gweld mwy o ryngweithio rhwng ein rhaglenni adfywio cymunedol ac adfywio economaidd. Yr oeddwn o'r farn fod hynny'n enghraifft dda o sut y gellid gwneud hynny.

**Mohammad Asghar:** Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi barhau i gael perthynas gystal gyda'r weinyddiaeth newydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ag a gawsoch gyda'r cyngor o'r blaen?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn edrych ymlaen at gwrdd ag arweinydd y weinyddiaeth newydd ar fwrdd Blaenau'r Cymoedd maes o law. Yr ydym wedi datblygu amrediad helaeth o weithgareddau yng Nghaerffili, gyda chymorth rhaglen Blaenau'r Cymoedd. Yn wir, eleni, cyhoeddais brosiectau pellach yr ymgymeryd â hwy dan faner twristiaeth. Mae gennyf bob rheswm i gredu y parhawn i wneud llwyddiant o raglen Blaenau'r Cymoedd mewn cydweithrediad â phob awdurdod lleol yn yr ardal honno.

**Irene James:** Do you agree that the most appropriate way to continue the regeneration of Caerphilly borough would be best achieved by giving people access to as many opportunities as possible? With that in mind, do you agree that the opening of the Newport section of the Ebbw valley railway line will help to bring that about, and that that should be done as soon as possible?

**Leighton Andrews:** You raise an important issue on the opening of that railway line, but it is not the only way in which we seek to help people back into work. Part of the Heads of the Valleys programme is the Job Match scheme, which has been modelled on a successful scheme in Blaenau Gwent where 1,300 people were helped back into work and 67 per cent of those were still in work a year later. We are now rolling that scheme out across the entire Heads of the Valleys area and it is already enjoying success in the new areas that are entering that programme.

**Irene James:** A ydych yn cytuno mai'r ffordd fwyaf priodol i barhau adfywiad bwrdeistref Caerffili fyddai drwy sicrhau y caiff pobl fynediad at gynifer o gyfleon ag sy'n bosibl? Gyda hynny mewn golwg, a ydych yn cytuno y bydd agor darn Casnewydd o reilffordd glyn Ebwy'n helpu i wireddu hynny, ac y dylid gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd?

**Leighton Andrews:** Yr ydych yn codi pwynt pwysig ynglŷn ag agor y rheilffordd honno, ond nid dyna'r unig ffordd y ceisiwn helpu pobl i ddychwelyd i waith. Rhan o raglen Blaenau'r Cymoedd yw'r cynllun Paru Swyddi, a fodelwyd ar gynllun llwyddiannus ym Mlaenau Gwent lle rhoddwyd cymorth i 1,300 o bobl yn ôl i waith a lle'r oedd 67 y cant o'r rheini'n dal mewn gwaith flwyddyn yn ddiweddarach. Yr ydym yn awr yn cyflwyno'r cynllun hwnnw'n raddol ar draws y cyfan o ardal Blaenau'r Cymoedd ac mae eisoes yn mwynhau llwyddiant yn yr ardaloedd newydd sy'n ymuno â'r rhaglen.

### Welsh Businesses

**Q6 Lesley Griffiths:** What is the Welsh Assembly Government doing to help and support Welsh businesses?  
OAQ(3)0583(ECT)

**The Deputy First Minister:** I am driving forward our 'One Wales' commitment to support business growth through flexible support for business. It transforms the way in which we help and support business, and includes a single access point, enhanced relationship management, and a single investment fund.

1.20 p.m.

**Lesley Griffiths:** The introduction of the single investment fund has been well received by business, industry and the media alike. That is no surprise, as a single, streamlined, fast, responsive system of support and assistance is precisely what Welsh business requires. Do you agree, therefore, that without the so-called 'bonfire of the quangos', the single investment fund might never have been introduced, and the casualties of that would have been Welsh

### Busnesau Cymru

**C6 Lesley Griffiths:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i helpu a chefnogi busnesau Cymru?  
OAQ(3)0583(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn symud ymlaen â'n hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i gynorthwyo busnesau i dyfu drwy gymorth hyblyg i fusnes. Mae'n gweddnewid y modd yr ydym yn helpu ac yn cynorthwyo busnesau ac yn cynnwys un porth mynediad i bawb, gwell rheolaeth ar gysylltiadau a chronfa fuddsoddi sengl.

**Lesley Griffiths:** Mae cyflwyno'r gronfa fuddsoddi sengl wedi cael ei groesawu gan fusnes, diwydiant a'r cyfryngau fel ei gilydd. Nid yw hynny'n syndod, gan mai un system syml, gyflym, ymatebol o roi cefnogaeth a chymorth yw'r union beth y mae ar fusnes Cymru ei eisiau. A ydych yn cytuno, felly, pe na chawsid y 'goelcerth cwangos', fel y'i gelwid, efallai na fuasai'r gronfa fuddsoddi sengl erioed wedi'i chyflwyno, ac mai'r rhai a fuasai wedi dioddef yn sgil hynny fyddai

business, Welsh commerce and, ultimately, the Welsh economy?

**The Deputy First Minister:** The success of the single investment fund can be seen not just from the positive response of Welsh businesses, but also from the requests made by departments in other parts of the United Kingdom for us to help them to introduce similar schemes. That shows that Wales can be in the lead when we need to be, in relation to business support. Businesses are responding positively to it, because they know that having a single point of contact, with one application form that can address all their concerns is far better than having to apply for a range of packages that do not always help. This is therefore an excellent way forward, and it would have been difficult, if not impossible, to do that had the former Welsh Development Agency not been brought into the Government, which means that we can take a seamless approach to this.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I am sure that you will agree that one sector of Welsh business that is under enormous pressure at the moment is the haulage industry. I met with representatives of the haulage industry with Andrew R.T. Davies two weeks ago, including Gough and Sons from my own area in Llandrindod Wells, and Mervyn Thomas in Radnorshire, and we received representations from them. I appreciate that we do not have control over tax here, but one thing that we could do, and which is done in England, is fund a scheme to promote safe and fuel-efficient driving—or SAFED, as it is called. SAFED is paid for by the Westminster Government, and encourages the drivers of vans and heavy goods vehicles to drive more efficiently, save money and act more greenly. Would you consider that? It seems to me that Welsh hauliers are not operating on a level playing field with England, and there are more serious issues about having a level playing field with the rest of Europe. However, introducing that scheme is something that we could do to help the haulage industry in Wales.

**The Deputy First Minister:** I cannot promise that that fund will be used in Wales, as Nick will appreciate, but I can tell him that

busnes Cymru, masnach Cymru ac, yn y pen draw, economi Cymru?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gellir gweld llwyddiant y gronfa fuddsoddi sengl nid yn unig yn ymateb cadarnhaol busnesau Cymru, ond hefyd o'r ceisiadau a wneir gan adrannau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar inni eu helpu i gyflwyno cynlluniau tebyg. Mae hynny'n dangos y gall Cymru arwain y ffordd pan fydd angen yng nghyswllt chefnogi busnes. Mae busnesau'n ymateb yn gadarnhaol iddi, oherwydd gwyddant fod cael un pwynt cyswllt sengl, gydag un ffurflen gais a all ddelio â'u pryderon i gyd yn llawer gwell na gorfod gwneud cais am amrediad o becynnau nad ydynt bob amser yn helpu. Mae hyn felly yn ffordd ragorol ymlaen, a buasai'n anodd, os nad yn amhosibl, gwneud hynny pe na bai'r hen Awdurdod Datblygu Cymru wedi'i dynnu i mewn i'r Llywodraeth, sy'n golygu y gallwn fynd ati mewn modd diwniad gyda hyn.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Yr wyf yn siŵr y cytunwch mai un sector o fusnes Cymru sydd dan bwysau aruthrol ar hyn o bryd yw'r diwydiant cludo nwyddau. Cwrddais â chynrychiolwyr y diwydiant cludo gydag Andrew R.T. Davies bythefnos yn ôl, gan gynnwys Gough a'r Meibion o fy ardal i fy hun yn Llandrindod, a Mervyn Thomas ym Maesyfed, a derbyniasom sylwadau ganddynt. Sylweddolaf nad oes gennym reolaeth dros dreth yma, ond un peth y gallem ei wneud, ac a wneir yn Lloegr, yw ariannu cynllun i hyrwyddo gyrru diogel a thanwydd-effeithlon—neu SAFED, fel y'i gelwir. Telir am SAFED gan Lywodraeth San Steffan, ac mae'n annog gyrrwyr faniau a lorïau trwm i yrru'n fwy effeithlon, arbed arian a gweithredu'n wyrddach. A ystyriech chi hynny? Mae'n ymddangos i mi nad yw cludwyr nwyddau Cymru'n gweithredu ar faes chwarae gwastad â Lloegr, ac mae cwestiynau mwy difrifol ynghylch cael maes chwarae gwastad â gweddill Ewrop. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r cynllun hwnnw'n rhywbeth y gallem ei wneud i helpu'r diwydiant cludo nwyddau yng Nghymru.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni allaf addo y defnyddir y gronfa honno yng Nghymru, fel y sylweddola Nick, ond gallaf ddweud wrtho fy

I recognise the difficulties that are faced by the haulage industry. Many hauliers in Wales are small businesses, do not have many vehicles, and are under enormous pressure. I have written to the Treasury on behalf of the Assembly Government to draw attention to the difficulties that they face, asking it to look positively at measures to assist the haulage sector.

Under the Wales transport strategy, we are looking at ways to support the haulage sector to reduce its costs, and particularly to improve the environmental impact of their vehicles. I will see what else we can do to assist in that regard.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(3)0562(ECT), has been withdrawn.

### Green Jobs Strategy

**Q8 Leanne Wood:** Will the Deputy First Minister make a statement on the development of an all-Wales green jobs strategy? OAQ(3)0593(ECT)

**The Deputy First Minister:** The development of the green jobs strategy is progressing well. I am working closely with the Minister for Environment, Sustainability and Housing, and will be seeking the views of other Cabinet colleagues shortly. I expect the consultation document to be published shortly after the summer recess.

**Leanne Wood:** As we know in Plaid Cymru, it is not a question of whether we protect the environment or create jobs; we have to do both if the Welsh economy is to develop sustainably. Which areas are being considered for priority under the green jobs strategy? Do you think that you will need additional powers to implement an effective strategy?

**The Deputy First Minister:** First, the green jobs strategy is a commitment that we made in 'One Wales', so we recognise the importance of bringing together the needs of business and creating a sustainable economy. I am not in a position to disclose the detail of the green jobs strategy, but I can outline

mod yn cydnabod yr anawsterau a wynebir gan y diwydiant cludo nwyddau. Busnesau bach yw llawer o gludwyr nwyddau yng Nghymru; nid oes ganddynt lawer o gerbydau ac maent dan bwysau aruthrol. Yr wyf wedi ysgrifennu at y Trysorlys ar ran Llywodraeth y Cynulliad i dynnu sylw at yr anawsterau a wynebant, gan ofyn iddo edrych yn gadarnhaol ar fesurau i gynorthwyo'r sector cludo nwyddau.

Dan strategaeth drafnidiaeth Cymru, yr ydym yn edrych ar ffyrdd i gefnogi'r sector cludo nwyddau i leihau ei gostau, ac yn enwedig i wella effaith amgylcheddol eu cerbydau. Byddaf yn gweld beth arall y gallwn ei wneud i gynorthwyo yn hynny o beth.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(3)0562(ECT), yn ôl.

### Strategaeth Swyddi Gwyrdd

**C8 Leanne Wood:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd Cymru gyfan? OAQ(3)0593(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd yn mynd rhagddo'n dda. Yr wyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a byddaf yn holi barn cydweithwyr eraill yn y Cabinet maes o law. Disgwyliaf y caiff y ddogfen ymgynghorol ei chyhoeddi yn fuan wedi gwyliau'r haf.

**Leanne Wood:** Fel y gwyddom ym Mhlaid Cymru, nid mater ydyw o ddewis a ydym am warchod yr amgylchedd ynteu greu swyddi; mae'n rhaid inni wneud y ddau os yw economi Cymru am ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Pa feysydd sydd dan ystyriaeth i gael blaenoriaeth dan y strategaeth swyddi gwyrdd? A ydych yn meddwl y bydd angen pwerau ychwanegol amoch i weithredu strategaeth effeithiol?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn gyntaf, mae'r strategaeth swyddi gwyrdd yn ymrwymiad a wnaethom yn 'Cymru'n Un', felly sylweddolwn bwysigrwydd cyfuno anghenion busnes a chreu economi cynaliadwy. Nid wyf mewn sefyllfa i ddatgelu manylion y strategaeth swyddi

some of its key themes: the greening of existing businesses and jobs; stimulating demand for, and supporting the capture and development of, new jobs and business opportunities in pursuit of a low-carbon, low-waste economy; and businesses contributing to meeting the Government's commitment on sustainable development. Those are the areas that we will be looking at, and the strategy will develop that fully.

I have not yet been able to identify areas where we would need extra powers to deliver that, but, if we do, I will come back to inform you.

**Darren Millar:** We look forward to receiving the publication of the draft strategy later in the year. Will you join me in commending Omnia Recycling Ltd in my constituency for its decision to create green jobs in Kinnel Bay, which will provide much-needed employment in the area and will be of great benefit to the environment? Do you agree that this is just the kind of green business and investment that the Welsh Assembly Government should be encouraging through the green jobs strategy later in the year?

**The Deputy First Minister:** I agree with that and commend the work of the company in your constituency. However, I do not think that I can take many lessons from the Conservative Party, which, last week, voted against renewable energy in the Chamber.

**Michael German:** While we welcome having a strategy, Deputy First Minister, we will need benchmarks to judge its success. Therefore, can you tell us the number of green jobs in Wales currently and what contribution they make to the gross value added of the Welsh economy so that we know the starting point from which to judge?

**The Deputy First Minister:** I am not in a position to give you those numbers today, but I will undertake to write to you if there has been an assessment of that. You are right. It is important for us not to look at this in isolation. There is good practice out there. I

gwyrdd, ond gallaf amlinellu rhai o'i themâu allweddol: troi busnesau a swyddi presennol yn wyrdd; ysgogi galw am, a chefnogi cipio a datblygu, swyddi a chyfleon busnes newydd sy'n amcanu tuag at economi carbon isel, gwastraff isel; a chael busnesau i gyfrannu at gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy. Dyna'r meysydd y byddwn yn edrych arnynt, a bydd y strategaeth yn datblygu hynny'n llawn.

Nid wyf wedi gallu pennu meysydd eto lle byddai arnom angen pwerau ychwanegol i gyflawni hynny, ond, os gwnawn, deuaif yn ôl i roi gwybod ichi.

**Darren Millar:** Edrychwn ymlaen at gael cyhoeddiad y strategaeth ddrafft yn ddiweddarach eleni. A wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo cwmni Omnia Recycling Cyf yn fy etholaeth am ei benderfyniad i greu swyddi gwyrdd ym Mae Cinmel, a fydd yn darparu cyflogaeth y mae mawr ei hangen yn yr ardal ac a fydd o fudd mawr i'r amgylchedd? A gytunwch mai dyma'r union fath o fuddsoddiad a busnes gwyrdd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ei annog drwy'r strategaeth swyddi gwyrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cytunaf â hynny a chymeradwyaf waith y cwmni yn eich etholaeth. Fodd bynnag, nid wyf yn meddwl y gallaf gymryd llawer o wersi gan y Blaid Geidwadol, a bleidleisiodd yr wythnos diwethaf yn erbyn ynni adnewyddadwy yn y Siambr.

**Michael German:** Er bod cael strategaeth yn rhywbeth yr ydym yn ei groesawu, Ddirprwy Brif Weinidog, bydd angen meincnodau arnom er mwyn barnu ei llwyddiant. Felly, a allwch ddweud wrthym faint o swyddi gwyrdd sydd yng Nghymru ar hyn o bryd a pha gyfraniad a wnânt at werth ychwanegol crynswth economi Cymru fel y cawn wybod beth yw'r man cychwyn ar gyfer barnu ohono?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid wyf mewn sefyllfa i roi'r niferoedd hynny ichi heddiw, ond ymgymeraf i ysgrifennu atoch os cafwyd asesiad o hynny. Yr ydych yn iawn. Mae'n bwysig inni beidio ag edrych ar hyn ar ei ben ei hun. Mae arfer da i'w gael allan yn y maes.

said that the strategy would cover three themes including the greening of existing businesses and jobs, but we have to remember that it is not simply about the creation of new jobs in what you would call the 'green' sector; it is also about the contribution that existing businesses can make to helping the environment. I know of excellent initiatives that have been undertaken by existing businesses to do that. If there is information that I could give you, I will write to you. I recognise that it is important for us to have proper targets in this area, because it is such an important part of the Government's agenda.

**The Presiding Officer:** I call on Mark Isherwood to ask question 9.

**Mark Isherwood:** I wish to withdraw the question.

**The Presiding Officer:** Sorry, but it is not possible to withdraw a question at this late stage.

**Mark Isherwood:** In that case, I withdraw the supplementary.

**The Presiding Officer:** I am prepared not to call the question, if you wish me to do so. I see that you do. In that case, question 9, OAQ(3)0567(ECT) has been transferred for written answer.

### Concessionary Passes

**Q10 Kirsty Williams:** Will the Deputy First Minister make a statement on the use of concessionary passes on the Heart of Wales line? OAQ(3)0570(ECT)

**The Deputy First Minister:** My Cabinet statement of 12 May 2008 confirmed that there was excess demand for free travel last summer. It has therefore been necessary to restrict the second year of the pilot scheme for the Heart of Wales line to the winter months between October and April.

**Kirsty Williams:** If there was excess demand—and I think that, by that, you mean that lots of people wanted to travel on the trains last summer—would it not have been more appropriate to increase the size of the

Dywedais y byddai'r strategaeth yn delio â thair thema gan gynnwys troi busnesau a swyddi presennol yn wyrdd, ond rhaid inni gofio nad mater syml o greu swyddi newydd yn yr hyn a alwech y sector 'gwyrrdd' ydyw; yr ydym yn sôn hefyd am y cyfraniad y gall busnesau presennol ei wneud i helpu'r amgylchedd. Gwn am fentrau rhagorol sydd wedi'u cychwyn gan fusnesau presennol i wneud hynny. Os oes gwybodaeth y gallwn ei rhoi ichi, ysgrifennaf atoch. Cydnabyddaf ei bod yn bwysig inni gael targedau iawn yn y maes hwn, oherwydd mae'n rhan mor bwysig o agenda'r Llywodraeth.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Mark Isherwood i ofyn cwestiwn 9.

**Mark Isherwood:** Dymunaf dynnu'r cwestiwn yn ôl.

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf, ond nid yw'n bosibl tynnu cwestiwn yn ôl mor hwyr â hyn.

**Mark Isherwood:** Os felly, tynnaf y cwestiwn atodol yn ôl.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn barod i beidio â galw'r cwestiwn, os dymunwch imi wneud hynny. Gwelaf eich bod. Felly, trosglwyddwyd cwestiwn 9 OAQ(3)0567(ECT) i'w ateb yn ysgrifenedig.

### Tocynnau Rhatach

**C10 Kirsty Williams:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am ddefnyddio tocynnau rhatach ar reilffordd Calon Cymru? OAQ(3)0570(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Cadarnhaodd fy natganiad Cabinet ar 12 Mai 2008 fod gormod o alw am deithio rhad adeg yr haf y llynedd. O'r herwydd bu angen cyfyngu ail flwyddyn y cynllun pilot ar gyfer rheilffordd Calon Cymru i fisoedd y gaeaf, sef o fis Hydref i fis Ebrill.

**Kirsty Williams:** Os oedd gormod o alw—ac wrth ddweud hynny, credaf eich bod yn golygu bod llawer o bobl wedi bod eisiau teithio ar y trenau yr haf diwethaf—oni fuasai'n fwy priodol cynyddu maint y



trains rather than withdraw the concessionary fares from my constituents?

**The Deputy First Minister:** We cannot have it all ways. What we have done is extend the pilot scheme this year to two other lines, which has been broadly welcomed. I acknowledge, Kirsty, that you are unhappy with what we have done with regard to the Heart of Wales line, but remember that extra carriages have to come from somewhere else. There are pressures, and these carriages are needed in other areas. It is right that priority be given, particularly during busy summer months, to fare-paying passengers who have difficulty travelling because the carriages are overcrowded.

**Kirsty Williams:** I take it from that that the people of Brecon and Radnorshire are not a priority for this One Wales Government, and that their trains will go to somewhere else that you do regard as a priority. Can you give some hope to my constituents that you are working on another scheme to enable them to use public transport, namely that on concessionary bus fares on journeys in and out of England? You will be aware that it is easier and more desirable for many of my constituents to use their buss passes to travel to centres in England for shopping or health purposes, and that they are not currently allowed to use their concessionary bus fares across the border. What progress have you made in your discussions with London on having a scheme that works for everyone, regardless of on which side of the border they live?

1.30 p.m.

**The Deputy First Minister:** I refute the suggestion that we are not giving any priority to the area that you represent. We have thought carefully about how we wanted to proceed with the concessionary fares; there is a limited amount of money, but there is also the issue of overcrowding, and we have to deal with this responsibly. I believe that we have done it in a way that continues the pilot scheme, but which matches the demand for the services. Other areas in Wales would have loved to have these concessionary fare pilot schemes—they want to see them introduced—but we were not able to do that.

trenau'n hytrach na dileu'r tocynnau rhad i f'etholwyr?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Ni allwn ei chael hi bob ffordd. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yw estyn y cynllun peilot eleni i ddwy lein arall, sydd wedi cael croeso cyffredinol. Yr wyf yn cydnabod, Kirsty, eich bod yn anhapus gyda'r hyn yr ydym wedi'i wneud ynglŷn â rheilffordd Calon Cymru, ond cofiwch fod yn rhaid i gerbydau ychwanegol ddod o rywle arall. Mae pwysau, ac mae angen y cerbydau hyn mewn ardaloedd eraill. Mae'n iawn y dylid rhoi blaenoriaeth, yn enwedig yn ystod misoedd prysur yr haf, i deithwyr sy'n talu ac sy'n cael anhawster teithio oherwydd bod y cerbydau'n orlawn.

**Kirsty Williams:** Cymeraf o hynny nad yw pobl Brycheiniog a Maesyfed yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Cymru'n Un hon, ac yr aiff eu trenau i rywle arall sydd yn flaenoriaeth yn eich golwg. A allwch roi rhywfaint o obaith i f'etholwyr eich bod yn gweithio ar gynllun arall i'w galluogi i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, sef y cynllun tocynnau bws rhatach ar siwrneiau i mewn ac allan o Loegr? Byddwch yn ymwybodol ei bod yn haws ac yn fwy hwylus i lawer o f'etholwyr ddefnyddio'u tocynnau mantais bws i deithio i ganolfannau yn Lloegr i ddibenion siopa neu iechyd, ac na chaniateir iddynt ddefnyddio'u tocynnau mantais bws dros y ffin ar hyn o bryd. Pa gamau ymlaen yr ydych wedi'u cymryd yn eich trafodaethau gyda Llundain ynghylch cael cynllun a fydd yn gweithio i bawb, waeth ar ba ochr i'r ffin y maent yn byw?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn gwrthod yr awgrym nad ydym yn rhoi dim blaenoriaeth i'r ardal yr ydych yn ei chynrychioli. Yr ydym wedi meddwl yn ofalus am sut yr oedd arnom eisiau symud ymlaen gyda'r tocynnau teithio rhatach; hyn a hyn o arian sydd ar gael, ond ceir problem gorlenwi hefyd, ac mae'n rhaid inni ddelio â hyn yn gyfrifol. Yr wyf yn credu ein bod wedi ei wneud mewn ffordd sy'n parhau â'r cynllun peilot, ond sy'n cyfateb i'r galw am y gwasanaethau. Byddai ardaloedd eraill yng Nghymru wedi bod wrth eu bodd yn cael y cynlluniau peilot tocynnau teithio rhatach

However, we did the best that we could under the circumstances.

I am not able to give you comfort today on the issue of concessionary fares going into England. You are aware that a limited scheme is available to go across the border, but I appreciate that it is not as extensive as you and other Members have been calling for. I am not in a position to do that. The concessionary fares scheme has been a big success in Wales; we are devoting substantial sums of money to it, but I am not in a position to extend that at present.

### **Strengthening the Transport Network**

**Q11 Nick Bourne:** Will the Deputy First Minister outline his policies for strengthening the transport network in Wales? OAQ(3)0598(ECT)

**The Deputy First Minister:** My vision for strengthening the transport network in Wales is outlined in the recently published transport strategy, 'Connecting the Nation'. This will be followed by detailed implementation in the national transport plan.

**Nick Bourne:** I want to ask the Deputy First Minister about an issue that I have raised with him on more than one occasion, as well as with his predecessor with responsibility for transport, namely the promised hourly service on the Shrewsbury to Aberystwyth line. That remains a key concern for people living along that line and using that line—I use it myself. I know that there are issues about developing passing loops, and so on, but does the Minister have any timescale on when that is likely to be available to the people of mid Wales?

**The Deputy First Minister:** My understanding is that the infrastructure works are going well, and will be completed towards the third quarter of next year; I think that that is right—if I am wrong, I will write to you to confirm that. However, I am

hyn—mae arnynt eisiau eu gweld yn cael eu cyflwyno—ond nid oeddem yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, gwnaethom y gorau y gallasem yn yr amgylchiadau.

Ni allaf eich cysuro heddiw yng nghyswllt tocynnau teithio rhatach i Loegr. Byddwch yn gwybod bod cynllun cyfyngedig ar gael i groesi'r ffin, ond yr wyf yn gwerthfawrogi nad yw mor helaeth ag yr ydych chi ac Aelodau eraill wedi bod yn galw amdano. Nid wyf mewn sefyllfa i wneud hynny. Bu'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn llwyddiant ysgubol yng Nghymru; yr ydym yn rhoi symiau sylweddol o arian iddo, ond nid wyf mewn sefyllfa i ehangu hynny ar hyn o bryd.

### **Cryfhau'r Rhwydwaith Trafnidiaeth**

**C11 Nick Bourne:** A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer cryfhau'r rhwydwaith trafndiaeth yng Nghymru? OAQ(3)0598(ECT)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Caiff fy ngweledigaeth ar gyfer cryfhau'r rhwydwaith trafndiaeth yng Nghymru ei amlinellu yn y strategaeth drafndiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, 'Cysylltu'r Genedl'. Caiff hon ei dilyn gan y gweithredu manwl yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol.

**Nick Bourne:** Mae arnaf eisiau gofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog am fater yr wyf wedi'i godi ag ef ar fwy nag un achlysur, yn ogystal â gyda'i ragflaenydd a oedd yn gyfrifol am drafndiaeth, sef y gwasanaeth bob awr a oedd wedi'i addo ar reilffordd Amwythig i Aberystwyth. Mae hwnnw'n dal yn bryder mawr i bobl sy'n byw ar hyd y rheilffordd honno ac sy'n defnyddio'r rheilffordd honno—yr wyf yn ei defnyddio fy hun. Yr wyf yn gwybod y ceir materion sy'n ymwneud â datblygu dolenni pasio, ac yn y blaen, ond a oes gan y Gweinidog unrhyw amserlen ar gyfer pryd y bydd hynny'n debygol o fod ar gael i bobl y canolbarth?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Caf ar ddeall bod y gwaith seilwaith yn mynd rhagddo'n dda, a chaiff ei gwblhau tua thrydydd chwarter y flwyddyn nesaf; yr wyf yn meddwl bod hynny'n iawn—os wyf yn anghywir, ysgrifennaf atoch i gadarnhau

currently considering that issue. I am not able to give Nick an assurance about that today, but I recognise that, if you are improving the infrastructure, it must be improved for a purpose. I will be discussing with my officials to see what kind of announcement I can make when those infrastructure works are concluded.

**Jeff Cuthbert:** I have raised the issue of the rail network in the Rhymney valley with you several times. I am pleased to read that there is to be a new platform at Caerphilly station, and that, later this year, Arriva Trains Wales should be able to lay on six cars per train, at least during the peak hours. However, I also noted that your officials do not consider it necessary to have a third track on the bridge across Newport road outside Queen Street station. Will you give me an assurance that this will be kept under review and that, should incidents occur, or the pressure of rail traffic prove it to be necessary, further consideration will be given to the laying of a third track?

**The Deputy First Minister:** I am pleased that we were able to make a significant announcement on that issue last week. We recognise the constraints on the service coming into Cardiff, which, in terms of passenger numbers, is the biggest catchment area in Wales, and represents a substantial proportion of the passengers carried by Arriva Trains Wales. By removing some of those infrastructure constraints and by improving signalling and line speeds, we can have more services coming into Cardiff Queen Street, as well as new services from Cardiff Central. My understanding is that all the partners involved are satisfied that no further works are required at Queen Street station. However, the matter will be kept under review, although I cannot make any commitment at this stage.

**Alun Ffred Jones:** Er bod dadleuon ynglŷn ag adeiladu ffyrdd osgoi, gan eu bod yn denu mwy o draffig, nid oes dwywaith eu bod yn gwella ansawdd bywyd mewn pentrefi a threfi. Maent hefyd yn cyfrannu at y rhwydwaith o ran symud pobl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle nad oes trenau, a lle mae angen ffyrdd da, hyd yn oed i fysis

hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn ystyried y mater hwnnw ar hyn o bryd. Ni allaf sicrhau Nick am hynny heddiw, ond yr wyf yn cydnabod, os ydych yn gwella'r seilwaith, ei bod yn rhaid ei wella at ddiben. Byddaf yn trafod gyda'm swyddogion i weld pa fath o gyhoeddiad y gallaf ei wneud pan ddaw'r gwaith hwnnw ar y seilwaith i ben.

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf wedi codi mater y rhwydwaith rheilffyrdd yng nghwm Rhymni gyda chi droeon. Yr wyf yn falch o ddarllen y ceir plattform newydd yng ngorsaf Caerffili, ac, yn ddiweddarach eleni, dylai Trenau Arriva Cymru allu defnyddio chwe cherbyd fesul trŵn, o leiaf yn ystod yr oriau brig. Fodd bynnag, nodais hefyd nad yw eich swyddogion o'r farn ei bod yn angenrheidiol cael trydydd trac ar y bont dros heol Casnewydd y tu allan i orsaf Heol y Frenhines. A wnewch fy sicrhau y caiff hyn ei adolygu'n gyson ac, os ceir digwyddiadau, neu os bydd pwysau traffig rheilffyrdd yn golygu ei fod yn angenrheidiol, y bydd gosod trydydd trac yn cael ei ystyried ymhellach?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn falch ein bod wedi gallu gwneud cyhoeddiad arwyddocaol am y mater hwnnw'r wythnos diwethaf. Yr ydym yn cydnabod y cyfyngiadau ar y gwasanaeth sy'n dod i Gaerdydd, sef, o ran niferoedd teithwyr, y dalgylch mwyaf yng Nghymru, ac sy'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r teithwyr sy'n cael eu cludo gan Trenau Arriva Cymru. Drwy dynnu rhai o'r cyfyngiadau seilwaith hynny a drwy wella signalau a chyflymder y rheilffyrdd, gallwn gael mwy o wasanaethau'n dod i Heol y Frenhines Caerdydd, yn ogystal â gwasanaethau newydd o orsaf Caerdydd Canolog. Caf ar ddeall bod yr holl bartneriaid dan sylw'n fodlon nad oes eisiau gwneud rhagor o waith yng ngorsaf Heol y Frenhines. Fodd bynnag, bydd y mater yn cael ei adolygu'n gyson, er na allaf roi ymrwymiad ar hyn o bryd.

**Alun Ffred Jones:** Despite the arguments that building by-passes attracts more traffic, there is no doubt that they improve the quality of people's lives in towns and villages. They also contribute to the network for moving people, especially in rural areas, where there are no trains, and where good roads are needed, even for buses and public

a thrafnidiaeth gyhoeddus. A oes gennych unrhyw newyddion i'r bobl sy'n byw yn ardaloedd Dinas a Bontnewydd yn fy etholaeth am y ffordd osgoi arfaethedig i'r pentrefi hynny, ac i Gaernarfon maes o law?

transport. Do you have any news for those people living in the Dinas and Bontnewydd areas of my constituency regarding the proposed by-pass for those villages and, eventually, for Caernarfon?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn ymwybodol o'r pwysau o du'r cyngor sir, Aelodau ac eraill ynglŷn â'r ffordd arbennig hon. Gallaf gadarnhau heddiw ein bod yn y broses o benodi ymgynghorwyr i edrych ar yr opsiynau ar gyfer y cynllun ac ar gyfer y llwybr a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ffordd osgoi. Gobeithiwn y bydd penodiad yn cael ei wneud erbyn yr hydref a fydd yn caniatáu inni edrych ar y cam nesaf. Mater o amserlennu'r gwaith a fydd wedyn, a gobeithiaf allu gwneud cyhoeddiad mwy pendant yn ystod yr wythnosau nesaf.

**The Deputy First Minister:** I am aware of the pressure coming from the county council, Members and others regarding this particular road. I can confirm today that we are in the process of appointing consultants to look at the options for the scheme and for the route that would be used for any by-pass. We hope that an appointment will be made by the autumn, which will enable us to look at the next phase. It will then be a matter of scheduling the work, and I hope to make a more definite announcement within the next few weeks.

**Ethol Aelod ar gyfer y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion**  
**Election of a Member to the Proposed Healthy Eating in Schools Measure Committee**

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Cynigiau fod

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Angela Burns (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yn lle Alun Cairns (Ceidwadwyr). (NDM3953)*

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Angela Burns (Conservative) in place of Alun Cairns (Conservative) as a member of the Proposed Healthy Eating in Schools Measure Committee. (NDM3953)*

**Y Llywydd:** Gwelaf nad oes neb yn gwrthwynebu'r cynnig, felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

**The Presiding Officer:** I see that no-one is opposing the motion. Therefore, according to Standing Order 7.35, the motion has been carried.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Datganiad gan y Llywydd**  
**Statement by the Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Mae'n dda gennyf ddatgan canlyniad y balot ar gyfer Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig. Mae Janet Ryder wedi ennill y balot gyda'i chynnig am arddangos baneri a motiffau ar gerbydau.

**The Presiding Officer:** I am pleased to announce the result of the ballot for a proposed legislative competence Order. Janet Ryder has won the ballot with her proposal on displaying national flags and motifs on vehicles.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 1.36 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 1.36 p.m.*

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig Peter Black—Trefniadau  
Etholaethol Llywodraeth Leol  
Peter Black's Proposed Legislative Competence Order—Local Government  
Electoral Arrangements**

**Peter Black:** I propose that

*the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 22.50:*

*agrees that Peter Black may lay a proposed Order, to give effect to the outline proposed Order provided on 14 February 2008 under Standing Order No. 22.48, and an explanatory memorandum. (NDM3919)*

I had the privilege of winning the ballot simultaneously to present both a Measure and a legislative competence Order to the Assembly. The debate on my Measure to create a duty on local councils to provide facilities for young people has already been debated and defeated here. I am hopeful that the outcome of this debate will be different. One reason why I am optimistic about the success of this LCO is that I believe that, if every Member in the Chamber were to speak and vote according to their conscience, there would be a natural majority among Assembly Members for it. We shall see whether this is the case later on today.

Both the Welsh Liberal Democrats and Plaid Cymru are longstanding supporters of voting reform, believing that it is right that the outcome of elections should reflect the way that people have voted. That is particularly important at a local government level, where hundreds of millions of pounds of taxpayers' money is spent each year on providing vital services, including education, social care, sport and leisure facilities, and many more. We have seen in the past what happens when one party comes to dominate a local council for a long period of time with only a minority of the votes: it becomes complacent and unaccountable, while the council fails to change sufficiently quickly to reflect the demands made upon it. That can be avoided

**Peter Black:** Cynigiau fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.50:*

*yn cytuno y caiff Peter Black gyflwyno Gorchymyn arfaethedig, i weithredu'r Gorchymyn arfaethedig amlinellol a ddarparwyd ar 14 Chwefror 2008 dan Reol Sefydlog Rhif 22.48, a memorandwm esboniadol. (NDM3919)*

Cefais y ffrind o ennill y balot ar yr un pryd i gyflwyno Mesur a Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad. Mae'r ddadl ar fy Mesur i greu dyletswydd ar gynghorau lleol i ddarparu cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc eisoes wedi cael ei thrafod a'i threchu yma. Yr wyf yn obeithiol y bydd canlyniad y ddadl hon yn wahanol. Un o'r rhesymau pam yr wyf yn obeithiol ynghylch llwyddiant y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yw fy mod yn credu, petai pob Aelod yn y Siambr yn siarad ac yn pleidleisio yn ôl ei gydwbybod, y byddai mwyafrif naturiol ymysg Aelodau'r Cynulliad o'i blaid. Cawn weld os felly y bydd hi'n ddiweddarach heddiw.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru wedi cefnogi diwygio pleidleisio ers tro byd, gan gredu ei bod yn iawn y dylai canlyniadau etholiadau adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio. Mae hynny'n arbennig o bwysig ar lefel llywodraeth leol, lle caiff cannoedd o filiynau o bunnoedd o arian trethdalwyr eu gwario bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, a llawer mwy. Yn y gorffennol yr ydym wedi gweld beth sy'n digwydd pan fydd un blaid yn uchaf mewn cyngor lleol am gyfnod hir gyda lleiafrif o'r pleidleisiau; mae'n mynd yn hunanfodlon ac yn anatebol, ac ni fydd y cyngor yn newid yn

with a proportionate system of voting, while voters living in multimember wards have a genuine choice of representatives to choose from both when they vote and when they seek help and advice.

We should not forget that, when it first formed a Government in the 1920s, the Labour Party also had a commitment to proportional representation. Due to the circumstances of its first administration, it was not able to implement it at that time and it quickly dropped out of its policy programme. Nevertheless, Labour has embraced a form of fair voting for the Assembly, the Scottish Parliament and also for elections to the European Parliament. Furthermore, working with the Welsh Liberal Democrats, a former Labour-led administration put in place two commissions, the Sunderland commission and the Richard commission, which recommended the single transferable vote for local government and Assembly elections respectively. Neither of those recommendations was implemented, but I know that a number of Labour Members would support such measures if they had the opportunity.

Although the Conservatives have traditionally opposed reform of the electoral system, even they must acknowledge that it is time to move forward. Indeed, they did so in May last year, when they presented a manifesto to the Welsh electorate that proposed offering local communities the option of a referendum on the way that their council is elected. Every Conservative Assembly Member here today must be aware that the only way that they could possibly implement such a manifesto promise would be if the appropriate powers were drawn down from Westminster.

1.40 p.m.

They would need an LCO such as this one in order to fulfil their pledge. I fully hope, therefore, that they will support the motion before us today. To do otherwise, or even to sit on the fence by abstaining, would leave them open to the charge of insincerity and of making promises that they do not seek to

ddigon cyflym i adlewyrchu'r galwadau sydd arno. Gellir osgoi hynny gyda system o bleidleisio gyfrannol, lle caiff pleidleiswyr sy'n byw mewn wardiau gyda mwy nag un aelod ddewis go iawn o gynrychiolwyr wrth bleidleisio ac wrth geisio cael cymorth a chynghor.

Ni ddylem anghofio, pan ffurfiodd y Blaid Lafur Lywodraeth am y tro cyntaf yn y 1920au, ei bod hi hefyd wedi ymrwymo i gynrychiolaeth gyfrannol. Oherwydd amgylchiadau ei gweinyddiaeth gyntaf, ni lwyddodd i'w gweithredu bryd hynny a disgynnodd allan o'i rhaglen bolisi yn gyflym. Serch hynny, mae Llafur wedi coleddu math o bleidleisio teg ar gyfer y Cynulliad, Senedd yr Alban a hefyd ar gyfer etholiadau i Senedd Ewrop. Ar ben hynny, drwy weithio gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr oedd gweinyddiaeth flaenorol dan arweiniad Llafur wedi sefydlu dau gomisiwn, sef comisiwn Sunderland a chomisiwn Richard, a oedd yn argymhell y bleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad yn y drefn honno. Ni chafodd y naill argymhelliad na'r llall ei weithredu, ond gwn y byddai nifer o Aelodau Llafur yn cefnogi mesurau o'r fath petaent yn cael cyfle.

Er bod y Ceidwadwyr yn draddodiadol wedi gwrthwynebu diwygio'r system etholiadol, rhaid iddynt hwy hyd yn oed gydnabod ei bod yn hen bryd symud ymlaen. Yn wir, gwnaethant hynny fis Mai y llynedd, pan gyflwynwyd maniffesto ganddynt i etholwyr Cymru a oedd yn cynnig cyflwyno refferendwm i gymunedau lleol ynghylch y ffordd y caiff eu cynghor ei ethol. Rhaid i bob Aelod Cynulliad Ceidwadol yma heddiw fod yn ymwybodol mai'r unig ffordd bosibl y gallent weithredu addewid maniffesto felly fyddai petai pwerau priodol yn cael eu trosglwyddo i lawr o San Steffan.

Byddai arnynt angen Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol fel hwn i gyflawni eu haddewid. Mawr obeithiaf, felly, y byddant yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw. Byddai gwneud fel arall, neu hyd yn oed gadw'r ddysgl yn wastad drwy ymatal, yn golygu y byddent yn agored i

keep, which I am sure is not the case.

We also need to be clear about one more issue today, which will perhaps help the Conservatives and other AMs who are having doubts about this LCO, namely that this debate is not about introducing proportional representation into local government elections. That is a discussion for another day. We are discussing today whether the Assembly should have the power to do such a thing at some time in the future. We are asking for the powers so that we can determine our own Welsh solutions, which, after all is the whole *raison d'être* behind the Government of Wales Act 2006.

In asking for these powers, we should be clear that we are doing so for a variety of reasons that will help us to make Wales a better place in which to live. We will be taking wide-ranging powers to modify many aspects of local government elections in this country. For example, it would make it possible for us to implement other recommendations made by Eric Sunderland's commission, including giving us the ability to consider setting maximum and minimum ward sizes and addressing the different levels of representation that different wards receive.

There has been talk recently about reorganising local government in Wales. I believe that the Minister for Social Justice and Local Government recently urged councils to work together more effectively, as proposed by the Beecham report, and warned them that if they did not do so, the Assembly Government would be forced to look at more drastic measures. Of course, there are many good arguments for the economies of scale that bigger local authorities may bring, but how could those benefits be reconciled with accountability when a much larger bureaucracy found itself at odds with local communities? Bigger councils may well bring a return to the dominance of single parties relying on a minority of votes. The logic is that if we are to review the governance arrangements for local services then we also need to look at how decisions on those services are made and how

gyhuddiad o annidwylledd a gwneud addewidion nad ydynt yn ceisio'u cadw, ac yr wyf yn siŵr nad yw hynny'n wir.

Mae angen hefyd inni fod yn glir am un mater arall heddiw, a fydd efallai'n helpu'r Ceidwadwyr a'r ACau eraill sy'n amheus ynghylch y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn, sef nad yw'r ddadl hon yn ymwneud â chyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae honno'n drafodaeth ar gyfer diwrnod arall. Yr ydym yn trafod heddiw a ddylai'r Cynulliad gael y pŵer i wneud peth felly rywbyrd yn y dyfodol. Gofynnwn am y pwerau er mwyn inni allu pennu ein hatebion Cymreig ein hunain, sef, wedi'u cyfan, yr holl *raison d'être* y tu ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Wrth ofyn am y pwerau hyn, dylem fod yn glir ein bod yn gwneud hynny am amrywiaeth o resymau a fydd yn ein helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw. Byddwn yn cymryd pwerau eang i addasu nifer o agweddau ar etholiadau llywodraeth leol yn y wlad hon. Er enghraifft, byddai'n ei gwneud yn bosibl i ni weithredu argymhellion eraill a wnaethpwyd gan gomisiwn Eric Sunderland, gan gynnwys rhoi'r gallu inni ystyried pennu maint mwyaf a lleiaf ar gyfer wardiau, a rhoi sylw i'r gwahanol lefelau cynrychiolaeth a gaiff gwahanol wardiau.

Yn ddiweddar bu sôn am ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Credaf fod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi annog cynghorau'n ddiweddar i gydweithio'n fwy effeithiol, fel y cynigiwyd gan adroddiad Beecham, ac fe'u rhybuddiodd y byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad edrych ar fesurau llymach os na fyddant yn gwneud hynny. Wrth gwrs, mae nifer o ddadleuon da dros yr arbedion maint a all ddod yn sgil cael awdurdodau lleol mwy, ond sut y gellid cymodi'r manteision hynny ag atebolrwydd pan fyddai biwrocratiaeth fwy o lawer yn anghytuno â chymunedau lleol? Efallai y bydd cynghorau mwy yn mynd â ni'n ôl at uchafiaeth pleidiau unigol sy'n dibynnu ar leiafrif o'r pleidleisiau. Y rhesymeg yw, os ydym am adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau lleol, fod hefyd angen inni edrych ar y ffordd y caiff penderfyniadau am

transparency and accountability is maintained. To do that, the Government needs the powers that are offered by this LCO. It should take them now rather than suffer a delay when it needs it least.

My own views on fair voting are well documented. I support the single transferable vote system of electing political representatives. I could spend all day giving good reasons why this system is superior to many others, but this is not the time for that debate; that time will come when or if we have a Measure before us. Nevertheless, it is pertinent that I deal with two common objections now in the hope of giving those Members who are wavering on this LCO some comfort that the world will not fall apart if they were to support it.

The most common objection to proportional representation is that it prevents firm governance and that coalitions become the order of the day. We have all had our fair share of coalitions in this place, but my LCO relates to local government where such arrangements are far more common and often lead to a better quality of governance. Indeed, if we can reach a situation, as is the case today, when all but a handful of local councils in Wales are run by a coalition, then what do we have to fear from putting in place a voting system that will produce a similar outcome but in a fairer way?

We should be clear that this proposal is not driven by my party's self-interest. Here in Cardiff, for example, the Welsh Liberal Democrats emerged from the local elections with 35 seats—we were just short of a majority—and with twice as many councillors as the Tories. Yet, in terms of the popular vote, we were narrowly in third place. Because of the way in which the first-past-the-post system works, there was an unfair outcome in the capital city. In Swansea, we would have ended up with fewer councillors, while the Tory group's number would grow from four to 11; there

y gwasanaethau hynny eu gwneud a sut y caiff eglurder ac atebolrwydd eu cynnal. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i'r Llywodraeth gael y pwerau a gynigir gan y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn. Dylai eu cymryd yn awr yn hytrach na gweld oedi pan na fydd arni fawr o'i angen.

Mae fy marn i ar bleidleisio teg wedi ei hen gofnodi. Yr wyf yn cefnogi'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy i ethol cynrychiolwyr gwleidyddol. Gallwn dreulio drwy'r dydd yn rhoi rhesymau da pam y mae'r system hon yn rhagori ar nifer o rai eraill, ond nid dyma'r amser ar gyfer y ddadl honno; daw'r adeg ar gyfer hynny pan neu os daw Mesur ger ein bron. Serch hynny, mae'n berthnasol i mi ddelio â dau wrthwynebiad cyffredin yn awr gan obeithio y byddaf yn cysuro'r Aelodau hynny sy'n petruso ynglŷn â'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn na fydd y byd yn chwalu os byddant yn ei gefnogi.

Y gwrthwynebiad mwyaf cyffredin i gynrychiolaeth gyfrannol yw ei fod yn rhwystro llywodraethu cadarn a bod clymbleidiau'n dod yn gyffredin. Yr ydym i gyd wedi cael ein cyfran deg o glymbleidiau yn y fan hon, ond mae fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn ymwneud â llywodraeth leol lle mae trefniadau o'r fath yn fwy cyffredin o lawer ac yn aml yn arwain at lywodraethu o safon well. Yn wir, os gallwn gyrraedd sefyllfa, fel sy'n digwydd heddiw, pan fydd holl gynghorau lleol Cymru, ac eithrio llond llaw, yn cael eu rhedeg gan glymblaid, beth sydd i'w ofni o weithredu system bleidleisio a fydd yn cynhyrchu canlyniad tebyg ond mewn ffordd decach?

Dylem fod yn glir nad hunan-fudd fy mhlaidd i sy'n gyrru'r cynnig hwn. Yma yng Nghaerdydd, er enghraifft, enillodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 35 o seddi yn yr etholiadau lleol—ychydig yn brin o fwyafrif—a chyda dwywaith y fwy o gynghorwyr na'r Torïaid. Er hynny, o ran y bleidlais boblogaidd yr oeddem yn y trydydd safle o drwch blewyn. Oherwydd y ffordd y mae system y cyntaf i'r felin yn gweithio, cafwyd canlyniad annheg yn y brifddinas. Yn Abertawe, byddem wedi cael llai o gynghorwyr, a byddai nifer y grŵp Torïaidd yn tyfu o bedwar i 11; ceid canlyniadau tebyg



would be similar outcomes in councils around Wales.

The most recent set of local government elections highlights the need for reform. A total of 102 councillors across Wales were elected unopposed without a single vote being cast. That means that nearly one in 10 seats were uncontested. In Scotland, a similar situation existed until the change was made to proportional representation. Last year, they did not have a single uncontested ward there.

The second issue that I wish to address is one that was often voiced by the late Peter Law: we have proportional voting for the Assembly and look at the mess that we are in. In some ways he was right. The additional Member system that we use to elect Assembly Members is a poor imitation of what a fair voting system should look like. It creates two different types of Members, it is not properly proportional, and it was designed to skew the result rather than make it fairer. No-one in their right mind would suggest such a system for local government. There are better ways to elect politicians than the one we use and I would not want anyone to think that what we use is synonymous with proportional representation—it is not.

I am firmly committed to the devolution process. I want an Assembly with powers equivalent to those of the Scottish Parliament. While LCOs alone will not give us that level of power, each one that is passed is another piece of the jigsaw and takes us another step towards redressing the imbalance. This LCO is a chance for the Assembly to grow and take on powers that should logically be held in Wales. On its own, it will not change the voting system. However, I hope that opponents of change will be willing to save those arguments for another day, and support this logical step in the devolution process. I urge you to give this a chance today so that we can proceed to the next stage. Thank you.

mewn cynghorau ledled Cymru.

Mae'r gyfres ddiweddaraf o etholiadau llywodraeth leol yn tynnu sylw at yr angen am ddiwygio. Cafodd 102 o gynghorwyr ledled Cymru eu hethol yn ddiwrthwynebiad heb i neb fwrw'r un bleidlais. Mae hynny'n golygu bod bron un sedd o bob 10 yn sedd ddiymgeisydd. Yn yr Alban, yr oedd y sefyllfa'n debyg cyn newid i gynrychiolaeth gyfrannol. Y llynedd, ni fu'r un ward diymgeisydd yno.

Yr ail fater yr hoffwn roi sylw iddo yw mater a fyddai'n cael ei godi'n aml gan y diweddar Peter Law: mae gennym bleidleisio cyfrannol ar gyfer y Cynulliad, ac edrychwch ar y llastr sydd gennym. Mewn rhai ffyrdd yr oedd yn iawn. Mae'r system Aelod ychwanegol a ddefnyddiwn i ethol Aelodau Cynulliad yn efelychiad gwael o'r hyn y dylai system bleidleisio deg ei gynnig. Mae'n creu dau wahanol fath o Aelod, nid yw'n gwbl gyfrannol, ac fe'i cynlluniwyd i gamystumio'r canlyniad yn hytrach na'i wneud yn decach. Ni fyddai neb yn ei iawn bwyll yn awgrymu system o'r fath ar gyfer llywodraeth leol. Mae yna well ffyrdd i ethol gwleidyddion na'r un a ddefnyddiwn ni, ac ni fyddai arnaf eisiau i neb feddwl bod yr hyn yr ydym ni'n ei ddefnyddio yn gyfystyr â chynrychiolaeth gyfrannol, oherwydd nid yw hynny'n wir.

Yr wyf wedi ymrwymo'n llwyr i'r broses ddatganoli. Mae arnaf eisiau Cynulliad sydd â phwerau sy'n cyfateb i rai Senedd yr Alban. Er na fydd Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol, ar eu pen eu hunain, yn rhoi pŵer felly inni, mae pob un sy'n cael ei basio yn ddarn arall yn y jig-so ac yn mynd â ni gam arall yn nes at unioni'r anghydbwysedd. Mae'r Gorchmyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn gyfle i'r Cynulliad dyfu a mabwysiadu pwerau a ddylai, yn rhesymegol, fod gennym ni yng Nghymru. Ni fydd hyn, ar ei ben ei hun, yn newid y system bleidleisio. Gobeithio, fodd bynnag, y bydd y sawl sy'n gwrthwynebu newid yn fodlon cadw'r dadleuon hynny i'w lleisio rywbryd eto, ac yn cefnogi'r cam rhesymegol hwn yn y broses ddatganoli. Anogaf chi i roi cyfle i hyn heddiw fel y gallwn symud ymlaen i'r cam nesaf. Diolch.

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** While each Assembly Member will have a view on this, the Government does not have a view, and, therefore, there will be no formal response from the Government.

**David Melding:** This could be a very short debate, by the sound of it. I am not sure that Peter Black will commend what I have to say any more than what Carwyn Jones has just said. In the spirit of this being a backbench motion as a result of Peter winning the ballot, I will start by saying that I think that there is a strong case for using proportional representation more extensively in the election of representatives at all levels of government. That is my position, and I was pleased that—with other colleagues—I was able to get some of this into the manifesto that Peter has read with such great attention, and I thank him for that.

I am here to outline what we will do as a group. We feel that this is a serious issue, and we will not therefore be permitting a free vote. Our general view is that, at this stage, we as a group should abstain. We are happy for a general debate on proportional representation to start, but I do not think that something as major as this is best brought in by a backbencher; it needs the authority of a platform for government, and that is why putting it in a manifesto and then in a programme for government would be the best way forward. I also think that it would be better to have a full debate first, because that is what would be needed to get the authority for this transfer of power. It would be difficult to do it before we have had the debate. It is too big an issue, and I think that Westminster is unlikely to respond positively to a request made in this way.

However, it has to be said that PR is a system that fits better with the multi-party political state that we are now in, even at the UK level, although more so at the devolved level in Scotland, Northern Ireland—which, even in the past, had to have PR—and Wales. Anyone looking at the strength of the British constitution would have to think very seriously about better systems of PR because

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Er y bydd gan bob Aelod o'r Cynulliad farn am hyn, nid oes gan y Llywodraeth farn am y pwnc, ac felly ni fydd ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth.

**David Melding:** Ymddengys y gallai hon fod yn ddadl hynod o fyr. Nid wyf yn siŵr a fydd Peter Black yn cymeradwyo'r hyn sydd gennyf i'w ddweud, ddim mwy na'r hyn y mae Carwyn Jones newydd ei ddweud. Gan mai cynnig o'r meinciau cefn yw hwn oherwydd i Peter ennill y balot, cychwynaf drwy ddweud fy mod yn credu bod dadl gref o blaid defnyddio cynrychiolaeth gyfrannol yn fwy helaeth wrth ethol cynrychiolwyr ar bob lefel o lywodraeth. Dyna fy safbwynt i, ac yr oeddwn yn falch fy mod—gyda chydweithwyr eraill—wedi llwyddo i gael rhywfaint o hyn i mewn i'r maniffesto y mae Peter wedi'i ddarllen mor fanwl, a hoffwn ddiolch iddo am hynny.

Diben fy araith yw amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud fel grŵp. Teimlwn fod hwn yn fater difrifol, ac felly ni fyddwn yn caniatáu pleidlais rydd. Ein barn yn gyffredinol, ar hyn o bryd, yw y dylem fel grŵp atal ein pleidlais. Yr ydym yn fodlon gweld cychwyn trafodaeth gyffredinol ar gynrychiolaeth gyfrannol, ond ni chredaf mai Aelod o'r meinciau cefn yw'r ffordd orau i gyflwyno mater mor bwysig â hwn; mae arno angen awdurdod llwyfan ar gyfer llywodraethu, a dyna pam mai'r ffordd orau ymlaen fyddai ei roi mewn maniffesto ac yna mewn rhaglen ar gyfer llywodraethu. Credaf hefyd y byddai'n well cael trafodaeth lawn yn gyntaf, oherwydd dyna y byddai ei angen i gael yr awdurdod i drosglwyddo'r pŵer hwn. Byddai'n anodd ei wneud cyn inni gael y drafodaeth. Mae'n fater rhy fawr, a chredaf fod San Steffan yn annhebygol o ymateb yn gadarnhaol i gais a wneir fel hyn.

Fodd bynnag, rhaid dweud bod cynrychiolaeth gyfrannol yn system sy'n gweddu'n well i'r cyflwr gwleidyddol amlbleidiol yr ydym ynddo bellach, hyd yn oed ar lefel y DU, er yn fwy felly ar y lefel ddatganoledig yn yr Alban, Gogledd Iwerddon—a oedd, hyd yn oed yn y gorffennol, yn gorfod cael cynrychiolaeth gyfrannol—a Chymru. Byddai'n rhaid i unrhyw un a fyddai'n edrych ar gryfder

we are a long way from the old days in which the two major parties, in general elections, would get around 98 per cent of the vote. Those days, I suspect—although I should not really say it—are gone forever.

1.50 p.m.

In at least two of the parties represented in the Chamber, there are views for and against PR. That has to be respected and there has to be an opportunity for a full discussion for people within parties who have different views on systems of government. After all, anyone who has read comparative politics—I am afraid that, over the years, I have delved extensively into that rather miserable genre—will know that there is no perfect system; all systems have advantages and disadvantages. However, I think that the weight of evidence is for a sound PR system—you can argue about whether it should be an additional member system or STV; I do not think that Peter's case is quite as emphatic as he indicated, but be that as it may. We just need a thorough discussion of the issue.

We also need to take people with us, as it would be a big change in local government. I think that it would better reflect what is now happening, and that we would be catching up with the practice that people are engaging in in tending to move away from traditional loyalties. However, it requires quite a long discussion with the people. If we follow the precedent of the convention that is now looking at further powers for the Assembly, and consider the need to inform people, I think that the time has not quite come to back this LCO. In saying that, however—I know that it is not terribly helpful for you, Peter—we do not feel so obdurate that we would vote against the motion, so we will be neutral and abstain.

**Michael German:** I welcome David's comments. It must be difficult for a supporter

cyfansoddiad Prydain feddwl o ddifrif am well systemau cynrychiolaeth gyfrannol, oherwydd yr ydym wedi symud cryn bellter o'r hen ddyddiau pan fyddai'r ddwy brif blaid, mewn etholiadau cyffredinol, yn cael tua 98 y cant o'r bleidlais. Yr wyf yn amau bod y dyddiau hynny—er na ddylwn ddweud hyn, mewn gwirionedd—wedi mynd am byth.

Mewn dwy o'r pleidiau o leiaf a gynrychiolir yn y Siambr mae safbwyntiau o blaid ac yn erbyn cynrychiolaeth gyfrannol. Rhaid parchu hynny a rhaid cael cyfle am drafodaeth lawn i'r bobl hynny yn y pleidiau sydd â gwahanol safbwyntiau ar systemau llywodraethu. Wedi'r cyfan, bydd unrhyw un sydd wedi astudio gwleidyddiaeth gymharol—mae arnaf ofn fy mod i, dros y blynyddoedd, wedi ymchwilio'n helaeth i'r *genre* diflas hwnnw—yn gwybod nad oes y fath beth â system berffaith; mae i bob system ei manteision a'i hanfanteision. Fodd bynnag, credaf fod y dystiolaeth yn drwm o blaid system gadarn o gynrychiolaeth gyfrannol—gallwch ddadlau a ddylai fod yn system o aelod ychwanegol ynteu'n bleidlais sengl drosglwyddadwy; ni chredaf fod dadl Peter mor rymus ag yr awgrymai mewn gwirionedd, ond dyna ni. Y gwir amdani yw fod arnom angen trafodaeth drwyadl ar y pwnc.

Mae angen hefyd i ni sicrhau cefnogaeth pobl, gan y byddai'n golygu newid mawr mewn llywodraeth leol. Credaf y byddai'n well adlewyrchiad o'r hyn sy'n digwydd yn awr, ac y byddem yn dechrau ymateb i'r hyn y mae pobl yn ei wneud wrth iddynt dueddu i droi cefn ar hen deyrngarwch traddodiadol. Fodd bynnag, mae angen trafodaeth eithaf hir â'r bobl. Os dilynwn gynsail y confensiwn sy'n edrych ar ragor o bwerau i'r Cynulliad ar hyn o bryd, ac ystyried yr angen i roi gwybodaeth i bobl, credaf na ddaeth yr union adeg eto i gefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn. Wrth ddweud hynny, fodd bynnag—gwn nad yw hyn yn hynod o ddefnyddiol ichi, Peter—nid ydym yn teimlo mor ystyfnig fel y byddem yn pleidleisio yn erbyn y cynnig, felly, yr ydym am fod yn niwtral ac atal ein pleidlais.

**Michael German:** Croesawaf sylwadau David. Mae'n rhaid ei bod yn anodd i un sy'n

of proportional representation to urge abstention in the Chamber. It must be a particularly difficult job when you believe that the outcome of the debate should go in a particular direction.

I also find it unusual that a member of the Government should say that the Government does not have a view. I do not find that surprising, however, because it would be difficult to get a unified view on this issue when there are such divided views in his party.

At this stage, the issue is this: do you want a debate in Wales on how we conduct local council elections? Do you think that that matter should be decided in Wales? Do you think that it should be debated broadly across Wales to see what people's views are? If you do, then you should vote for the LCO, because that is all that it will give you. It will not give you the change that some may want to think about as the ultimate goal. Of course, it is difficult for people who have a lifelong history of promoting a particular form of local government election and a particular form of voting to say, 'Yes, let's have the debate', but we have to carry people with us, and the debate should start. The debate will not start, however, if all we do is wait for some point 10 years or so in the future.

It is important for people to understand that this is about the National Assembly's powers. If you believe that, like Scotland and Northern Ireland, we should have the right to make such decisions for ourselves and the right to talk about those issues, and the right to reach whatever conclusion the National Assembly and the people of Wales determine, then now is the right time to ask for those powers to come to us. I do not underestimate the difficulty in arguing the position that I hold with the people of Wales and local government, and even some in my own party, once we have the powers and a proposed Measure comes before us. However, we should have the right to have that discussion.

What David said is absolutely true: we are a

cefnogi cynrychiolaeth gyfrannol annog ymatal yn y Siambr. Mae'n rhaid bod hynny'n beth arbennig o anodd i'w wneud a chithau'n credu y dylai canlyniad y ddadl fynd i gyfeiriad penodol.

I mi, mae'n anarferol hefyd clywed aelod o'r Llywodraeth yn dweud nad oes gan y Llywodraeth farn. Nid yw hynny'n peri syndod imi, fodd bynnag, oherwydd byddai'n anodd cael barn unedig ar y mater hwn a chynifer o safbwyntiau rhanedig yn ei blaid ef.

Ar hyn o bryd, dyma'r broblem: a oes arnoch eisiau trafodaeth yng Nghymru ar y ffordd yr ydym yn cynnal etholiadau cynghorau lleol? A ydych yn credu mai yng Nghymru y dylid penderfynu'r mater hwnnw? A ydych yn credu y dylid trafod y pwnc yn eang ledled Cymru i weld beth yw barn pobl? Os ydych, yna dylech bleidleisio o blaid y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, oherwydd dyna'r oll y bydd yn ei roi ichi. Ni fydd yn rhoi ichi'r newid y mae ar rai pobl, efallai, am feddwl amdano fel yr amcan yn y pen draw. Wrth gwrs, mae'n anodd i bobl sydd wedi treulio'u hoes yn hyrwyddo math penodol ar etholiad llywodraeth leol a math penodol ar bleidleisio i ddweud, 'Ie, beth am gael trafodaeth'. Ond rhaid inni fynd â'r bobl gyda ni, a dylai'r drafodaeth ddechrau. Ni fydd y drafodaeth yn dechrau, fodd bynnag, os y cyfan a wnawn yw aros am ryw adeg tua 10 mlynedd yn y dyfodol.

Mae'n bwysig i bobl ddeall bod hyn yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol. Os credwch y dylem ni, fel yr Alban a Gogledd Iwerddon, gael yr hawl i wneud penderfyniadau o'r fath ein hunain a'r hawl i siarad am y materion hynny, a'r hawl i ddod i ba gasgliad bynnag y bydd y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru yn ei benderfynu, yna dyma'r adeg iawn i ofyn am gael trosglwyddo'r pwerau hynny inni. Nid wyf yn bychanu anhawster dadlau o blaid fy safbwynt gyda phobl Cymru a llywodraeth leol, a hyd yn oed gyda rhai pobl yn fy mhlaid fy hun, wedi inni gael y pwerau a phan ddaw Mesur arfaethedig ger ein bron. Fodd bynnag, dylem gael yr hawl i gynnal y drafodaeth honno.

Mae'r hyn a ddywedodd David yn berffaith

much more pluralist society now. The evidence of the elections over the lifetime of the National Assembly is that no longer can parties command a majority on a minority share of the vote. Let us remember that Governments here have never been elected on a majority of the votes—that is not the way it works in Wales any longer. People have used the system to get themselves elected in that manner. That has, however, resulted in much more pluralist opportunities for political parties to develop and grow, as well for those who are not in political parties, as we saw in the most recent council elections. That is healthy for a democracy, and that is why we should have the debate here.

We know about the Scottish experience, and if anybody wants to debate it, they are free to do so. However, the reports on what happened in the most recent elections in Scotland were not about the problems caused by the local elections—most of the spoiled ballots were for the election to the Scottish Parliament, and that was because of how the ballot paper was designed and presented to people.

It is not about whether or not it worked for local government. How the ballot paper for the Scottish Parliament elections was presented did not work. The consequence of the arrangements in Scotland, which uses a system that our party prefers, is that there is no overall majority in local authorities in Scotland, except for two. That is much the same picture as in Wales in any case—18 out of 22 local authorities here have no overall majority—but the pattern and the balance would have been different under a different electoral system. Fundamentally, a proportional system is about fairness. It is about making your vote count wherever you are—Blaenau Gwent, Tredegar, Cardiff, Bangor, Ceredigion—because everyone's vote has equal weight.

This LCO would also provide an opportunity to identify the problems with the current ward structure in Wales. It always strikes me as bizarre that Newport East, as John

wir: yr ydym yn gymdeithas sy'n fwy amryfath o lawer y dyddiau hyn. Os edrychwn ar dystiolaeth yr etholiadau a gynhaliwyd yn ystod oes y Cynulliad Cenedlaethol, gwelwn na all pleidiau mwyach hawlio mwyafrif ar sail lleiafrif o'r bleidlais. Dylem gofio na chafodd Llywodraethau yma erioed eu hethol ar sail mwyafrif o'r pleidleisiau—nid dyna sut y mae hi'n gweithio yng Nghymru mwyach. Mae pobl wedi defnyddio'r system i gael eu hethol fel hynny. Mae hynny, fodd bynnag, wedi creu cyfleoedd llawer mwy amryfath i bleidiau gwleidyddol ddatblygu a thyfu, yn ogystal ag i'r rheini nad ydynt yn aelodau o bleidiau gwleidyddol, fel y gwelsom yn yr etholiadau cyngor yn ddiweddaraf. Mae hynny'n beth iach i ddemocratiaeth, a dyna pam y dylem gael y drafodaeth yn y fan hon.

Gwyddom am brofiad yr Alban, ac os oes ar unrhyw un eisiau trafod hynny, mae croeso iddynt wneud. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiadau ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd yn yr etholiadau yn yr Alban yn ddiweddar yn ymwneud â'r problemau a achoswyd gan yr etholiadau lleol—papurau pleidleisio ar gyfer yr etholiad i Senedd yr Alban oedd y rhan fwyaf o'r rhai a ddifethwyd, a hynny oherwydd y modd y cafodd y papur pleidleisio ei gynllunio a'i gyflwyno i bobl.

Nid a fu'n llwyddiannus i lywodraeth leol ai peidio yw'r mater dan sylw. Ni lwyddodd y ffordd y cafodd y papur pleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban ei gyflwyno. Canlyniad y trefniadau yn yr Alban, sy'n defnyddio system y mae ein plaid ni'n ei ffafrio, yw nad oes dim mwyafrif clir mewn awdurdodau lleol yn yr Alban, heblaw dau. Mae hynny'n debyg iawn i'r sefyllfa yng Nghymru beth bynnag—yma, nid oes mwyafrif clir mewn 18 o'r 22 awdurdod lleol—ond byddai'r patrwm a'r cydbwysedd wedi bod yn wahanol dan system etholiadol wahanol. Tegwch sydd wrth wraidd system gyfrannol mewn gwirionedd. Mae'n golygu gwneud i'ch pleidlais gyfrif lle bynnag yr ydych chi'n byw—Blaenau Gwent, Tredegar, Caerdydd, Bangor, Ceredigion—oherwydd yr un yw gwerth pleidlais pawb.

Byddai'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn hefyd yn rhoi cyfle i nodi'r problemau gyda strwythur wardiau Cymru ar hyn o bryd. Mae bob amser yn

Griffiths knows, covers two council areas. One part, which is about two thirds of Newport East, is in a multi-member ward situation, and the other third of the constituency is in Monmouthshire, and a single-member situation. You could argue the case for single wards against multi-member wards, but there is no sense of there being a thorough look at what is best for Wales, and how local people are best served by the voting structure. This LCO would give you that as well.

I urge Members to put aside their ambitions for neutrality and remember that the National Assembly deserves a debate, and to get the debate you must vote for this LCO.

**David Lloyd:** I commend Peter Black on bringing forward this proposal for a legislative competence Order on changing the system for local government elections in Wales. The idea of this LCO, as is the case for any LCO, is to bring new powers to Wales to make and implement whatever system we in the Assembly want. In Plaid, we are totally in favour of increasing the powers of the National Assembly, which will, hopefully, one day march onwards into a proud Parliament. We firmly believe that we need to be deciding on matters here and we firmly believe that we can decide on matters here, and it is entirely appropriate within the arrangements that we have at the moment that Peter Black should bring forward a legislative competence Order on local government electoral arrangements in Wales.

Plaid's policy is for STV, which, I suppose, is the most popular form of proportional representation for local government. As we have already heard, that is the system enacted in Scotland and, clearly, the Scottish administration has not caved in overnight since that gigantic move, because it has already had a very successful election. We have heard the arguments in favour of proportional representation: every vote counts, there is no such thing as a wasted

ymddangos yn rhyfedd i mi fod Dwyrain Casnewydd, fel y gŵyr John Griffiths, yn cwmpasu ardaloedd dau gyngor. Mae'r naill dwy ran o dair o Ddwyrain Casnewydd, mewn sefyllfa lle mae wardiau gyda sawl aelod a thraean arall yr etholaeth ym Mynwy, gydag un aelod. Gallech ddadlau'r achos dros gael wardiau sengl yn hytrach na wardiau lle ame nifer o aelodau, ond nid oes ymdeimlad o edrych yn fanwl ar yr hyn sydd orau i Gymru, a pha strwythur pleidleisio a fyddai'n gwasanaethu pobl leol orau. Byddai'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn rhoi hynny ichi hefyd.

Anogaf yr Aelodau i roi eu hawydd i fod yn niwtral i'r naill ochr a chofio bod y Cynulliad Cenedlaethol yn haeddu cael trafodaeth. Ac er mwyn cael y drafodaeth honno rhaid ichi bleidleisio o blaid y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn.

**David Lloyd:** Yr wyf yn canmol Peter Black am gyflwyno'r cynnig hwn am Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol i newid system etholiadau llywodraeth leol Cymru. Y syniad y tu ôl i'r Gorchymyn hwn, fel yn achos unrhyw Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arall, yw dod â phwerau newydd i Gymru fel y gallwn greu a chyflwyno pa system bynnag y mae arnom ni yn y Cynulliad ei heisiau. Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn llwyr o blaid cynyddu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, a fydd, gobeithio, yn camu ymlaen i fod yn Senedd falch un diwrnod. Credwn yn gryf fod angen i ni fod yn penderfynu materion yma, a chredwn yn gryf y gallwn benderfynu materion yma, ac y mae'n gwbl briodol o fewn y trefniadau sydd gennym ar hyn o bryd i Peter Black gyflwyno Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar drefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru.

Polisi Plaid Cymru yw dros bleidlais sengl drosglwyddadwy, sef y math mwyaf poblogaidd ar gynrychiolaeth gyfrannol i lywodraeth leol, am wn i. Fel y clywsom eisoes, dyna'r system a ddefnyddir yn yr Alban, ac yn amlwg nid yw gweinyddiaeth yr Alban wedi cwmpo dros nos ers y newid aruthrol hwnnw, oherwydd y mae eisoes wedi cael etholiad llwyddiannus iawn. Yr ydym wedi clywed y dadleuon o blaid cynrychiolaeth gyfrannol: mae pob pleidlais

vote, and you do not have to vote tactically, which sometimes goes against the grain, because whatever you do will be taken into account under the single transferable vote system. Also, under that system, when a political party gets 10 per cent of the vote, it gets 10 per cent of the elected representatives, when it gets 20 per cent of the vote, it gets 20 per cent of the elected representatives and when it gets 30 per cent of the vote, it gets 30 per cent of the elected representatives. I could go on, but I would not want to confuse David Melding, who is sat happily on his fence over there.

Those arguments are for another day. Today, we are considering whether we should have the powers to decide on these matters in the National Assembly for Wales. We are voting to increase the powers vested in the Assembly. Regardless of the topic, I would vote for that, because that is why I am a member of Plaid Cymru. This particular topic is the electoral arrangements for local government in Wales, and I believe in STV, but, primarily, we are voting in favour of increased powers for the National Assembly for Wales by way of this LCO, and that is how we will vote on this side of the Chamber.

2.00 p.m.

**Jenny Randerson:** I will start by pointing out that all of us who are believers in devolution—and I would very much hope that no-one would have the audacity to sit here if they did not believe in devolution. All believers in devolution should vote for this today because it is about increasing our powers, as Dai Lloyd has effectively said. The voting system for local elections is part of a vibrant democracy which, I would hope, is a key issue that we are all here to ensure.

First, I will deal with the elephant in the room, as it were, namely proportional representation, which is one aspect of this. It is interesting that this debate should come so soon after the local elections. I am sure that

yn cyfrif, nid oes y fath beth â phleidlais wastraff, ac nid oes raid ichi bleidleisio'n dactegol, sy'n mynd yn groes i'r graen weithiau, oherwydd bydd beth bynnag a wnewch yn cyfrif dan system y bleidlais sengl drosglwyddadwy. Hefyd, dan y system honno, pan fydd plaid wleidyddol yn cael 10 y cant o'r bleidlais, mae'n cael 10 y cant o'r cynrychiolwyr etholedig, pan fydd yn cael 20 y cant o'r bleidlais, mae'n cael 20 y cant o'r cynrychiolwyr etholedig, a phan fydd yn cael 30 y cant o'r bleidlais, mae'n cael 30 y cant o'r cynrychiolwyr etholedig. Gallwn barhau, ond ni fyddai arnaf eisiau drysu David Melding, sy'n eistedd yn hapus ar ei ffens draw fan acw.

Dadleuon i'w trafod rywbryd eto yw'r rheini. Heddiw yr ydym yn ystyried a ddylem gael y pwerau i benderfynu'r materion hyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr ydym yn pleidleisio i gynyddu'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad. Waeth beth fo'r pwnc, byddwn i'n pleidleisio o blaid hynny, oherwydd dyna pam yr wyf yn aelod o Blaid Cymru. Y pwnc penodol dan sylw yw trefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru, ac yr wyf fi'n credu yn y bleidlais sengl drosglwyddadwy, ond, yn anad dim, yr ydym yn pleidleisio dros fwy o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gyfrwng y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn, a dyna sut y byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn pleidleisio.

**Jenny Randerson:** Cychwynnaf drwy nodi y dylai pob un ohonom sy'n credu mewn datganoli—a mawr obeithiwn na fyddai neb yn ddigon haerllug i eistedd yma os nad oedd yn credu mewn datganoli. Dylai pawb sy'n credu mewn datganoli bleidleisio o blaid hyn heddiw gan ei fod yn ymwneud â chynyddu ein pwerau, fel y mae Dai Lloyd wedi dweud mewn modd effeithiol. Mae'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol yn rhan o ddemocratiaeth fywiog, sy'n fater allweddol yr ydym i gyd yma i'w sicrhau, mi obeithiwn.

Yn gyntaf, deliaf â'r eliffant yn yr ystafell, fel petai, sef cynrychiolaeth gyfrannol, sy'n un agwedd ar hyn. Mae'n ddiddorol fod y ddadl hon yn dod mor fuan ar ôl yr etholiadau lleol. Yr wyf yn siŵr y gallwn i gyd feddwl am

we can all think of examples in our own constituencies when the result has been completely disproportionate to the number of votes cast for particular people. Peter has already mentioned the case of Cardiff. It might seem interesting to you that I am drawing attention to that situation, but I do so because, for those of us who believe in a fair and vibrant democracy, it is important that we overcome our own natural instincts to protect the areas over which we have control and power. We would almost certainly lose seats in Cardiff if we had proportional representation, a single transferable vote, in the current situation—of course, as a party, we would work hard to build up our support across the city to ensure that that did not happen, but if this changed overnight, that would be the impact. We have to rise above that because we have to have a representative democracy that is seen as fair, transparent and easy to understand. There is nothing less likely to encourage the electorate to go out to vote than their being aware that its democracy is not fair. I think that we would all be united in recognising the need to increase the number of people going out to vote.

It is important to remember that the Sunderland commission recommended the single transferable vote. It looked at the date of 2008 as a possible time for implementing it. That date has come and gone. However, David, we could still implement it by 2012. For that to happen, we must have this legislative competence Order. We do not have to sit and wait for the Government—a Government that does not have a view on this, according to Carwyn Jones; therefore, waiting for the Government in this regard would be a bit like waiting for Godot—to bring forward the perfect scenario. It is important for us to go ahead with this, and we can ensure that there is a full debate, public consultation and discussion, and that the Government brings forward Measures if there is the will.

On the other aspects of this proposed legislative competence Order, it would deal with the general arrangements for voting. There are other things that we would want to change. I am sure that there can be no-one

enghreiffiau yn ein hetholaethau ein hunain lle mae'r canlyniad wedi bod yn gwbl anghymesur â nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bobl benodol. Mae Peter eisoes wedi sôn am achos Caerdydd. Efallai ei bod yn ymddangos yn ddiddorol i chi fy mod yn tynnu sylw at yr enghraifft honno, ond gwnaf hynny gan ei bod yn bwysig i'r rheini ohonom sy'n credu mewn democratiaeth deg a bywiog ein bod yn codi uwchlaw ein greddfau naturiol ein hunain i warchod yr ardaloedd y mae gennym bŵer a rheolaeth drostynt. Byddem bron yn sicr o gollu seddau yng Nghaerdydd pe caem gynrychiolaeth gyfrannol, pleidlais sengl drosglwyddadwy, yn y sefyllfa bresennol—wrth gwrs, fel plaid, byddem yn gweithio'n galed i ddenu cefnogaeth ar draws y ddinas i sicrhau na ddigwyddai hynny, ond petai hyn yn newid dros nos, dyna fyddai'r effaith. Rhaid inni godi uwchlaw hynny am ei bod yn rhaid inni gael democratiaeth gynrychioladol, sydd i'w gweld yn deg, yn eglur ac yn hawdd ei deall. Nid oes dim yn llai tebygol o gymell yr etholwyr i fynd allan i bleidleisio na bod yn ymwybodol fod eu democratiaeth yn annheg. Credaf y byddem i gyd yn gytûn yn cydnabod bod angen cynyddu nifer y bobl sy'n troi allan i bleidleisio.

Mae'n bwysig cofio bod comisiwn Sunderland wedi argymhell y bleidlais sengl drosglwyddadwy. Bu'n ystyried 2008 fel dyddiad posibl ar gyfer ei gweithredu. Mae'r dyddiad hwnnw wedi mynd heibio. Er hynny, David, gallem eto ei gweithredu erbyn 2012. Er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid inni gael y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn. Nid oes rhaid inni eistedd yma a disgwyl gan y Llywodraeth—Llywodraeth nad oes ganddi farn ar hyn, yn ôl Carwyn Jones; felly, byddai disgwyl gan y Llywodraeth yn hyn yn debyg braidd i aros Godot—i greu'r senario perffaith. Mae'n bwysig inni fwrw ymlaen â hyn, a gallwn sicrhau dadl lawn, ymgynghori cyhoeddus a thrafodaeth, ac y bydd y Llywodraeth yn dod â Mesurau gerbron os oes ewylllys i wneud hynny.

Ynghylch yr agweddau eraill ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn, byddai'n delio â'r trefniadau cyffredinol ar gyfer pleidleisio. Mae yna bethau eraill y byddem yn



here who believes that everything about our electoral system is perfect. We may wish to change the voting hours. Very constructively, we might wish to change the days on which we vote. Why do we vote on a Thursday? Why do we not change the arrangement so that we vote at the weekend, and why can we not look at other arrangements connected with the voting system, which would make it more convenient, more voter-friendly, and more accessible, thereby encouraging turnout? This is also addressed by this legislative competence Order. Therefore, even if you are opposed to the single transferable vote and proportional representation, listen to what Peter said and ensure that you give the proposed legislative competence Order your vote this afternoon so that we can at least have the power to change the electoral system in our own nation for local elections.

**Peter Black:** I welcome the contributions made today. I was partly disappointed and partly pleased that the Government does not have a view. I would prefer it to have a view in support of getting extra powers for the Assembly but if it does not have a view, at least it may not whip its members against the motion, although I am sure that a substantial number of Labour Members may decide that they do not want to support this LCO.

I wish to comment briefly on David Melding's argument, which I thought was quite ludicrous. Effectively, he was saying that, on fundamental constitutional issues, opposition parties have no role to play and that backbenchers should not introduce policy but, effectively, wait for the Government to tell them what to do. I have never taken the view that anybody should tell me what to do in this regard, and the Government should certainly not dictate to us how the constitutional agenda of Wales or the UK should be played out. A great many people in this country sincerely believe in reform, both of the voting system and of our constitution, and they are fighting for reform. This LCO is one part of that fight. I hope that

dymuno'u newid. Yr wyf yn sicr nad oes neb yma sy'n credu bod popeth yn ein system etholiadol yn berffaith. Hwyrach y byddwn yn dymuno newid yr oriau pleidleisio. A bod yn adeiladol iawn, gallem ddymuno newid y dyddiau pan fyddwn yn pleidleisio. Pam pleidleisio ar ddydd Iau? Pam na newidiwn y trefniant er mwyn inni bleidleisio ar y penwythnos, a pham na allwn ystyried trefniadau eraill sy'n gysylltiedig â'r system bleidleisio, a fyddai'n ei gwneud yn fwy cyfleus, yn fwy hwylus i bleidleiswyr, ac yn fwy hygyrch, a chymell mwy i bleidleisio drwy hynny? Ymdrinnir â hyn hefyd yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn. Felly, hyd yn oed os ydych yn erbyn y bleidlais sengl drosglwyddadwy a chynrychiolaeth gyfrannol, gwrandewch ar yr hyn a ddywedodd Peter a sicrhau'ch bod yn pleidleisio o blaid y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig y prynhawn yma, fel y gallwn o leiaf gael y grym i newid y system etholiadol yn ein gwlad ein hunain ar gyfer etholiadau lleol.

**Peter Black:** Croesawaf y cyfraniadau a wnaethpwyd heddiw. Yr oeddwn yn rhannol siomedig ac yn rhannol falch nad oes barn gan y Llywodraeth. Byddai'n well gennyf petai o blaid cael pwerau ychwanegol i'r Cynulliad, ond os nad oes ganddi farn, mae o leiaf yn bosibl na fydd yn gwysio'i haelodau i bleidleisio yn erbyn y cynnig, er fy mod yn sicr fod nifer sylweddol o Aelodau Llafur a allai benderfynu nad ydynt am gefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn.

Dymunaf wneud sylw'n fyr am ddadl David Melding, a oedd yn ddigon chwerthinllyd, yn fy marn i. Yn y bôn, yr oedd yn dweud nad oes gan wrthbleidiau ran mewn materion cyfansoddiadol sylfaenol, ac na ddylai Aelodau'r meinciau cefn gyflwyno polisi ond disgwyl, i bob pwrpas, i'r Llywodraeth ddweud wrthynt beth i'w wneud. Nid wyf erioed wedi credu y dylai neb ddweud wrthyf beth i'w ddweud ar hyn, ac yn sicr ni ddylai'r Llywodraeth ddweud wrthyf sut y dylid trafod agenda gyfansoddiadol Cymru neu'r DU. Mae llawer iawn o bobl yn y wlad hon yn credu o ddifrif mewn diwygio, o ran y system bleidleisio ac o ran ein cyfansoddiad, ac y maent yn brwydro dros ddiwygio. Mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol

those who think that there is a need for reform and those who think that, as Dai Lloyd indicated, the Assembly needs extra powers to deal with issues such as local government—not only with regard to the voting system but with regard to other aspects of voting too—will support this legislative competence Order.

The people of Wales, and not MPs for England and Scotland, should decide how we elect our local authorities. I hope that Members will see this LCO for what it is: a chance for the Assembly to grow and take on powers that should logically be held in Wales. On its own, this LCO will not change the voting system, and I hope that opponents of change will be willing to save those arguments for another day and support this logical step in the devolution process. Opposing the LCO would merely put the brakes on devolution at a time when we should be going further and faster to deliver the change that the people of Wales want to see. There are members of all parties who support change to improve the way in which our councils are elected and run to ensure that more people get involved in the democratic process. We may not all agree on what those changes should be, but I hope that we can at least unite to ensure that those decisions will be made in Wales in future.

If we are united on that important concept, we should vote for this LCO today.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that motion NDM3919 be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer the vote until voting time.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.  
Vote deferred until voting time.*

hwn yn un rhan o'r frwydr honno. Gobeithio y bydd y rheini sy'n credu bod angen diwygio a'r rheini sy'n credu, fel y nododd Dai Lloyd, fod angen i'r Cynulliad gael pwerau ychwanegol i ddelio â materion fel llywodraeth leol—nid yn unig mewn cysylltiad â'r system bleidleisio ond mewn cysylltiad ag agweddau eraill ar bleidleisio hefyd—yn cefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn.

Pobl Cymru, ac nid Aelodau Seneddol dros Loegr a'r Alban, a ddylai benderfynu sut yr ydym yn ethol ein hawdurdodau lleol. Gobeithio y bydd Aelodau'n gweld yr hyn y mae'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn ei olygu: cyfle i'r Cynulliad dyfu ac ymgymryd â phwerau a ddylai fod gennym yng Nghymru, yn rhesymegol. Ar ei ben ei hun, ni fydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn yn newid y system bleidleisio, ac yr wyf yn gobeithio y bydd y rhai sy'n gwrthwynebu newid yn barod i gadw'r dadleuon hynny ar gyfer diwrnod arall ac yn cefnogi'r cam rhesymegol hwn yn y broses ddatganoli. Ni fyddai gwrthwynebu'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ond yn arafu datganoli ar adeg pan ddylem fynd ymhellach ac yn gyflymach i sicrhau'r newid y mae pobl Cymru am ei weld. Mae yna aelodau o bob plaid sydd dros newid i wella'r dull o ethol a rhedeg ein cynghorau er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn ymwneud â'r broses ddemocrataidd. Efallai nad ydym i gyd yn gytûn am y newidiadau y dylid eu cael, ond gobeithio y gallwn ddod at ein gilydd o leiaf i sicrhau y gwneir y penderfyniadau hynny yng Nghymru yn y dyfodol.

Os ydym yn gytûn am y cysyniad pwysig hwnnw, dylem bleidleisio o blaid y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn heddiw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod cynnig NDM3919 yn cael ei gytuno. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

### Twf Economaidd Economic Growth

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3 and 4 in the name of Carwyn Jones, and amendment 1 in the name of Kirsty Williams.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 3 a 4 yn enw Carwyn Jones, a gwelliant 1 yn enw Kirsty Williams.

**David Melding:** I propose that

**David Melding:** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales:*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*notes with concern that between 1997 and 2006 Wales achieved the lowest economic growth of any nation or region in the UK. (NDM3954)*

*yn nodi gyda phryder fod Cymru wedi cyflawni'r twf economaidd isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU rhwng 1997 a 2006. (NDM3954)*

This is an important debate, but before I get into some of the evidence and arguments that I want to advance on behalf of the Welsh Conservative Party, I will deal with the amendments. Amendment 1, which seeks to replace the words 'with concern' with the words 'the contention', I find curious. I would have had more respect for the coalition Government if it had simply voted against our whole motion. To replace 'with concern' with 'the contention' is a strange thing to do. Evidence is evidence, and if you feel that we are simply wrong, you should vote against what we propose. It is one of the strangest textual amendments we have had in this term of the Assembly.

Mae hon yn ddadl bwysig, ond cyn imi drafod rhywfaint o'r dystiolaeth a'r dadleuon y dymunaf eu rhoi gerbron ar ran Plaid Geidwadol Cymru, deliaf â'r gwelliannau. I mi mae gwelliant 1, sy'n ceisio rhoi'r geiriau 'the contention' yn lle'r geiriau 'with concern', yn rhyfedd. Buasai gennyf fwy o barch at y Llywodraeth glymblaid petai wedi pleidleisio yn erbyn ein cynnig yn gyfan, a'i adael ar hynny. Peth rhyfedd i'w wneud yw rhoi 'the contention' yn lle 'with concern'. Tystiolaeth yw dystiolaeth, ac os teimlwch ein bod yn anghywir, dylech bleidleisio yn erbyn yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Mae'n un o'r gwelliannau rhyfeddaf o ran geiriad a gawsom yn y tymor hwn yn y Cynulliad.

Amendment 2, tabled by the Liberal Democrats, focuses on skills. We think that it is constructive and we are happy to accept it. Amendment 3 is the Government's typical attempt to deflect attention and move away from the essential point of the debate to say that everything is the Tories' fault, which is its usual response. We therefore reject that. We also reject amendment 4, although it has a little more intrinsic merit. However, I shall outline later in the debate why we are not in favour of that amendment either.

Mae gwelliant 2, a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn canolbwyntio ar sgiliau. Credwn ei fod yn adeiladol ac yr ydym yn falch ei dderbyn. Ymgais arferol gan y Llywodraeth yw gwelliant 3 i osgoi sylw a symud oddi wrth bwynt hanfodol y ddadl i ddweud mai'r Toriaid sydd ar fai am bob dim, sef ei hymateb arferol. Felly, yr ydym yn gwrthod hwnnw. Yr ydym hefyd yn gwrthod gwelliant 4, er bod iddo ychydig mwy o werth. Fodd bynnag, dangosaf yn ddiweddarach yn y ddadl pam nad ydym o blaid y gwelliant hwnnw ychwaith.

Turning to the current position, I think that we all agree that we must be candid and open in our assessment of the health of the Welsh economy. That creates responsibilities for

I droi at y sefyllfa bresennol, credaf ein bod i gyd yn gytûn ei bod yn rhaid inni fod yn onest ac yn agored wrth inni asesu iechyd economi Cymru. Mae hynny'n creu

Government and opposition. I have tried to weigh the evidence in a reasonably dispassionate way. I do not believe that we can ever take partisanship out of what we say because, after all, we are political animals.

2.10 p.m.

However, I wish to look in a rational way at the evidence. I have tried to draw most of what I am going to say this afternoon from the Government's 'Annual Report on Government Funded Economic Research in Wales 2006-2007', which I commend to all Assembly Members as a good document.

I also want to put this debate in context. The Welsh Assembly Government is not responsible for the credit crunch—I am not going to be advancing that sort of argument—but I do think that at least some of the people in Government, although perhaps less so the current Plaid Government members, share responsibility with Gordon Brown for spending freely in a boom and for now having to tighten up in a down-turn. We have simply not seen the level of reform needed, especially when it comes to the effectiveness of public spending. The Beecham agenda, which was a good report in itself, concedes that point.

Professor Brian Morgan put it recently that Wales has slipped behind the rest of the UK in several measures of economic performance. I think that that sums up the situation. Wales has not slipped behind in all measures—I am not going to argue that it has—but when so many indicators are going in the wrong direction and are not very positive, we have to take it that that evidence is firmly telling us something about our current policy position. The Welsh Assembly Government is responsible for economic development policy in general and there are certain levers under our control, and while we do not have the flexibility of controlling macroeconomic factors, there is still a lot that we can do. Therefore, I do not feel that we can take out a word like 'concern' and reduce it to 'contention'. I believe that the evidence is firm.

cyfrifoldebau i'r Llywodraeth ac i'r gwrthbleidiau. Yr wyf wedi ceisio pwyso a mesur y dystiolaeth yn rhesymol o ddiuedd. Ni chredaf y gallwn byth siarad heb fod yn bleidiol oherwydd, wedi'r cwbl, yr ydym yn greaduriaid gwleidyddol.

Fodd bynnag, dymunaf edrych yn rhesymol ar y dystiolaeth. Yr wyf wedi ceisio codi'r rhan fwyaf o'r hyn y byddaf yn ei ddweud y prynhawn yma o ddogfen y Llywodraeth 'Annual Report on Government Funded Economic Research in Wales 2006-2007', a chymeradwyaf hi i holl Aelodau'r Cynulliad fel un dda.

Yr wyf hefyd yn dymuno gosod y ddadl hon yn ei chyd-destun. Nid Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am y wasgfa gredyd—ni fyddaf yn cynnig dadl felly—ond credaf fod oleiaf rai o'r bobl sydd yn y Llywodraeth, ond aelodau Plaid y Llywodraeth i lai o raddau efallai, yn rhannu cyfrifoldeb â Gordon Brown am wario'n afradlon yn ystod cyfnod o dwf ac am orfod cwtogi ar adeg o ddirywiad. Nid ydym wedi gweld y lefel o ddiwygio yr oedd ei hangen, yn enwedig o ran effeithioldeb gwariant cyhoeddus. Mae agenda Beecham, a oedd yn adroddiad da ynddo'i hun, yn derbyn y pwynt hwnnw.

Awgrymodd yr Athro Brian Morgan yn ddiweddar fod Cymru wedi colli tir o'i chymharu â gweddill y DU dan nifer o fesuryddion perfformiad economaidd. Credaf fod hynny'n crynhoi'r sefyllfa. Nid yw Cymru wedi colli tir dan yr holl fesuryddion—ni fyddaf yn dadlau hynny—ond pan yw cynifer o ddangosyddion yn mynd i'r cyfeiriad anghywir a heb fod yn gadarnhaol iawn, rhaid inni dderbyn bod y dystiolaeth honno'n dweud rhywbeth pendant wrthym am ein safbwynt polisi presennol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am bolisi datblygu economaidd yn gyffredinol ac mae rhai liferi yn ein rheolaeth, ac er nad oes gennym yr hyblygrwydd o reoli ffactorau macroeconomaidd, mae llawer y gallwn ei wneud o hyd. Felly, ni theimlaf y gallwn dynnu gair fel 'concern' allan a'i leddfu drwy roi 'contention' yn ei le. Credaf fod y dystiolaeth yn gadarn.

I will turn to the evidence, beginning with the gross value added figures. I know that there has been a lot of debate about this and that the Government has felt more and more pressured in recent years when we have talked about GVA. It still quotes—rightly, I believe—from its annual report on economic research, which states that:

‘Gross Value Added (GVA) is typically used to measure economic prosperity... GVA per head is a measure that accounts for the relative population of a region and is a headline comparator for regional benchmarking.’

That is a perfectly fair statement and it is, of course, accurate. That is why the Welsh Assembly Government, in its early days, took GVA as the most important indicator of general economic performance. The original target that we would achieve 90 per cent of the UK’s average GVA by 2010 was an ambitious target, but it has now had to be turned into an aspiration. In fact, the bleak truth is that we are moving in the other direction, away from that target, and are seeing GVA being reduced.

Employment data gives the Government some better news—there is no doubt about that. Since 2003, with the odd blip, Wales has had a lower unemployment rate than the UK as a whole, and I consider that to be a notable achievement. The employment rate improved strongly between 2002 and 2004 but has since hit a plateau. However, again, I acknowledge that the performance here has been much more encouraging, although it is now relatively static compared with the earlier improvement that I have just described. To the Government’s credit, it has adopted a target of 80 per cent employment, which is more ambitious than the Lisbon agenda. Again, we give the Government credit for that, but it is only a vague aspiration. The reason that I cannot agree with amendment 4 is that there is no target date for achieving it. I could just about live with that, namely that it is so ambitious that you cannot realistically set a target at the moment for its completion, but we need milestones and measures so that we can at

Trof at y dystiolaeth, gan ddechrau gyda’r ffigurau am werth ychwanegol crynswth. Gwn fod llawer o ddadlau wedi bod am hyn a bod y Llywodraeth wedi teimlo ei bod fwyfwy dan bwysau yn y blynyddoedd diwethaf pan ydym wedi sôn am GYC. Mae’n dal i ddyfynnu—yn briodol, yn fy marn i—o’i hadroddiad blynyddol ar ymchwil economaidd, sy’n dweud bod:

Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn cael ei ddefnyddio fel rheol i fesur ffyniant economaidd... Mae GYC y pen yn fesurydd sy’n rhoi cyfrif am boblogaeth gymharol y rhanbarth ac mae’n brif gymharydd ar gyfer meincnodi rhanbarthol.

Mae hwnnw’n ddatganiad hollol deg, ac wrth gwrs mae’n gywir. Dyna pam y derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei dyddiau cynnar, GYC fel y dangosydd pwysicaf o berfformiad economaidd cyffredinol. Yr oedd y targed gwreiddiol, sef y byddem yn cyrraedd 90 y cant o GYC cyfartalog y DU erbyn 2010, yn un uchelgeisiol, ond bu’n rhaid ei droi’n ddyhead bellach. Y gwir plaen yw ein bod yn symud i’r cyfeiriad arall, oddi wrth y targed hwnnw, ac yr ydym yn gweld GYC yn gostwng.

Mae data am gyflogaeth yn rhoi ychydig newyddion gwell i’r Llywodraeth—nid oes dwywaith am hynny. Er 2003, heblaw ambell wyriad, mae cyfradd diweithdra Cymru wedi bod yn is nag ar gyfer y DU gyfan, ac ystyriaf fod hynny’n gryn gamp. Bu gwelliant mawr yn y gyfradd cyflogaeth rhwng 2002 a 2004, ond mae wedi sefyll yn ei hunfan ers hynny. Fodd bynnag, unwaith eto, derbyniaf fod y perfformiad yn hyn o beth wedi bod yn llawer mwy calonogol, er ei fod bellach yn gymharol sefydlog o’i gymharu â’r gwelliant cynharach yr wyf newydd ei ddisgrifio. Er clod i’r Llywodraeth, mae wedi mabwysiadu targed cyflogaeth o 80 y cant, sy’n fwy uchelgeisiol nag agenda Lisbon. Unwaith eto, canmolwn y Llywodraeth am hynny, ond nid yw ond yn ddyhead niwlog. Y rheswm na allaf gytuno â gwelliant 4 yw nad oes dyddiad targed ar gyfer ei gyrraedd. Gallwn ddygymod â hynny bron, sef ei fod mor uchelgeisiol fel na allwch bennu targed yn ymarferol ar hyn o bryd ar gyfer ei gyrraedd, ond mae arnom

least be assured that we are moving briskly in the right direction.

On productivity, the picture is much more worrying. It is probably the most worrying of the data that we have before us. The Government's research states that,

'labour productivity in Wales is lower and has been growing less rapidly than in the UK as a whole'.

I will give you the rates. GVA per hour worked, in 1996, was 94 per cent of the UK average. In 1999, it was 93 per cent of the UK average and, in 2005, it was 90 per cent.

I do not want to drown you in data, but the final indicator is that of disposable income. This also gives a better picture of the Government's performance, and it seems to have become Rhodri Morgan's data of choice, and I can understand why. If we look at gross disposable household income per person—and I apologise, because that is one heck of a mouthful—we see that, whereas gross value added is only 77 per cent of the UK average, gross disposable household income in that index is 96 per cent of the UK average when adjusted for prices. That obviously paints a far better picture, but it is not an indicator of general economic performance. It does not relate to the profitability of companies; it focuses on the incomes of individuals. That is not unimportant; it is very considerable in measuring economic wellbeing and in painting an accurate picture of people's situations. However, I have to remind the likes of the First Minister that, by choosing to use these gross disposable household income figures, they would also find very considerable achievement during the years when the Conservatives were in power. In fact, these indicators, in nominal terms, reveal better performance under the last Conservative Government of John Major. *[Interruption.]* You may mutter, but that is the hard evidence.

angen cerrig milltir a mesuryddion fel y gallwn o leiaf fod yn sicr ein bod yn symud yn gyflym i'r cyfeiriad iawn.

O ran cynhyrchiant, mae'r darlun yn achosi llawer mwy o bryder. Mae'n debyg mai'r data hyn sy'n achosi'r pryder mwyaf o'r rhai sydd o'n blaen. Yn ôl ymchwil y Llywodraeth,

mae cynhyrchiant llafur yng Nghymru yn is ac mae wedi tyfu'n llai cyflym nag yn y DU gyfan.

Dyma i chi y cyfraddau. Yn 1996 yr oedd y GYC am bob awr o waith yn 94 y cant o gyfartaledd y DU. Yn 1999 yr oedd yn 93 y cant o gyfartaledd y DU, ac yn 2005 yr oedd yn 90 y cant.

Nid wyf am eich boddi mewn data, ond y dangosydd olaf yw'r dangosydd incwm gwario. Mae hwn hefyd yn rhoi gwell darlun o berfformiad y Llywodraeth, ac mae'n ymddangos mai dyma ddewis ddata Rhodri Morgan mwyach, a gallaf ddeall pam. Os edrychwn ar incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen—ac ymddiheuraf ei fod i'w weld yn andros o lond ceg—fe welwn, er nad yw'r gwerth crynswth a ychwanegir yn ddim ond 77 y cant o gyfartaledd y DU, fod yr incwm aelwydydd crynswth i'w wario ar y mynegai hwnnw yn 96 y cant o gyfartaledd y DU ar ôl addasu ar gyfer prisiau. Mae hynny'n amlwg yn rhoi darlun llawer gwell, ond nid yw'n ddangosydd o berfformiad economaidd cyffredinol. Nid oes a wnelo â phroffidioldeb cwmnïau; mae'n canolbwyntio ar incwm unigolion. Nid nad yw hynny'n bwysig; mae'n sylweddol iawn wrth fesur lles economaidd a rhoi darlun cywir o sefyllfaoedd pobl. Fodd bynnag, rhaid imi atgoffa pobl fel y Prif Weinidog y byddent, drwy ddewis defnyddio'r ffigurau hyn o incwm aelwydydd crynswth i'w wario, hefyd yn gweld bod llawer iawn wedi ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd pan oedd y Ceidwadwyr mewn grym. Yn wir, mae'r dangosyddion hyn, mewn termau nominal, yn datgelu gwell perfformiad o dan y Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf dan arweiniad John Major. *[Torri ar draws.]* Gallwch siarad dan eich gwynt, ond dyna'r dystiolaeth foel.

Using an index that refers to prices and adjusting for prices makes sense when looking at housing in particular, because that is a major cost that varies enormously from region to region. However, we want to look at how people live their lives and how they respond to the real costs of living, and I am not convinced by the First Minister's performance yesterday, when he dismissed the problems that people face, of rising mortgage costs, rising utility bills and rising food prices, all of which are effectively pushing the rate of inflation on what people have left to spend after tax up to around 8 or 9 per cent. Having listened to the First Minister, you would have sworn that we were living in this wonderful world where everyone was enjoying wealth undreamed of and were not concerned about where to find the money to pay the next gas bill.

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Nick Bourne accused me yesterday of describing a Shangri-la in Wales and refusing to take account of the difficulties with the credit crunch, and high fuel and food prices, and now you have, too. Mike German, taking the contrary view, picked up on the other half of what I said—in other words, I was very balanced—and said that I referred to doom and gloom and pain and misery. You hit me for saying that I am describing a Shangri-la and he hits me for saying that I referred to pain, misery, doom and gloom—and I did refer to pain, but not to the others—but you cannot both be right. Can you sort this out between you? I tried to describe a balanced picture, but which of you is correctly describing my statement?

**David Melding:** It is something of a sixth-form debating ploy to measure my arguments and their veracity according to what a member of another party said. We have been consistent about this. Let us be truthful—part of the problem of your Government is that you are out of touch. That is what last year's election showed. Under your magnificent leadership, the Labour Party slumped to a 31 per cent share of the popular vote. It was hardly any better in the recent local elections

Mae defnyddio mynegai sy'n cyfeirio at brisiau ac yn addasu ar gyfer prisiau yn gwneud synnwyr wrth edrych ar dai yn arbennig, oherwydd mae hynny'n gost fawr sy'n amrywio'n enfawr o ranbarth i ranbarth. Fodd bynnag, yr ydym am edrych ar y ffordd y mae pobl yn byw eu bywyd a'r ffordd y maent yn ymateb i gostau byw gwirioneddol. Nid wyf wedi fy argyhoeddi gan berfformiad y Prif Weinidog ddoe, pan ddiystyrod y problemau sy'n wynebu pobl, problemau o ran cynnydd yn eu costau morgais, cynnydd yn eu biliau cyfleustodau a chynnydd ym mhrisiau bwyd. Mae'r rhain i gyd yn gwthio cyfradd chwyddiant yn yr hyn sydd gan bobl ar ôl i'w wario ar ôl treth i fyny i oddeutu 8 neu 9 y cant. Ar ôl gwranddo ar y Prif Weinidog, gallech dyngu ein bod yn byw mewn byd ardderchog lle mae pawb yn mwynhau cyfoeth y tu hwnt i ddychymyg heb orfod poeni ble i gael yr arian i dalu'r bil nwy nesaf.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Cyhuddodd Nick Bourne fi ddoe o ddisgrifio Shangri-la yng Nghymru a gwrthod ystyried yr anawsterau gyda'r wasgfa gredyd, a phrisiau uchel tanwydd a bwyd, ac yn awr yr ydych chi wedi gwneud hynny hefyd. Canolbwyntiodd Mike German, gan gymryd safbwynt hollol groes, ar hanner arall yr hyn a ddywedais—mewn geiriau eraill, yr oeddwn yn gytbwys iawn—a dywedodd fy mod yn cyfeirio at y gofid a'r gwae a'r boen a'r trallod. Yr ydych chi'n fy nharo am ddweud fy mod yn disgrifio Shangri-la ac mae ef yn fy nharo am ddweud imi gyfeirio at boen, trallod, gofid a gwae—cyfeiriais at boen, ond nid at y lleill—ond ni allwch eich dau fod yn iawn. A allwch chi gael trefn ar hyn rhyngoch? Ceisiais ddisgrifio darlun cytbwys, ond pa un ohonoch sy'n disgrifio fy natganiad yn gywir?

**David Melding:** Rhyw gast a ddefnyddir mewn dadleuon chweched dosbarth yw mesur fy nadleuon i a'u geirwiredd yn ôl yr hyn y mae aelod o blaid arall wedi'i ddweud. Yr ydym wedi bod yn gyson ar hyn. Gadewch inni fod yn onest—rhan o broblem eich Llywodraeth yw ei bod wedi colli cysylltiad. Dyna a ddangosodd yr etholiad y llynedd. O dan eich arweinyddiaeth wych, gostyngodd y Blaid Lafur i gyfran o 31 y cant o'r bleidlais boblogaidd. Prin iddi wneud yn

and, on a UK level, if current figures are to be believed, you are facing considerable problems.

In conclusion, what we need is vision. I wish I could expand on what we would do, were we in Government, but we do not have the time in this debate, unfortunately. However, it is our responsibility to outline what we will do to increase the size of the private sector, which is hugely important for our economic development, to improve the skills base, and to ensure better infrastructure and promote innovation.

2.20 p.m.

In the months and years ahead, we will outline to the people of Wales what they have missed by not having a Government that contained the Conservative Party, because we believe that the real challenges that lie ahead cannot be ducked. Rhodri Morgan and his Government cannot be held responsible for the credit crunch. That much is true. However, if they do not face up to the real challenges that are so obvious to everyone who has to earn a living, this Government will be found guilty of a credibility crunch, and that is the problem that it currently faces.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected four amendments to the motion.

**The First Minister (Rhodri Morgan):** I propose the following amendments in the name of Carwyn Jones. Amendment 1: replace 'with concern' with 'the contention'.

Amendment 3: add as a new point at the end of the motion:

*recognises that, in reality, during the 1997 to 2006 period Wales achieved an economic growth rate in excess of 2 per cent per annum in real terms, faster than under the previous nine-year period of Conservative government.*

Amendment 4: add as a new point at the end of the motion:

well yn yr etholiadau lleol yn ddiweddar, ac ar lefel y DU, os ydym i gredu'r ffigurau cyfredol, yr ydych yn wynebu problemau sylweddol.

I gloi, yr hyn y mae arnom ei angen yw gweledigaeth. Byddwn yn hoffi gallu ymhelaethu ar yr hyn y byddem ni'n ei wneud, petaem mewn Llywodraeth, ond nid ows gennym amser yn y ddadl hon, yn anffodus. Fodd bynnag, ein cyfrifoldeb ni yw amlinellu'r hyn a wnawn i gynyddu maint y sector preifat, sy'n eithriadol o bwysig i'n datblygiad economaidd, i wella ein sylfaen sgiliau, ac i sicrhau gwell seilwaith a hyrwyddo arloesi.

Yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, byddwn yn amlinellu i bobl Cymru yr hyn y maent wedi'i golli drwy beidio â chael Llywodraeth a oedd yn cynnwys y Blaid Geidwadol, oherwydd credwn nad oes modd osgoi'r heriau sy'n ein hwynebu. Ni ellir dal Rhodri Morgan a'i Lywodraeth yn gyfrifol am y wasgfa gredyd. Mae hynny'n wir. Fodd bynnag, oni wynebant yn awr yr heriau gwirioneddol sydd mor amlwg i bawb sy'n gorfod ennill bywoliaeth, bydd y Llywodraeth hon yn cael ei dyfarnu'n euog o wasgfa hygredd, a dyna'r broblem y mae'n ei hwynebu ar hyn o bryd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Carwyn Jones. Gwelliant 1: yn lle 'nodi gyda phryder' rhoi 'nodi'r honiad'.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn cydnabod bod Cymru, mewn gwirionedd, yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2006 wedi cyflawni cyfradd twf economaidd sy'n fwy na 2 y cant y flwyddyn mewn termau real, sy'n gyflymach na'r hyn a gyflawnwyd o dan gyfnod naw mlynedd blaenorol llywodraeth Geidwadol.*

Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:



*congratulates the firm action by the Assembly Government under the 'One Wales' agreement to reach 80 per cent economic activity level and to ensure a success of convergence funding.*

**Kirsty Williams:** I propose amendment 2 in my name. Add as a new point at the end of the motion:

*notes that a good and diverse skill base is the key to raising economic growth, therefore regrets the massive underfunding of education for all ages across Wales.*

In recent months, the Conservatives have tabled a number of motions on the economy, which we welcome. On each occasion, we have tried to add something constructive to the debate, to highlight the ways in which the Welsh Liberal Democrats believe we can go forward, developing the Welsh economy. Last time, we chose the issue of broadband, and today, my colleague, Michael German, will talk about the broader economic picture, and I will focus on the issue mentioned in my amendment, namely the role that education policy has to play in driving the Welsh economy forward.

Unfortunately, the relationship between economic development and education and skills is not a virtuous circle. The fact is that your level of skills or educational attainment is a strong indicator of your likely level of participation in the economy, as well as your productivity level. Conversely, the most influential factor on a child's education, along with the presence of any special education needs, is the parents' income. Therefore, if you come from a household with a low income, the likelihood is that your ability to achieve higher level qualifications will be compromised.

That is not a virtuous circle, and if we are to improve our levels of economic participation as a country and address the worrying figures that David Melding highlighted on productivity, in which we are very far behind, we must do something about raising our game in the field of education. We must have

*yn llongyfarch y gweithredu pendant gan Lywodraeth y Cynulliad o dan gytundeb 'Cymru'n Un' i gyrraedd lefel gweithgarwch economaidd o 80 y cant a sicrhau llwyddiant o gyllid cydgyfeirio.*

**Kirsty Williams:** Cynigiau welliant 2 yn fy enw i. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn nodi bod sylfaen sgiliau dda ac amrywiol yn allweddol er mwyn codi twf economaidd, felly'n gresynu wrth y tangyllido enfawr yng nghyswllt addysg ar gyfer pob oed ledled Cymru.*

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Ceidwadwyr wedi cyflwyno nifer o gynigion ar yr economi, ac yr ydym yn eu croesawu. Bob tro, yr ydym wedi ceisio ychwanegu rhywbeth adeiladol at y ddadl, i dynnu sylw at y ffyrdd y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y gallwn symud ymlaen, a datblygu economi Cymru. Y tro diwethaf, dewiswyd mater band eang, a heddiw bydd fy nghyd-Aelod, Michael German, yn siarad am y darlun economaidd ehangach, a byddaf finnau'n canolbwyntio ar y mater a grybwyllir yn fy ngwelliant, sef rôl polisi addysg wrth yrru economi Cymru ymlaen.

Yn anffodus, nid yw'r berthynas rhwng datblygu economaidd ac addysg a sgiliau yn gylch rhinweddol. Y gwir yw bod eich lefel sgiliau neu gyrhaeddiad addysgol yn ddangosydd cryf o'ch lefel debygol o gyfranogiad yn yr economi, yn ogystal â'ch lefel cynhyrchiant. I'r gwrthwyneb, y ffactor mwyaf dylanwadol ar addysg plentyn, ynghyd â phresenoldeb unrhyw anghenion addysgol arbennig, yw incwm y rhieni. Felly, os ydych yn dod o deulu sydd ar incwm isel, y tebygolrwydd yw y bydd eich gallu i ennill cymwysterau lefel uwch yn cael ei danseilio.

Nid yw hynny'n gylch rhinweddol, ac os ydym i wella ein lefelau cyfranogiad economaidd fel gwlad a mynd i'r afael â'r ffigurau cynhyrchiant tila y tynnodd David Melding sylw atynt, lle yr ydym ymhell iawn ar ei hôl hi, rhaid inni wneud rhywbeth i wella'n perfformiad ym maes addysg. Rhaid

more of our children staying in school or in training for longer, achieving those higher levels of skills and taking them into the workplace. However, in reality, many aspects of the education and skills policy of this One Wales Government are in a mess.

Frontloading investment into early years education is the key. It is that investment in the 3, 4 and 5-year-olds of today that will reap rewards in years to come. Investment at that stage of their lives makes it much more likely that children will stay on in school and move on to higher education. However, we are only too aware of the huge problems that the Government has run into with what should have been a good-news story for Wales and for the youngest children in Wales. The foundation phase is in a mess, and I know what the First Minister will say when he gets up and replies to this debate: he will rehearse the argument that it is someone else's fault, not the Government's, and that it is those nasty, horrible people in local government—councils of all political persuasions—who did not send him the necessary data.

The people in positions of power, including the Ministers, who saw these events unfolding, should have got up, got out there, and got the information that they needed, rather than complain at a later stage that it did not come their way, allowing the collective wringing of hands at Cathays park. The reality is that what should have been a good-news story for this Government and for our country has been dragged into disrepute because of how it has been handled.

Moving on to older students, a crisis is facing many elements of our further education sector. The reality is that, whatever the Minister says, the settlement for the FE sector this year has been terrible. It is only a 1.5 per cent increase on last year, which is well below inflation. We are now faced with the prospect of colleges sacking tutors. I know that the Deputy First Minister has confirmed again today that he does not do skills—and, oh boy, does he demonstrate that in many ways—but that is a shocking indictment of the policy if the Deputy First Minister is

inni gael mwy o'n plant i aros yn yr ysgol neu mewn hyfforddiant yn hwy, i gyrraedd y lefelau sgiliau uwch hynny ac i fynd â hwy i'r gweithle. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae llawer agwedd ar bolisi addysg a sgiliau Llywodraeth Cymru'n Un mewn annibendod.

Darparu buddsoddiad yn llinell flaen addysg y blynyddoedd cynnar yw'r allwedd. Y buddsoddiad hwnnw ym mhlant 3, 4 a 5 oed heddiw fydd yn dwyn ffrwyth yn y blynyddoedd i ddod. Mae buddsoddi yn y cyfnod hwnnw o'u bywydau yn ei gwneud lawer yn fwy tebygol y bydd plant yn aros yn yr ysgol ac yn symud i addysg uwch. Fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol iawn o'r problemau enfawr y mae'r Llywodraeth wedi eu hwynebu gyda'r hyn a ddylasai fod yn stori newyddion-da i Gymru ac i'r plant ieuengaf yng Nghymru. Mae'r cyfnod sylfaen mewn anhrefn, a gwn beth y bydd y Prif Weinidog yn ei ddweud pan fydd yn codi ac yn ymateb i'r ddadl hon: bydd yn ailadrodd y ddadl mai bai rhywun arall yw hynny, nid bai'r Llywodraeth, a'r bobl gas, ofnadwy hynny mewn llywodraeth leol—cynghorau o bob argyhoeddiad gwleidyddol—am fethu ag anfon y data angenrheidiol ato.

Dylai'r bobl sydd mewn swyddi grymus, gan gynnwys y Gweinidogion, ac a welodd y digwyddiadau hyn yn datblygu, fod wedi codi ar eu traed, mynd allan yna, a chael y wybodaeth yr oedd arnynt ei hangen, yn hytrach na chwyno'n ddiweddarach na chawsant y data, gan ganiatáu gwasgu dwylo torfol ym mharc Cathays. Y realiti yw bod anfri wedi cael ei ddwyn ar yr hyn a ddylai fod yn stori newyddion-da i'r Llywodraeth hon ac i'n gwlad, oherwydd y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater.

I symud ymlaen at fyfyrwyr hŷn, mae argyfwng yn wynebu llawer elfenu yn ein sector addysg bellach. Y realiti, beth bynnag a ddywed y Gweinidog, yw fod y setliad i'r sector AB eleni wedi bod yn ofnadwy. Mae'n gynydd o ddim ond 1.5 y cant ers y llynedd, sydd lawer yn llai na chwyddiant. Yr ydym bellach yn wynebu'r posibilrwydd y bydd colegau'n diswyddo tiwtoriaid. Gwn fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cadarnhau eto heddiw nad yw ef yn ymhél â sgiliau—ac, ar f'enaid, onid yw'n dangos hynny mewn cynifer o ffyrdd—ond mae hynny'n

unwilling to defend the skills policy that John Griffiths is currently implementing. I have raised in the Chamber a host of times why this Government will not recognise level 3 as the benchmark, and what we should be aiming for.

To conclude, the higher education sector is in as equally bad shape as the further education sector. We have seen in the Enterprise and Learning Committee that the ability of our universities to continue to compete at the highest level is being undermined by the funding gap.

**Mark Isherwood:** After 15 years of economic growth, there should be plenty of money left in the coffers to prop up the economy during the harder times. However, the UK has the largest structural budget deficit in Europe, because Gordon Brown borrowed in a boom, when he should have saved, and then spent all of the money inflating an unsustainable boom. The European Commission is now to start disciplinary proceedings against the UK for breaching its economic rules. That is a formal warning to cut borrowing, to cut spending, or both.

The heavy public spending increases of this decade increased Welsh dependence on English taxpayers, and the challenges now facing the Welsh economy will intensify. A series of economic indicators released at the end of 2007 reveal a Welsh economy in a weak state. Research and development spending has decreased, and Wales has the lowest average full-time earnings in the United Kingdom and the gap is growing. A total of 506,000 working-aged people in Wales are not in work, and only 77,000 of them are officially unemployed.

When New Labour took over in 1997, prosperity in Wales stood at 81 per cent of the UK average. The Assembly Government set a target of 85 per cent by 2005. However, after a decade of hard Labour, Welsh prosperity has fallen to a mere 77 per cent, behind every nation and region in the United

feirniadaeth ysgytiol ar y polisi os yw'r Dirprwy Brif Weinidog yn amharod i amddiffyn y polisi sgiliau y mae John Griffiths yn ei roi ar waith ar hyn o bryd. Yr wyf wedi codi'r gwestiwn yn y Siambr hon lu o weithiau pam na wnaiff y Llywodraeth hon gydnabod lefel 3 fel y meincnod, a'r hyn y dylem fod yn anelu ato.

I gloi, mae'r sector addysg uwch mewn sefyllfa lawn cynddrwg â'r sector addysg bellach. Yr ydym wedi gweld yn y Pwyllgor Menter a Dysgu fod gallu ein prifysgolion i barhau i gystadlu ar y lefel uchaf yn cael ei danseilio gan y bwlch cyllido.

**Mark Isherwood:** Ar ôl 15 mlynedd o dwf economaidd, dylai fod digon o arian ar ôl yn y coffrau i gynnal yr economi mewn cyfnodau o galedi. Fodd bynnag, y DU sydd â'r diffyg strwythurol mwyaf yn ei chyllideb yn Ewrop, oherwydd i Gordon Brown fenthyca mewn cyfnod o ffyniant, pan ddylai fod wedi cynilo, ac yna wario'r arian i gyd i chwyddo ffyniant anghynaliadwy. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn dechrau camau disgyblu yn erbyn y DU yn awr am iddi dorri ei reolau economaidd. Mae hynny'n rhybudd ffurfiol i gwtogi benthyca, i gwtogi gwariant, neu'r naill a'r llall.

Mae'r codiadau mawr mewn gwariant cyhoeddus yn y degawd hwn wedi cynyddu dibyniaeth Cymru ar drethdalwyr Lloegr, a bydd yr heriau sy'n wynebu economi Cymru yn awr yn dwysau. Mae cyfres o ddangosyddion economaidd a ryddhawyd ddiwedd 2007 yn dangos bod economi Cymru mewn cyflwr gwan. Mae gwariant ar ymchwil a datblygu wedi gostwng, a Chymru sydd â'r enillion amser llawn isaf ar gyfartaledd yn y Deyrnas Unedig ac mae'r bwlch yn tyfu. Mae cyfanswm o 506,000 o bobl oed gweithio yng Nghymru nad ydynt mewn gwaith, a 77,000 yn unig o'r rheini sy'n ddi-waith yn swyddogol.

Pan gymerodd Llafur Newydd yr awenau yn 1997, yr oedd ffyniant yng Nghymru yn 81 y cant o gyfartaledd y DU. Gosododd Llywodraeth y Cynulliad darged o 85 y cant erbyn 2005. Fodd bynnag, ar ôl degawd o Lafur caled, mae ffyniant Cymru wedi gostwng i ddim ond 77 y cant, y tu ôl i bob

Kingdom. The Confederation of British Industry shows that faster growing regions have all taken strong steps to involve the private sector. With 60 per cent of its economy in the public sector, Wales is particularly vulnerable as those cuts start to bite. The CBI says that public spending in Wales has not been directed at GDP-enhancing investment to the extent that it could and should have been.

The Welsh Assembly Government must make room for the private and voluntary sectors to contribute to the economic growth of Wales. For example, over the past year, the tourism spend in Wales fell by almost 9 per cent, compared with a 4 per cent increase across the UK. As the sector says, tourism in Wales should be promoted by industry professionals, not civil servants.

New ideas and a greater focus on creating infrastructure, entrepreneurship and innovation are badly needed. The Government must listen more to business, tell people what to do less, trust more and dictate less, and the private and voluntary sectors must fight back. Policy makers must realise that only the private and voluntary sectors can make a real and lasting contribution to our economy, and that the role of an effective Government is to facilitate that. The application of competitive neutrality should be applied—a fair and level playing field for public, private and voluntary sectors—so that front-line public service providers are commissioned not on the basis of their status, but their quality, performance and track record. The time has come for the Assembly Government to stop burying its head in the sand and to acknowledge, finally, that the Welsh economy is in trouble and needs a radical pro-business overhaul.

Last week, the First Minister accused me of cherry-picking when I stated that we have seen a growing number of job losses announced in north-east Wales, from Redrow, Flexsys and JCB Transmissions to Brookfield Foods Ltd. I do not know what planet he is living on, but, where I live, these

gwlad a rhanbarth yn y Deyrnas Unedig. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn dangos bod y rhanbarthau sy'n tyfu'n gyflymach i gyd wedi cymryd camau cryf i gynnwys y sector preifat. Gyda 60 y cant o'i heconomi yn y sector cyhoeddus, mae Cymru yn neilltuol o fregus wrth i'r toriadau hynny ddechrau brathu. Dywed y CBI nad yw gwariant cyhoeddus yng Nghymru wedi cael ei dargedu at fuddsoddi sy'n cynyddu'r cynnyrch mewnwladol crynswth i'r graddau y gellid ac y dylid bod wedi gwneud hynny.

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud lle i'r sectorau preifat a gwirfoddol i gyfrannu at dwf economaidd Cymru. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn diwethaf disgynnodd gwariant twristiaeth yng Nghymru bron 9 y cant, o'i gymharu â chynnydd o 4 y cant ar draws y DU. Fel y dywed y sector, dylai twristiaeth yng Nghymru gael ei hyrwyddo gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant, nid gweision sifil.

Mae dirfawr angen syniadau newydd a mwy o ffocws ar greu seilwaith, entrepreneuriaeth ac arloesi. Rhaid i'r Llywodraeth wrando mwy ar fusnesau, dweud llai wrth bobl beth i'w wneud, ymddiried mwy a gorchymyn llai, a rhaid i'r sectorau preifat a gwirfoddol ymladd yn ôl. Rhaid i lunwyr polisi sylweddoli mai'r sectorau preifat a gwirfoddol yn unig a all wneud cyfraniad gwirioneddol a pharhaol i'n heconomi, ac mai rôl Llywodraeth effeithiol yw hwyluso hynny. Dylid rhoi niwtraliaeth gystadleuol ar waith—cae chwarae teg a gwastad i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol—er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen gael eu comisiynu nid ar sail eu statws, ond oherwydd eu safon, eu perfformiad a'u hanes cyflawni. Daeth yn amser i'r Lywodraeth y Cynulliad roi'r gorau i gladdu ei phen yn y tywod a chydabod, o'r diwedd, fod economi Cymru mewn trafferth a bod angen ailwampio radical o blaid busnes.

Yr wythnos diwethaf, cyhuddodd y Prif Weinidog fi o ddethol a didol pan ddywedais ein bod wedi gweld cyhoeddi colli nifer cynyddol o swyddi yng ngogledd-ddwyrain Cymru, o Redrow, Flexsys a JCB Transmissions i Brookfield Foods Ltd. Ni wn ar ba blaned y mae ef yn byw, ond lle'r wyf

are weekly front-page headlines. He quashed these job losses by stating that Deeside was the economic powerhouse of the Welsh economy, which it is and has been. However, that is despite the fact that Wrexham and Flintshire have seen their prosperity decline from 102 per cent of the UK level in 1999 to just 85 per cent, in 2005. As we heard only last week from the Institute of Chartered Accountants, business confidence has collapsed, and businesses in Wales are among the least confident in the United Kingdom.

**Irene James:** How do you explain that the two worst recessions that we have seen in this country came under a Conservative Government?

**Mark Isherwood:** The first reason is because we inherited economic and social meltdown—[*Laughter.*] You must be young if you cannot remember it, because I remember my father losing his job long before Labour lost power. Secondly, there was the mistaken membership of the exchange rate mechanism, which your party also voted for. What is it about the truth that you do not understand?

2.30 p.m.

**Irene James** *rose*—

**Mark Isherwood:** Sit down.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. If anyone tells people to sit down, Mark, it will be me. That was not appropriate behaviour. You have 30 seconds left.

**Mark Isherwood:** For the Assembly Government to wrap up cynical policies, devised to bury bad headlines, in the language of success is contemptuous. Clearly, manufacturing exports will benefit from a weaker pound. However, as the manufacturers' organisation, EEF, said last month,

'Our members in north Wales are increasingly concerned at the slowdown in the UK economy'.

fi'n byw, mae'r rhain yn benawdau tudalen flaen yn wythnosol. Gwnaeth yn fach o'r colledion swyddi hyn drwy ddweud mai Glannau Dyfrdwy yw pwerdy economaidd economi Cymru, ac mae hynny'n wir ac wedi bod yn wir. Fodd bynnag, mae hynny er gwaethaf y ffaith fod Wrecsam a sir y Fflint wedi gweld eu ffyniant yn gostwng o 102 y cant o lefel y DU yn 1999 i ddim ond 85 y cant yn 2005. Fel y clywsom yr wythnos diwethaf gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig, mae hyder busnesau ar chwâl, ac mae busnesau yng Nghymru ymysg y lleiaf hyderus yn y Deyrnas Unedig.

**Irene James:** Sut ydych chi'n egluro mai dan Lywodraeth Geidwadol y bu'r ddau ddirwasgiad gwaethaf yr ydym wedi'u gweld yn y wlad hon?

**Mark Isherwood:** Y rheswm cyntaf yw oherwydd inni etifeddu chwalfa economaidd a chymdeithasol—[*Chwerthin.*] Mae'n rhaid eich bod yn ifanc os na allwch ei gofio, oherwydd yr wyf fi'n cofio fy nhad yn colli'i swydd ymhell cyn i Lafur golli grym. Yn ail, cafwyd yr aelodaeth gyfeiliornus o beirianwaith y gyfradd gyfnewid, y pleidleisiodd eich plaid chi drosti hefyd. Beth sydd o'i le ynglŷn â'r gwirionedd na allwch ei ddeall?

**Irene James** *a gododd*—

**Mark Isherwood:** Eisteddwch.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Os oes rhywun yn dweud wrth bobl am eistedd, Mark, fi fydd honno. Nid oedd hwnnw'n ymddygiad priodol. Mae gennych 30 eiliad ar ôl.

**Mark Isherwood:** Mae'n fater dirmygus fod Llywodraeth y Cynulliad yn gorchuddio polisïau sinigaidd a fwriadwyd i gladdu penawdau gwael drwy sôn am lwyddiant. Yn amlwg, bydd allforion gweithgynhyrchu'n elwa o bunt wannach. Er hynny, fel y dywedodd sefydliad y gweithgynhyrchwyr, EEF, fis diwethaf,

Mae ein haelodau yng ngogledd Cymru yn pryderu'n gynyddol ynghylch yr arafu yn economi'r DU.

As I heard in a meeting with a high-tech business in north Wales this week, proper business plans understand all the drivers, and act to minimise risk, but the Welsh Assembly Government has no proper plan or policy. As the director general of the Confederation of British Industry said—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You have run out of time, Mark.

**Lesley Griffiths:** I reiterate a point that has been raised on previous occasions when motions have been tabled to debate Welsh economic matters in recent months. It relates to the narrow use of GVA per head indicators being the only measure used by the opposition in its motion today. Not only does this not give a true economic perspective of the position in Wales at any given moment, but by only using GVA per head, it rules out other important economic factors and indicators, which give a more realistic and true assessment of the Welsh economy at present.

It is clear that global economic challenges are facing all major world economies at present—even India and China are facing problems with oil prices and commodity shortages in certain areas. You only have to look at the picture in the foreign media to understand that most nations are facing problems. Go online and look at other European countries and the problems faced—

**David Melding** *rose*—

**Lesley Griffiths:** I will carry on, David. Having seen the problems faced elsewhere on this continent, you will quickly realise that the UK and Welsh economies do not look so bad.

Having said that, there are job losses taking place in certain sectors in Wales. However, compared with other parts of the UK, Wales is delivering a mixed economic message. For example, Barclays Commercial Bank recently revealed some encouraging research, which found that 80 per cent of businesses in Wales are prepared to expand into new

Fel y clywais mewn cyfarfod gyda busnes uwch-dechnoleg yn y gogledd yr wythnos hon, mae cynlluniau busnes priodol yn deall pob sbardun, ac yn gweithredu i leihau'r risg, ond nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na pholisi na chynllun priodol. Fel y dywedodd cyfarwyddwr cyffredinol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'ch amser wedi dod i ben, Mark.

**Lesley Griffiths:** Ailadroddaf bwynt a godwyd gynt pan gyflwynwyd cynigion i drafod materion economaidd Cymru yn y misoedd diwethaf. Mae'n ymwneud â defnyddio dangosyddion GYC y pen yn gyfyng fel yr unig fesur a ddefnyddir gan yr wrthblaid yn ei chynnig heddiw. Nid yw hyn yn rhoi gwir bersbectif economaidd ar y sefyllfa yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol, a thrwy ddefnyddio GYC y pen yn unig mae hefyd yn diystyru dangosyddion a ffactorau economaidd pwysig eraill, sy'n rhoi asesiad mwy realistig a gwir o economi Cymru ar hyn o bryd.

Mae'n glir fod heriau economaidd byd-eang yn wynebu holl brif economïau'r byd ar hyn o bryd—mae hyd yn oed India a Tsieina yn wynebu problemau gyda phrisiau olew a phrinder nwyddau mewn ardaloedd penodol. Nid oes ond angen ichi edrych ar y darlun yn y cyfryngau tramor i ddeall bod y rhan fwyaf o wledydd yn wynebu problemau. Ewch arlein ac edrychwch ar wledydd eraill Ewrop a'r problemau a wynebir—

**David Melding** *a gododd*—

**Lesley Griffiths:** Yr wyf am barhau, David. Ar ôl gweld y problemau sy'n wynebu manau eraill ar y cyfandir, sylweddolwch yn fuan nad yw economi Cymru nac economi'r DU yn edrych cynddrwg.

Wedi dweud hynny, mae swyddi'n cael eu colli mewn sectorau penodol yng Nghymru. Er hynny, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, mae Cymru'n cyflwyno neges economaidd gymysg. Er enghraifft, datgelodd Banc Masnachol Barclays ymchwil calonogol iawn yn ddiweddar, ymchwil a dddarganfu fod 80 y cant o fusnesau yng Nghymru yn

international markets. It also revealed that Welsh businesses have a strong understanding of major global emerging markets, such as Brazil, India, China—the so-called BRIC nations—and South Africa. Barclays reported that up to 89 per cent of its respondents believed that they were well prepared to manage the challenges that these countries will place on their businesses.

In addition, the employment outlook survey from Manpower—a quarterly study of hiring trends, which was published this week—found that Welsh companies were more upbeat about recruiting new staff this summer than those in the rest of the UK. In a poll of over 2,000 employers, Manpower found that many employers in Wales expect to grow their headcount over the next three months. There was also a recent report by the corporate services company, Jordans, which revealed that over 12,000 new companies were formed in Wales over the past year—a 5 per cent increase on the previous year. The latest CBI Welsh industrial trends survey was published recently, which showed that Welsh manufacturers are bucking the trend elsewhere in the UK and are showing positive growth in orders and output, combined with healthy export prospects predicted for the next quarter.

**Alun Davies:** Do you agree that one of the most important indicators of the economic vitality of any country is the number of VAT-registered businesses? Since 1997, we have seen annual rises in the number of VAT-registered businesses in Wales, as well as far higher rates of business survival. That means that the underlying economy in Wales is vibrant and is growing annually.

**Lesley Griffiths:** I agree with you entirely, Alun.

I am not pretending that the UK and Welsh economies are somehow insulated from current global economic pressures. However, given that there are global economic challenges on most nations, it is incumbent

barod i ehangu i farchnadoedd rhyngwladol newydd. Datgelodd hefyd fod gan fusnesau Cymru ddealltwriaeth gadarn o egin-farchnadoedd byd-eang blaenllaw, megis Brasil, India, Tsieina—y gwledydd BRIC honedig—a De Affrica. Dywedodd Barclays fod hyd at 89 y cant o'i ymatebwyr yn credu eu bod yn gwbl barod i reoli'r heriau a achosir gan y gwledydd hyn i'w busnesau.

Yn ogystal, darganfu'r arolwg i ragolygon cyflogaeth gan Manpower—astudiaeth chwarterol o dueddiadau cyflogi a gyhoeddwyd yr wythnos hon—fod cwmnïau Cymru'n fwy gobeithiol am recriwtio staff newydd yr haf hwn na gweddill y DU. Mewn arolwg o fwy na 2,000 o gyflogwyr, darganfu Manpower fod nifer o gyflogwyr yng Nghymru yn disgwyl cynyddu nifer eu gweithwyr dros y tri mis nesaf. Cafwyd hefyd adroddiad yn ddiweddar gan y cwmni gwasanaethau corfforaethol Jordans, a ddadlennodd fod dros 12,000 o gwmnïau newydd wedi eu sefydlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf—cynnydd o 5 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddwyd arolwg diweddaraf Cydffederasiwn Diwydiant Prydain o dueddiadau diwydiannol Cymru yn ddiweddar, a dangosai fod gweithgynhyrchwyr Cymru'n gwrthod y tueddiad yn rhannau eraill y DU ac yn dangos twf cadarnhaol mewn archebion, ynghyd â rhagolygon allforio iach ar gyfer y chwarter nesaf.

**Alun Davies:** A gytunwch mai un o'r dangosyddion pwysicaf o fywiogrwydd economaidd mewn unrhyw wlad yw nifer y busnesau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW? Er 1997? Gwelsom gynnydd blynyddol yn nifer y busnesau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW yng Nghymru, yn ogystal â chyfraddau llawer uwch o fusnesau'n parhau. Mae hynny'n golygu bod yr economi sylfaenol yng Nghymru yn ffynnu ac yn tyfu bob blwyddyn.

**Lesley Griffiths:** Cytunaf yn llwyr â chi, Alun.

Nid wyf yn cymryd arnaf fod economi Cymru ac economi'r DU yn cael eu hinsiwleiddio rhag y pwysau economaidd byd-eang presennol. Er hynny, a chofio bod y rhan fwyaf o wledydd yn wynebu heriau

on governments, including the Welsh Assembly Government, to adopt new economic strategies and new economic approaches to lessen the impact of what is happening globally, and to ride out the storm. The First Minister emphasised this clearly during questions to him yesterday, when he talked about the rebalancing of the Welsh economy that appears to be currently taking place, the shift in economic tectonic plates back towards manufacturing and away from finance and retail. In any event, we must make no mistake about the outcome as far as Wales is concerned. The Welsh economy, the Welsh people and Welsh communities are probably the best prepared and best equipped to understand how to deal with global economic changes. If a rebalancing of our economy is taking place, let us not forget how we dealt with this kind of rebalancing previously in the coal industry, in the steel industries and in the slate industry.

Finally, I say to the Welsh Conservatives that talking down the Welsh economy is a dangerous tactic, not just economically for the people of Wales, but also politically for your party. Toy with this tactic as you will, but if you want any reminder of how your party still lacks credibility on economic matters, reflect on the reaction to Margaret Thatcher's appearance in this building over recent weeks. Wales resists lectures on the economy from the Tories to this very day.

**Angela Burns:** I will give you two facts: we are in tough times and we are not well prepared for them, either UK-wide or Wales-wide. This has nothing to do with talking down the Welsh economy; this is about trying to be realistic so that we can all move forward in a positive way, which does not often happen here. Tower today said that a number of middle-ranking banks have serious financial problems, and if that economic report is right, we are in for exceptionally choppy waters ahead. That will have a terrible spin-off for Wales. We have the lowest economic growth rate in the UK, GDP in west Wales and the Valleys is on a par with the Czech Republic, and our

economaidd byd-eang, mae'n rheidrwydd ar lywodraethau, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, i fabwysiadu strategaethau economaidd newydd a dulliau gweithredu economaidd newydd er mwyn lleihau effaith yr hyn sy'n digwydd ledled y byd, a dod drwy'r storm. Pwysleisiodd y Prif Weinidog hyn yn glir yn ystod ei gwestiynau ddoe, pan siaradodd am yr ail-gydbwysu sydd i'w weld yn digwydd yn economi Cymru ar hyn o bryd, y symudiad yn y platiau saerïol economaidd yn ôl at weithgynhyrchu ac oddi wrth gyllid a manwerthu. Beth bynnag a ddaw, rhaid inni beidio â gwneud dim camgymeriad ynghylch y canlyniad o safbwynt Cymru. Mae'n debygol mai economi Cymru, pobl Cymru a chymunedau Cymru sydd fwyaf parod a mwyaf cymwys i ddeall sut i ddelio â newidiadau economaidd byd-eang. Os oes ail-gydbwysu'n digwydd yn ein heconomi, gadewch inni beidio ag anghofio sut y deliwyd â'r math hwn o ail-gydbwysu o'r blaen yn y diwydiant glo, yn y diwydiannau dur ac yn y diwydiant llechi.

Yn olaf, dywedaf wrth y Ceidwadwyr Cymreig fod bychanu economi Cymru yn dacteg beryglus, nid yn unig yn economaidd i bobl Cymru, ond hefyd yn wleidyddol i'ch plaid. Chwaraewch fel y mynnwch â'r dacteg hon, ond os oes arnoch eisiau unrhyw beth i'ch atgoffa bod gan eich plaid ddiffyg hygredd o hyd o safbwynt materion economaidd, myfyriwch ar yr ymateb i ymddangosiad Margaret Thatcher yn yr adeilad hwn dros yr wythnosau diwethaf. Mae Cymru'n gwrthod darlithoedd ar yr economi gan y Torïaid hyd heddiw.

**Angela Burns:** Rhoddaf ichi ddwy ffaith: yr ydym yn mynd drwy adeg anodd ac nid ydym wedi paratoi'n dda amdani, nac yng Nghymru-gyfan nac yn y DU-gyfan. Nid oes gan hyn ddim i'w wneud â bychanu economi Cymru; mae hyn yn ymwneud â cheisio bod yn realistig fel y gallwn symud ymlaen mewn modd cadarnhaol, rhywbeth nad yw'n digwydd yn aml yma. Dywedodd Tower heddiw fod gan nifer o fanciau mewn safle canolig broblemau ariannol dybryd, ac os yw'r adroddiad economaidd hwnnw'n iawn, mae dyfroedd dyfnion eithriadol o'n blaenau. Bydd hynny'n cael sgil-effaith ddychrynlyd ar Gymru. Gennym ni y mae'r gyfradd twf economaidd isaf yn y DU, mae CMC yn y



unemployment figures are not always true, because a lot of people who are unemployed are on incapacity benefit rather than jobseekers allowance. We are overdependent on the public sector: 29.5 per cent of people in Wales work for the public sector. We have created a fair few jobs, but an awful lot of those jobs are low paid and they are in low-paid industries. It is good for the people involved, because they have a job, but it does not add much value to the economy as a whole, which is what we need to do.

There are some things that we need to for the long term, but there are things that we can do in the short term—now—to help with the current economic situation. In the long term, we need to educate ourselves and our people. One of the key things that came out of the Celtic conference that was held last week was that the Irish tiger, that great thing that made that country really grow, came about because they improved the skills base of their people. I was horrified when the Minister for the Economy and Transport this afternoon said that skills were not up to him. I thought that that was highly irresponsible. Everyone recognises that if we scale up our workers, our schoolchildren and our school leavers, we will have a better chance of improving our economy. We need to ensure, in the short and long terms, that vocational courses in our further education and higher education institutions are relevant to business needs and are not airy fairy or just about giving someone a course, but are tied into something that they can do.

We need to improve our road network; if we do that, we will improve our job opportunities. We also need to tackle long-term economic inactivity by getting people off the sick and into decent job opportunities. We need to attract more highly skilled jobs into Wales by having a more highly skilled workforce. There are companies that need highly skilled jobs done—highly skilled manufacturing jobs and highly skilled technological jobs—but they will not come to Wales if the workforce is not there. We have often spoken about that here.

gorllewin a'r Cymoedd ar yr un lefel â Gweriniaeth Tsiec, ac nid yw ein ffigurau diweithdra bob amser yn wir, oherwydd bod llawer o bobl sy'n ddi-waith yn cael budd-dal analluogrwydd yn hytrach na lwfans ceisio gwaith: mae 29.5 y cant o bobl Cymru yn gweithio i'r sector cyhoeddus. Yr ydym wedi creu nifer dda o swyddi, ond mae llawer iawn o'r swyddi hynny'n cael cyflogau isel ac mewn diwydiannau lle mae cyflogau isel. Mae'n dda i'r bobl dan sylw, oherwydd mae ganddynt swydd, ond nid yw'n ychwanegu llawer o werth i'r economi fel cyfangorff, sef yr hyn y mae angen inni ei wneud.

Mae rhai pethau y mae angen inni eu gwneud ar gyfer y tymor hir, ond mae yna bethau y gallwn eu gwneud yn y tymor byr—yn awr—i helpu gyda'r sefyllfa economaidd bresennol. Yn y tymor hir, mae angen inni addysgu ein hunain a'n pobl. Un o'r pethau allweddol a ddaeth allan o'r gynhadledd Geltaidd a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf oedd bod y teigr Gwyddelig, y peth mawr hwnnw a wnaeth i'r wlad honno dyfu'n wirioneddol, wedi dod i fodolaeth oherwydd iddynt wella sylfaen sgiliau eu pobl. Cefais fy mrawychu'r prynhawn yma pan ddywedodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth nad mater iddo ef oedd sgiliau. Credwn fod hynny'n gwbl anghyfrifol. Mae pawb yn cydnabod, os byddwn yn uwchraddio ein gweithwyr, ein plant ysgol a'n pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, y bydd gennym well siawns o wella ein heconomi. Mae angen inni sicrhau, yn y tymor byr a'r tymor hir, fod cyrsiau galwedigaethol yn ein sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn berthnasol i anghenion busnesau, nid yn ddisylwedd neu'n fater yn unig o roi cwrs i rywun, ond yn cysylltu â rhywbeth y gallant ei wneud.

Mae angen inni wella ein rhwydwaith ffyrdd; os gwnawn hynny, byddwn yn gwella ein cyfleoedd i gael gwaith. Mae angen inni hefyd fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd tymor hir drwy gael pobl oddi ar fudd-daliadau salwch ac i gyfleoedd am swyddi gweddus. Mae angen inni ddenu rhagor o swyddi sgiliau uwch i Gymru drwy gael gweithlu mwy hyfedr. Mae yna gwmnïau sydd â swyddi sgiliau uwch i'w llenwi—swyddi gweithgynhyrchu sgiliau uwch a swyddi technolegol sgiliau uwch—ond ni fyddant yn dod i Gymru os nad yw'r

gweithlu yma. Yr ydym yn aml wedi siarad am hynny yma.

Those are long-term measures, but there are some things that we can do in the short term, because the people of Wales are suffering now. We can use the European funding programmes to deliver real improvements across the Welsh economy. Only some of those projects have already been granted funding.

Mesurau tymor hir yw'r rheini, ond mae rhai pethau y gallwn eu gwneud yn y tymor byr, oherwydd mae pobl Cymru'n dioddef yn awr. Gallwn ddefnyddio'r rhaglenni nawdd Ewropeaidd i sicrhau gwir welliannau ar draws economi Cymru. Rhai yn unig o'r prosiectau hynny sydd eisoes wedi cael cymorth grant.

**Jeff Cuthbert:** I am grateful to you for giving way. Do you regret the fact that John Redwood did not take up the Objective 1 offers in 1992?

**Jeff Cuthbert:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. A ydych yn edifar am y ffaith na fanteisiodd John Redwood ar y cynigion Amcan 1 yn 1992?

2.40 p.m.

**Angela Burns:** I was not here in 1992. If you are talking about money that was sent back, I can only assume that that is also the money that you have sent back, year on year, as end-of-year flexibility.

**Angela Burns:** Nid oeddwn yma yn 1992. Os siarad am arian a anfonwyd yn ôl yr ydych, ni allaf ond tybio mai dyma'r arian yr ydych chithau wedi'i anfon yn ôl, flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel hyblygrwydd diwedd-blwyddyn.

There are currently around 200 projects that are waiting for the okay under European funding programmes. Not all of these will create jobs, but some will, even if it is only two or three jobs, or a job on something like the Sunderland flying boat project. We have been sitting on saying 'yes' or 'no' to this funding for months now. Let us say 'yes' and let us get on with it. We need to give civil servants a push to do it. Let us get that money out there to help to improve the Welsh economy.

Ar hyn o bryd mae oddeutu 200 o brosiectau yn disgwyl cael eu cymeradwyo dan raglenni nawdd Ewropeaidd. Ni fydd pob un o'r rhain yn creu swyddi, ond bydd rhai yn gwneud hynny, hyd yn oed os dwy neu dair swydd yn unig, neu'n swydd ar ryw beth fel y prosiect cwch hedfan Sunderland. Yr ydym wedi bod yn tin-droi cyn dweud 'ie' neu 'na' am y cyllid hwn ers misoedd bellach. Gadewch inni ddweud 'ie' a bwrw ymlaen. Mae angen inni roi hergw d i'r gweision sifil i symud ymlaen. Gadewch inni gael yr arian allan yno i helpu gwella economi Cymru.

We can help companies by assessing the cost of doing business and cutting red tape. That does not mean creating yet another organisation to examine the amount of red tape in order to know what we should cut, even though that is what we have heard from the Minister for Rural Affairs and the Minister for the Economy and Transport. We know what we need to cut; let us get on and do it. If we did it this month or next month, in a few months' time, it would start to benefit the economy.

Gallwn helpu cwmnïau drwy asesu cost masnachu a lleihau biwrocratiaeth. Nid yw hynny'n golygu creu sefydliad eto fyth i archwilio faint o fiwrocratiaeth sydd er mwyn gwybod beth i'w gwtogi, er mai dyna a glywsom gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Gwyddom beth y mae angen inni ei gwtogi; gadewch inni fwrw ymlaen i'wneud hynny. Petaem yn gwneud hynny y mis yma neu'r mis nesaf, ymhen ychydig fisoedd byddai'n dechrau gwneud lles i'r economi.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Yr ydych

are way over time, Angela. The clock stopped and time stood still. Please wind up.

**Angela Burns:** I will. Communities First is an excellent programme, but whenever I talk to people who are working on the programme about engaging with local businesses in order to help people in their areas, they look absolutely blank as they are only used to dealing with the public and voluntary sectors. Get Communities First involved with the business sector now. Those are three good ideas that the First Minister could take forward that would help the people of Wales today.

**Gareth Jones:** Yr wyf am geisio ymateb yn uniongyrchol i'r cynnig. Gan fod y ddwy flynedd gyntaf o'r cyfnod dan sylw yn perthyn i'r cyfnod cyn datganoli, mae'n syndod i mi fod y Ceidwadwyr am ein hatgoffa o'r dyddiau blin hynny. Yr oedd hwnnw'n gyfnod arbennig o anodd, gyda Chymru yn wynebu pob math o broblemau a briodolwyd i oes ddiffaith ac andwyol teyrnasiad y Ceidwadwyr. Yr oedd yn adeg o chwalfa a dinistr cymdeithasol a chymunedol, gyda chyfraddau llog yn 15 y cant a chwyddiant yn 10 y cant, a gwelwyd dyfodiad y dreth fusnes a'r dreth gyngor. Anghyfrifoldeb economaidd oedd yn nodweddu polisïau'r Ceidwadwyr yn y 1980au, a chafwyd y blerwch a'r anhrefn a arweiniodd at ddigwyddiadau megis y dydd Mercher du. Buddiannau tymor byr oedd yn gyrru agenda'r Ceidwadwyr bryd hynny, megis gwastraffu adnoddau refeniw olew môr y Gogledd.

**Nick Bourne:** I am very grateful to Gareth for giving way. In terms of the motion, it was the Labour Party that was in power in 1997 as there was a change of Government then. I accept that devolution did not exist, but the Labour Party came into power in Westminster in 1997; it was not a Conservative Government that was in power.

**Gareth Jones:** I am referring to what it inherited.

Bu diffyg brwdfrydedd a chydweithrediad y Ceidwadwyr yn ystod y blynyddoedd cynnar hynny yn rhwystr i gynydd a datrysiad buan

ymhell dros amser, Angela. Arhosodd y cloc a safodd amser yn llonydd. A wnewch chi ddirwyn i ben.

**Angela Burns:** Gwnaf. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen ardderchog, ond pryd bynnag y byddaf yn siarad â phobl sy'n gweithio ar y rhaglen ac yn ymgysylltu â busnesau lleol i helpu pobl yn eu hardaloedd, maent yn edrych yn hollol syn am eu bod wedi arfer delio â'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn unig. Cysylltwch Cymunedau yn Gyntaf â'r sector busnes yn awr. Dyna ichi dri syniad da y gallai'r Prif Weinidog eu rhoi ar waith ac a fyddai'n helpu pobl Cymru heddiw.

**Gareth Jones:** I shall try to respond directly to the motion. Given that the first two years of the period in question belong to the pre-devolution era, it surprises me that the Conservatives want to remind us of those dark days. It was a particularly difficult period, as Wales faced all sorts of problems that were attributed to the desolate and harmful era of Conservative reign. It was a time of social and community breakdown and destruction, with interest rates at 15 per cent and inflation at 10 per cent, and we witnessed the introduction of the business tax and the council tax. Conservative policies during the 1980s were characterised by economic irresponsibility, and we experienced the confusion and chaos that led to events such as black Wednesday. The Conservative agenda in those days was driven by short-term gains, such as wasting North sea oil revenue resources.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar iawn i Gareth am ildio. O safbwynt y cynnig, y Blaid Lafur oedd mewn grym yn 1997 oherwydd bu newid yn y Llywodraeth bryd hynny. Derbyniaf nad oedd datganoli yn bod, ond daeth y Blaid Lafur i rym yn San Steffan yn 1997; nid Llywodraeth Geidwadol oedd mewn grym.

**Gareth Jones:** Cyfeirio yr wyf at yr hyn a etifeddodd.

The Conservative lack of enthusiasm and co-operation during those early years hindered progress and the early resolution of our

i'n problemau economaidd, a dylai'r Ceidwadwyr gydnabod eu cyfrifoldeb yn hyn o beth. Yn wir, os ydynt am ddefnyddio GVA y pen fel conglfaen i'w dadl heddiw, gan ddweud nad yw hwnnw heddiw ond yn 77.3 y cant o ffigur y DU, dylent gydnabod eu bod yn bennaf gyfrifol am sefydlu trothwy GVA mor isel yn ôl yn 1997.

Y cwestiwn yw: a yw'r sefyllfa mor ddu ag y mae'r Ceidwadwyr yn ceisio ei awgrymu i ni heddiw? Yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2006, cafwyd twf o dros 2 y cant yn flynyddol yn economi Cymru mewn termau real, sef twf llawer cyflymach nag a gafwyd yn ystod y naw mlynedd flaenorol dan y Ceidwadwyr. Hefyd, yn ystod y cyfnod dan sylw—

**David Melding:** You are referring to a curious amendment, because it deliberately refers to a world recession that occurred when the Conservative Party was in power and yet, fortunately, during the period that we have included in the motion, there was no economic down-turn, although there is such a down-turn now. Do you accept that it would be fair for us, as we approach the next Assembly elections, to make your party partly responsible for the world recession, or will you say that world recessions are beyond any particular party?

**Gareth Jones:** That is a good point, David, but I will not accept any responsibility for any world recession; you are right to say that. However, I will point out another fact. You referred to this particular range of years.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, bu twf incwm yn gryfach yng Nghymru nag yn unrhyw ranbarth arall y tu allan i Lundain. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu'r twf mewn cyflogaeth yn gryfach yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Yn ôl ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yr oedd incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen—yr ydych yn ymwybodol o hwn, er na chredaf eich bod wedi ei ddyfynnu; GDHI yw'r term—yng Nghymru yn 2006 yn £12,312, bron 90 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef ei lefel gymharol uchaf ers 1995. Ar ôl gostwng rhwng 1995 a 1999, mae'r gyfran hon wedi

economic problems, and the Conservatives should acknowledge their culpability in this respect. Indeed, if they wish to use GVA per head as the cornerstone of their debate today, saying that that today is only 77.3 per cent of the UK figure, they should acknowledge that they were primarily responsible for setting such a low GVA threshold back in 1997.

The question is this: is the situation as bleak as the Conservatives are trying to suggest to us today? During the period between 1997 and 2006, the Welsh economy grew annually by over 2 per cent in real terms, which is a much faster rate than in the previous nine years under the Conservatives. Also, during the period in question—

**David Melding:** Yr ydych yn cyfeirio at welliant rhyfeddol, oherwydd mae'n cyfeirio'n fwriadol at ddirwasgiad byd-eang a ddigwyddodd pan oedd y Blaid Geidwadol mewn grym, ac eto, yn ffodus, yn ystod y cyfnod hwnnw yr ydym wedi'i gynnwys yn y cynnig, nid oedd dim dirywiad economaidd, er bod dirywiad felly'n awr. A dderbyniwch y byddai'n deg, wrth inni nesáu at etholiadau nesaf y Cynulliad, inni wneud eich plaid yn rhannol gyfrifol am y dirwasgiad byd-eang, ynteu a ddywedwch fod dirwasgiadau byd-eang y tu hwnt i unrhyw blaid benodol?

**Gareth Jones:** Mae hwnnw'n bwynt da, David, ond ni dderbyniaf ddim cyfrifoldeb dros unrhyw ddirwasgiad byd-eang; yr ydych yn iawn i ddweud hynny. Fodd bynnag, tynnaf sylw at ffaith arall. Cyfeiriech at yr ystod benodol hon o flynyddoedd.

During the period in question, income growth was stronger in Wales than in any other region outside London. Over the past 10 years, employment growth has been stronger in Wales than in the rest of the United Kingdom. According to the latest figures from the Office for National Statistics, Wales's gross domestic household income per capita—you are aware of this, even though you did not, I believe, mention it; it is known as GDHI—in 2006 was £12,312, which was nearly 90 per cent of the United Kingdom average, or its highest comparative level since 1995. Having fallen between 1995 and 1999, this figure has increased in each of

cynyddu ym mhob un o'r saith mlynedd diwethaf a Chymru oedd y wlad a welodd y cynnydd mwyaf yng nghanran y GDHI y pen ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig a rhanbarthau Lloegr rhwng 1999 a 2005. Ni wnewch gydnabod hynny, ond mae'n ystadegyn hollbwysig ac allweddol i'r ddadl hon.

Hefyd, mae'n rhaid clodfori gweithgarwch effeithiol Llywodraeth Cymru'n Un i gyrraedd lefel gweithgaredd economaidd o 80 y cant ac i sicrhau llwyddiant i'r defnydd o arian cronfeydd cydgyfeiriant. Dylai'r Ceidwadwyr ddilyn eu cyngor eu hunain ac edrych ymlaen. Dyna yr ydych yn ei ddweud wrthym o hyd: edrychwch ymlaen ac nid yn ôl. Nid yw'n talu i chi edrych yn ôl. Po fwyaf mae'r Ceidwadwyr yn gwneud hynny—chi sydd wedi gwahodd hynny drwy'r ddadl y prynhawn yma a drwy gyfeirio at y blynyddoedd hynny—po fwyaf mae pobl Cymru yn cael eu hatgoffa am yr anhrefn cymdeithasol a diwydiannol a orfodwyd arnynt gan y Ceidwadwyr fel Llywodraeth gwrthgymuned, gwrthgymdeithas a gwrthddatganoli.

**Michael German:** I welcome this debate. I think that the Conservatives are quite right to highlight the performance of the Welsh economy, because it is what drives the people of Wales and enables them to become more prosperous. The Member who proposed the motion was correct in saying that not all of the problems can be laid at the door of the Welsh Assembly Government; it would be spurious to claim that. However, we have to look at the tools that are available to the Welsh Assembly Government and see which are being used correctly and to their maximum potential.

I always find it strange that, when a tool for measurement is not appropriate, you change the tool and throw the old one away. Many Members here will remember that gross value added per capita—previously gross domestic product per capita—was the yardstick that this Government, led by Rhodri Morgan, used to judge its performance from the beginning, from 1999 onwards. If you remember, the target was to close the gap by 2010. Clearly, that will not happen, as the gap is now widening. Therefore, you

the past seven years and Wales saw the biggest percentage increase in GDHI per capita figures among the nations of the United Kingdom and the regions of England between 1999 and 2005. You will not acknowledge that, but it is a crucial and key statistic in this debate.

We must also praise the effective work done by the One Wales Government in achieving an 80 per cent economic activity level and securing the successful use of convergence funding. The Conservatives should take their own advice and look forward. That is what you are always telling us: look to the future rather than to the past. It does not pay you to look to the past. The more the Conservatives do that—it is you who have invited that this afternoon by tabling this debate and by referring to those years—the more the people of Wales will be reminded of the social and industrial chaos forced upon them by the anti-community, anti-society and anti-devolution Conservative Government.

**Michael German:** Croesawaf y ddadl hon. Credaf ei bod yn gwbl briodol i'r Ceidwadwyr dynnu sylw at berfformiad economi Cymru, oherwydd hyn sy'n ysgogi pobl Cymru ac yn eu galluogi i fod yn fwy ffyniannus. Yr oedd yr Aelod a gynigiodd y cynnig yn gywir wrth ddweud na ellir priodoli pob un o'r problemau i Lywodraeth Cynulliad Cymru; byddai hynny'n honiad annilys. Er hynny, rhaid inni edrych ar yr offer sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gweld pa rai sy'n cael eu defnyddio'n gywir ac i'w heithaf.

Byddaf bob amser yn ei chael yn rhyfedd, pan nad yw dull o fesur yn briodol, eich bod yn newid yr offeryn ac yn taflu'r hen un. Bydd llawer o Aelodau'n cofio mai gwerth ychwanegol crynswth y pen—cynnyrch mewnwladol crynswth y pen cyn hynny—oedd y ffon fesur a ddefnyddiai'r Llywodraeth hon, dan arweiniad Rhodri Morgan, i farnu ynghylch ei pherfformiad o'r dechrau, o 1999 ymlaen. Os cofiwch, y targed oedd cau'r bwlch erbyn 2010. Mae'n amlwg na fydd hynny'n digwydd, gan fod y

discarded that tool. However, it is a tool in the toolbox. It happens to be the one that the European Union uses to assess what support we get and it is used worldwide as the main economic measurement, so it is not impossible that we should use it as a tool now. If we have to have bad times, we should accept that. The reality is that the gap is growing. In only two of the years since the National Assembly for Wales was created has the gap in average GVA/GDP per capita between Wales and England and the rest of the UK narrowed rather than grown. It is a matter of great sadness to me that we have not been able to raise the game in the Welsh economy. It is a measurement tool that I will want to continue to use as one of many in the toolbox. I will not discard it. We should keep it in the toolbox and should keep using it, because it is a measure of the broader prosperity of our nation, and one that we must challenge.

I want to look at two key areas where the Welsh Assembly Government can make a difference. Yesterday, I asked the First Minister about the new £80 million or £90 million that he has to spend this year, before the end of December, and what he intends to spend it on. I hope that, by the end of today's meeting, he will have told the National Assembly where he expects to spend this extra money in order to make a difference in what is a key and tough time for the National Assembly, for the people of Wales, and for industry in Wales.

2.50 p.m.

The second area that I want to talk about is where the opportunities lie. When the pound is falling against all other currencies bar the dollar, there are significant export opportunities. There are some signs that companies in Wales are bucking the trend and beating other parts of the United Kingdom, but this is very much the time when you would expect the Government to inject more assistance into that area, as we can make a big difference in it. Last year, the value of Welsh exports were £401 million down on the year before. That was a problem

bwllch yn agor yn awr. Felly, taflwyd yr offeryn hwnnw. Er hynny, mae'n un o'r offer sydd ar gael. Fel y mae'n digwydd, hwnnw yw'r offeryn y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei ddefnyddio i asesu'r cymorth a gawn, ac fe'i defnyddir ledled y byd fel y brif ffon fesur economaidd, ac felly nid yw'n amhosibl inni ei ddefnyddio fel offeryn yn awr. Os yw'n rhaid inni fynd drwy gyfnod gwael, dylem dderbyn hynny. Y gwir yw bod y bwllch yn agor. Mewn dwy yn unig o'r blynyddoedd ers creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru y mae cyfartaledd y bwllch GYC/CMC y pen rhwng Cymru a Lloegr a gweddill y DU wedi cau yn hytrach nag agor. Mae'n destun tristwch mawr i mi nad ydym wedi gallu gwella perfformiad economi Cymru. Mae'n ffon fesur y byddaf am ddal i'w defnyddio fel un o blith nifer sydd ar gael. Nid wyf fi am ei thaflu. Dylem ei chadw a dylem barhau i'w defnyddio, gan ei bod yn ddull o fesur ffyniant mwy cyffredinol ein gwlad, ac yn un y mae'n rhaid inni ei herio.

Dymunaf edrych ar ddau faes allweddol lle y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud gwahaniaeth. Ddoe, holais y Prif Weinidog am y £80 miliwn neu'r £90 miliwn newydd sydd ganddo i'w wario eleni, cyn diwedd Rhagfyr, ac am yr hyn y mae'n bwriadu ei wario arno. Gobeithio, erbyn diwedd y cyfarfod heddiw, y bydd wedi dweud wrth y Cynulliad Cenedlaethol ble y mae'n disgwyl gwario'r arian ychwanegol hwn er mwyn gwneud gwahaniaeth yn yr hyn sy'n gyfnod allweddol ac anodd i'r Cynulliad Cenedlaethol, i bobl Cymru, ac i ddiwydiant yng Nghymru.

Yr ail faes y dymunaf sôn amdano yw hwnnw lle y mae'r cyfleoedd. Pan yw'r bunt yn gostwng yn erbyn pob arian arall heblaw'r ddoler, mae yna gyfleoedd allforio pwysig. Mae rhai arwyddion bod cwmnïau yng Nghymru'n mynd yn groes i'r duedd ac yn curo rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond dyma'r adeg pan fydddech yn disgwyl i'r Llywodraeth roi mwy o gymorth yn y maes hwnnw, oherwydd gallwn wneud gwahaniaeth mawr ynddo. Y llynedd, yr oedd gwerth allforion o Gymru £401 miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Yr oedd

for us, and we need to see whether we can regain that ground. If we cannot develop our own economy, because we do not have the wherewithal inside it given the pressures on us in terms of credit and so on, then what we can do is ensure that more Welsh products are exported so that we can build a stronger economy.

I regret that there is now a £4,000 per head difference between us and the rest of the UK in GVA. That means that the gap is growing, and that we are £4,000 per head less well off, on average, than the rest of the UK. I do not think that we can turn away from that tool in the toolbox.

We need to see what our Government is doing here to inject support into our economy at a time when it is most critical. I am not yet seeing those promises of good measures being carried out to ensure that we can buck the trend.

**Jeff Cuthbert:** Since 1997, Labour in every tier of government has implemented policies to deliver the strongest period of sustained economic growth this country has seen since the second world war. As part of our commitment to social justice, Labour has always acknowledged that it makes far more sense to encourage and help people into employment and off benefits than it does to close major sources of employment and encourage benefit take-up. The unemployment rate in Wales has fallen by 0.6 per cent over the last year and, at 4.9 per cent, it is below the UK average.

The number of business start-ups, as Alun mentioned in his intervention, rose from 15,600 in 2000 to 20,500 in 2007. Moreover, business survival rates are higher now than they have ever been in Wales, and are above the UK average.

As my colleague Lesley mentioned, the latest employment outlook survey from Manpower shows that less than 5 per cent of employers foresee having to reduce their staffing levels, and more than 10 per cent expect their staffing levels to rise.

honno'n broblem inni, ac mae angen inni weld a allwn adennill y tir hwnnw. Os na allwn ddatblygu ein heconomi ein hunain, am nad oes gennym ddigon o adnoddau ynddi a chofio'r pwysau sydd arnom o ran credyd, ac yn y blaen, yr hyn y gallwn ei wneud yw sicrhau bod mwy o gynhyrchion Cymru'n cael eu hallforio fel y gallwn adeiladu economi gryfach.

Mae'n ofid i mi fod gwahaniaeth o £4,000 y pen bellach rhyngom ni a gweddill y DU o ran GYC. Mae hynny'n golygu bod y bwlch yn agor, a'n bod £4,000 y pen yn llai cefnog, ar gyfartaledd, na gweddill y DU. Ni chredaf y gallwn anwybyddu'r offeryn hwnnw sydd ar gael i ni.

Mae angen inni weld beth y mae ein Llywodraeth yn ei wneud yma i chwistrellu cymorth i'n heconomi pan yw hynny'n fwyaf hanfodol. Nid wyf eto'n gweld yr addewidion hynny i gymryd camau da i sicrhau y gallwn fynd yn groes i'r duedd.

**Jeff Cuthbert:** Er 1997, mae Llafur ym mhob haen o lywodraeth wedi rhoi polisiau ar waith i sicrhau'r cyfnod cryfaf o dwf economaidd parhaus y mae'r wlad hon wedi'i weld ers yr ail ryfel byd. Fel rhan o'n hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, mae Llafur wedi cydnabod bob amser ei bod lawer yn fwy synhwyrol annog a helpu pobl i weithio a rhoi'r gorau i fyw ar fudd-daliadau na chau ffynonellau cyflogaeth mawr a rhoi anogaeth i gymryd budd-daliadau. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru wedi gostwng 0.6 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf, ac ar 4.9 y cant mae'n is na chyfartaledd y DU.

Cododd nifer y busnesau a gychwynwyd, fel y soniodd Alun yn ei ymyriad, o 15,600 yn 2000 i 20,500 yn 2007. Yn ogystal â hynny, mae cyfraddau parhad busnesau yn uwch yn awr nag erioed yng Nghymru, ac maent yn uwch na chyfartaledd y DU.

Fel y soniodd fy nghyd-Aelod, Lesley, mae'r arolwg diweddaraf o ragolygon cyflogaeth gan Manpower yn dangos bod llai na 5 y cant o gyflogwyr yn rhagweld y byddant yn gorfod gostwng eu lefelau staffio, ac mae dros 10 y cant yn disgwyl i'w lefelau staffio godi.

Combining these figures with our commitments to full employment and implementing the 'Skills That Work for Wales' agenda to upskill our workforce and equip it with the skills needed to compete in the future global market shows our determination to continue taking Wales forward.

I note that this is the fourth occasion of the Welsh Conservatives using their time to debate the economy in one way or another. It is almost as if they believe that if they keep saying that the country and the economy are in a bad way, people will start to believe them. I do not think that the Welsh people will be so quick to forget how bad things were under them, especially when you consider, as Irene mentioned, that during 18 years of Tory rule, they presided over the worst two recessions since the war and that between 1992 and 1996 approximately 1,000 businesses went bust each week.

**David Melding:** I tried to put this point to Gareth—let us see whether I get more sense out of you. Why are world recessions that occur under Conservative Governments the responsibility of Conservative Governments, while a world recession, or at least a downturn, that occurs under a Labour Government is not your party's responsibility?

**Jeff Cuthbert:** David, it does not matter how well you present your argument—it is still baloney. I remember Wales under your Government, and it was a terrible place in which to live. The economy was stripped, jobs were lost, and steel and mining works were closed ruthlessly.

**Christine Chapman:** On that point, is not the point not just what the Conservatives did when they were in power, but the impact that they have had to this day? We are talking about cycles of deprivation that areas such as the Heads of the Valleys still have to live with.

**Jeff Cuthbert:** That is absolutely right, and that is why we had to bring in initiatives such as Communities First to help to address that

Mae'r ffigurau hyn, ynghyd â'n hymrwymiaidau i sicrhau cyflogaeth lawn ac i weithredu'r agenda 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' i wella sgiliau ein gweithlu a rhoi iddo'r sgiliau y mae eu hangen i gystadlu ym marchnad fyd-eang y dyfodol, yn dangos ein penderfyniad i barhau i fynd â Chymru yn ei blaen.

Sylwaf mai hwn yw'r pedwerydd tro i'r Ceidwadwyr Cymreig ddefnyddio'u hamser i gael dadl ar yr economi mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Maent bron fel petaent yn credu, os daliant i ddweud bod y wlad a'r economi mewn cyflwr gwael, y bydd pobl yn dechrau eu credu. Nid wyf yn credu y bydd pobl Cymru'n anghofio'n fuan mor ddrwg oedd pethau dan eu rheolaeth, yn enwedig pan gofiwch, fel y dywedodd Irene, fod y Torïaid, yn ystod 18 mlynedd eu rheolaeth, wrth y llyw yn ystod y ddau ddirwasgiad gwaethaf ers y rhyfel a bod tua 1,000 o fusnesau wedi mynd i'r wal bob wythnos rhwng 1992 a 1996.

**David Melding:** Ceisiais ofyn hyn i Gareth—gadewch inni weld a gaf fwy o synnwyr gennych chi. Pam mae dirwasgiadau byd-eang sy'n digwydd dan Lywodraethau Ceidwadol yn gyfrifoldeb i Lywodraethau Ceidwadol, a dirwasgiad byd-eang, neu ddirywiad o leiaf, sy'n digwydd dan Lywodraeth Lafur yn un nad yw'n gyfrifoldeb i'ch plaid chi?

**Jeff Cuthbert:** David, nid yw o bwys pa mor dda yr ydych yn cyflwyno'ch dadl—nonsens ydyw o hyd. Cofiaf Gymru dan eich Llywodraeth chi, ac yr oedd yn lle ofnadwy i fyw. Ysbeiliwyd yr economi, collwyd swyddi, a chaewyd gweithfeydd dur a glofeydd yn ddirugaredd.

**Christine Chapman:** Ar y pwynt hwnnw, onid y pwynt yw nid yn unig yr hyn a wnaeth y Ceidwadwyr pan oeddent mewn grym, ond yr effaith y maent wedi'i chael hyd heddiw? Yr ydym yn sôn am gylchoedd amddifadedd y mae ardaloedd fel Blaenau'r Cymoedd yn dal i orfod eu goddef.

**Jeff Cuthbert:** Mae hynny'n hollol gywir, a dyna pam y bu'n rhaid inni gyflwyno cynlluniau fel Cymunedau yn Gyntaf i helpu



problem.

To conclude, in the UK, under the Conservatives, 3 million people were unemployed, 250,000 families had their homes repossessed and interest rates were over 15 per cent. In Wales, it was the Conservatives' stewardship of the economy up to 1997 that enabled us to qualify for Objective 1 funding, but we took Objective 1 money and a result created 40,000 jobs for people who were unemployed. So, should we be taking lessons from the Conservatives about the economy? I think not.

**Alun Ffred Jones:** David Melding presents his case so reasonably and he is so nice that you are lured into agreeing with him, but I wish to remind him that when I worked for HTV as a reporter in the early 1980s, there were daily reports of factory closures and unemployment in Wales was approaching 170,000. That was a deliberate policy by the UK Tory Government at the time, and you should not be allowed to forget it. When I moved to Dyffryn Nantlle in north Wales, there were men there who had never been out of work in their lives—they were hard-working people and they could not find a job for love nor money. That was due to Tory mismanagement of the economy, and you cannot deny that. I admit that we have moved on since then, but do not ever forget that when you point the finger at someone else or at any weakness at present.

To try to put a historical perspective on things, the tragedy of what happened in south Wales, especially with the coal mining industry, was that there was an organised retreat at the time under Philip Weekes, who was then in charge of the National Coal Board in south Wales. There was a general agreement with unions that the industry was contracting. However, what Thatcher did was an assault on the communities of south Wales, and you must take that on board, although it is history, because it is part of the problem that we must face, especially in the post-industrial south Wales Valleys. During the Thatcher years, the only body in Wales that tried to plan a response to the situation was the Wales Development Agency, a body

delio â'r broblem honno.

I gloi, yn y DU, dan y Ceidwadwyr, yr oedd 3 miliwn o bobl yn ddi-waith, adfeddiannwyd cartrefi 250,000 o deuluoedd ac yr oedd cyfraddau llog dros 15 y cant. Yng Nghymru, stiwardiaeth y Ceidwadwyr ar yr economi hyd at 1997 a'n galluogodd i fod yn gymwys i gael arian Amcan 1, ond cymerasom ni arian Amcan 1 a chreu 40,000 o swyddi o ganlyniad i bobl a oedd yn ddi-waith. Felly, a ddylem gymryd gwersi gan y Ceidwadwyr am yr economi? Nid wyf yn credu.

**Alun Ffred Jones:** Mae David Melding yn cyflwyno'i achos mor rhesymol ac mae mor ddymunol fel y cewch eich denu i gytuno ag ef, ond dymunaf ei atgoffa bod adroddiadau bob dydd ar ddechrau'r 1980au, pan oeddwn yn gweithio i HTV fel gohebydd, am gau ffatrïoedd ac yr oedd diweithdra yng Nghymru yn agos i 170,000. Yr oedd hwnnw'n bolisi bwriadol gan Lywodraeth Doriaidd y DU ar y pryd, ac ni ddylid caniatáu ichi anghofio hynny. Pan symudais i Ddyffryn Nantlle yn y gogledd, yr oedd dynion yno nad oeddent erioed wedi bod yn ddi-waith yn eu bywyd—yr oeddent yn bobl weithgar ac ni allent gael gwaith er gwaethaf pob ymdrech. Yr oedd hynny oherwydd camreolaeth y Toriaid ar yr economi, ac ni allwch wadu hynny. Yr wyf yn derbyn ein bod wedi symud ymlaen ers hynny, ond peidiwch byth ag anghofio hynny wrth estyn eich bys at rywun arall neu at unrhyw wendid sy'n bod ar hyn o bryd.

Er mwyn ceisio rhoi hyn mewn cyd-destun hanesyddol, tristwech yr hyn a ddigwyddodd yn y de, yn enwedig o ran y diwydiant glo, oedd bod encilio trefnus ar y pryd dan ofal Philip Weekes, a oedd yn ben bryd hynny ar y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn y de. Yr oedd cytundeb cyffredinol ag undebau bod y diwydiant yn crebachu. Fodd bynnag, yr oedd yr hyn a wnaeth Thatcher yn ymosodiad ar gymunedau'r de, a rhaid ichi dderbyn hynny, er mai hanes ydyw, gan ei fod yn rhan o'r broblem y mae'n rhaid inni ei hwynebu, yn enwedig yng Nghymoedd y de ar ôl y cyfnod diwydiannol. Yn ystod blynyddoedd Thatcher, yr unig gorff yng Nghymru a geisiodd gynllunio ymateb i'r sefyllfa oedd Awdurdod Datblygu Cymru, corff yr oedd y

that had been opposed by the Tories when it was proposed in Westminster by Dafydd Wigley. I do not deny for a minute that the Welsh economy in many parts of west Wales and the Valleys, whether rural or urban, is in a very precarious state. I have said that many times in the Assembly. I am seriously concerned about the viability of many of our communities and villages. We need far more vigorous, indigenous and prosperous businesses in order to revitalise many parts of our country.

Reference was made to the success of Ireland. Ireland was a poor country on the edge of Europe and had little going for it in many ways in the 1960s and 1970s, but it performed a miracle, not that it is a Shangri-la—it is not a heaven, because there are many problems there. However, it planned its own future, partly because it was an independent country, of course, and one of the secrets that it used to unlock the door was European funding. Do not deny it—the Tory Party refused to contemplate European funding at that time because it refused to redraw the map of Wales to allow it to happen.

**Nick Bourne:** I am grateful to Alun Ffred for giving way on the subject of the European Union. The trouble with Alun Ffred when he talks about this issue is that there he always gives a history lesson about the far distant past. He referred earlier to 1983. At that time, your party wanted to take us out of Europe, which would not have given us much help.

**Alun Ffred Jones:** It was not in 1983. The fact is that the Tories were in Government and they refused to contemplate the idea of European funding because they did not want to supply the match funding. That was the reason why they did not do it. It could have been a catalyst for change in Wales.

3.00 p.m.

To conclude these brief remarks, there is no denying the fact that there are structural weaknesses within the Welsh economy and that we need to face reality, encourage entrepreneurship and plan the economy in a way that will benefit all parts of Wales. In

Toriaid wedi'i wrthwynebu pan gynigiwyd ef yn San Steffan gan Dafydd Wigley. Nid wyf yn gwadu am eiliad nad yw economi Cymru mewn llawer rhan yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, boed yn wledig neu'n drefol, mewn cyflwr bregus iawn. Yr wyf wedi dweud hynny lawer gwaith yn y Cynulliad. Yr wyf yn pryderu o ddifrif ynghylch hyfywedd nifer o'n cymunedau a'n pentrefi. Mae arnom angen llawer mwy o fusnesau egniol, cynhenid a ffyniannus i adfywio llawer rhan o'n gwlad.

Cyfeiriwyd at lwyddiant Iwerddon. Yr oedd Iwerddon yn wlad dlawd ar gyrion Ewrop ac ychydig a oedd ganddi o'i phlaid ar lawer ystyr yn y 1960au a'r 1970au, ond cyflawnodd wyrth, nid ei bod yn baradwys—nid yw'n nefoedd, gan fod llawer o broblemau yno. Er hynny, cynlluniodd ei dyfodol ei hun, yn rhannol am ei bod yn wlad annibynnol, wrth gwrs, ac un o'r cyfrinachau a ddefnyddiodd i ddatgloi'r drws oedd cyllid Ewropeaidd. Peidiwch â gwadu hynny—gwrthododd y Blaid Doriaidd ystyried cael cyllid Ewropeaidd bryd hynny am ei bod yn gwrthod ail-lunio'r map o Gymru i ganiatáu hynny.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar i Alun Ffred am ildio ar destun yr Undeb Ewropeaidd. Y drafferth gydag Alun Ffred, pan yw'n sôn am y mater hwn, yw ei fod bob amser yn rhoi gwers hanes am y gorffennol pell. Cyfeiriodd yn gynharach at 1983. Bryd hynny, yr oedd eich plaid am fynd â ni allan o Ewrop, ac ni fuasai hynny o lawer o gymorth i ni.

**Alun Ffred Jones:** Nid yn 1983 yr oedd hynny. Y gwir yw bod y Toriaid mewn grym a gwrthodasant ystyried y syniad o gael cyllid Ewropeaidd am nad oeddent am ddarparu'r arian cyfatebol. Dyna pam na wnaethant hynny. Gallasai fod yn fodd i sicrhau newid yng Nghymru.

I gloi'r sylwadau byr hyn, ni ellir gwadu'r ffaith fod gwendidau strwythurol yn economi Cymru a bod angen inni wynebu realiti, annog entrepreneuriaeth a chynllunio'r economi mewn ffordd a fydd o fudd i bob rhan o Gymru. Er mwyn creu'r wlad hyderus,

order to create the successful, confident country that Wales could and should be, we must recognise our strengths and plan accordingly. In that respect, I believe that the Tories are quite in order to bring this matter forward today, because if we do not produce enough wealth in Wales, everything else will fall by the wayside. We cannot spend our way out of recession. I am afraid that the Tories are as guilty as other parties, including my own perhaps, in saying that if we spend more and provide more services for nothing, that will somehow create a successful country; it will not. In order to achieve the goal of having a successful country, difficult decisions must be faced.

**The First Minister:** Sometimes, I feel quite angry when the Tories table motions criticising our economic record. Today, I feel sorry for the Tories for tabling this motion, because we have heard them trying to claim, as Mark Isherwood did, that the Welsh economy is in trouble on the very day that the Office for National Statistics published statistics showing that the number of jobs in Wales has hit an all-time record. You should read its statistics, Mark. Perhaps you have an explanation for how an economy that is in trouble could possibly have achieved 1,360,000 jobs, according to the three-month-average statistics for the latest period of February, March and April 2008. That is not to say that everything is right in the Welsh economy. I said so yesterday and I will say it again today in as balanced a way as I can, knowing that however I manage to split this balanced sentence, Mike German will attack me for one half of the sentence and Nick Bourne will no doubt attack me for the other. That is what happens when you try to be balanced. We have to accept these sixth-form debating points. David Melding accused me of raising such points, but if he looks across the record, he will see that there are others for whom that accusation can be fairly made.

There is a painful rebalancing happening in the Welsh economy. Lesley Griffiths is spot-on in that regard. Luckily, that painful rebalancing is moving in a Welsh direction.

lwyddiannus y gallai ac y dylai Cymru fod, rhaid inni gydnabod ein cryfderau a chynllunio yn unol â hynny. Yn y cyswllt hwnnw, credaf ei bod yn gwbl briodol i'r Torïaid ddod â'r mater hwn gerbron heddiw, oherwydd oni chynhyrchwn ddigon o gyfoeth yng Nghymru, bydd popeth arall yn mynd ar chwâl. Ni allwn wario ein ffordd allan o ddirwasgiad. Ofnaf fod y Torïaid mor euog â'r pleidiau eraill, gan gynnwys fy mhlaid i, efallai, wrth ddweud os gwariwn ni ragor a darparu gwasanaethau am ddim, y bydd hynny rywsut yn creu gwlad lwyddiannus; ni wnaiff hynny. I gyrraedd o nod o fod yn wlad lwyddiannus, rhaid wynebu penderfyniadau anodd.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn teimlo'n ddigon dig weithiau pan fydd y Torïaid yn cyflwyno cynigion yn beirniadu ein record economaidd. Heddiw, yr wyf yn teimlo'n flin dros y Torïaid am iddynt gyflwyno'r cynnig hwn, oherwydd yr ydym wedi'u clywed yn ceisio honni, fel y gwnaeth Mark Isherwood, fod economi Cymru mewn trafferth ar yr union ddiwrnod y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi ystadegau sy'n dangos bod nifer y swyddi yng Nghymru wedi cyrraedd lefel na welwyd cyn hyn. Dylech fod wedi darllen ei hystadegau, Mark. Efallai fod gennyh esboniad sut y mae modd i economi sydd mewn trafferth fod wedi sicrhau 1,360,000 o swyddi, yn ôl yr ystadegau tri mis cyfartalog am y cyfnod diweddaraf, sef Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2008. Nid yw hynny'n golygu bod popeth yn iawn yn economi Cymru. Dywedais hynny ddoe ac fe'i dywedaf eto heddiw mewn ffordd mor gytbwys ag y gallaf, gan wybod, sut bynnag y llwyddaf i rannu'r frawddeg gytbwys hon, y bydd Mike German yn ymosod arnaf oherwydd un rhan o'r frawddeg, ac mae'n siŵr y bydd Nick Bourne yn ymosod arnaf oherwydd y llall. Dyna sy'n digwydd pan geiswch fod yn gytbwys. Rhaid inni dderbyn y dadlau cheched dosbarth hwn. Cyhuddodd David Melding fi o godi pwyntiau o'r fath, ond drwy edrych ar draws y cofnod bydd yn gweld bod eraill y gellir eu cyhuddo'n deg o hynny.

Mae proses boenus o sefydlu cydbwysedd newydd yn digwydd yn economi Cymru. Mae Lesley Griffiths yn hollol iawn yn y cyswllt hwnnw. Yn ffodus, mae'r broses

What do I mean by that? I mean that it is moving, as the Bank of England has told us, towards net trade and away from finance, retail and house building—or not so much house building as apartment building and especially apartment building for the buy-to-let market. Therefore, some areas of the economy are going down, but overall, the Welsh economy has been doing remarkably well, given the huge difficulties that the credit crunch has caused for the house-building industry and some small-business lending, combined with the difficulties in some aspects of the economy. If you are exporting to the dollar zone, it is not so good because the dollar has devalued more quickly than sterling, and if you are exporting to the eurozone, it is good news, provided that you can meet the energy costs and so forth. However, overall, the Welsh economy is showing remarkable resilience; otherwise it could not have reached this overall jobs record of 1,360,000, which is some 3,000 up on the previous record some 12 months ago. Employment in Wales is up by 27,000 over the past quarter of the year. Economic activity is not at the highest that it has been over the last nine years but, at 72.5 per cent, it is pretty close. Likewise, unemployment is close to the lowest that it has been since 1974, which is 33 and a half years ago.

I do not understand why the Tories want to go back to those nine years—unless they are motivated by a desperate desire to find bad news. I am curious. If you go back to the previous nine years, you will find that economic growth in Wales was very much slower. As far as we can tell—although there are no price or inflation-corrected figures for economic growth for Wales—if you apply the UK price deflator, you will find that, during the nine years that the Tories have quoted, economic growth in Wales was 2.1 per cent while, in the previous nine years, when the Tories were in power, it was 1.2 per cent. Therefore, it was 50 per cent higher during the nine years that they have chosen than in the previous nine years when they were in power. It is very odd.

Gallai'r Dirprwy Weinidog ennill parch y sector landlordiaid cymdeithasol pe gallai hi ysgafnhau rhywfaint o'r baich deddfwriaethol a rheoliadol sydd arno, fel y gall weithio mewn meysydd eraill ac felly gynhyrchu mwy o incwm iddo'i hun. Gellir defnyddio hynny fel trosoliad gan y sector landlordiaid cymdeithasol i gael mwy o ran-brynu, adeiladu tai newydd ar gyfer rhentu rhannol, prynu rhannol neu i'w rhentu'n unig. Yr ydym ar ei hôl hi o ran yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ac yn sicr ar ôl yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, o ran y gallu i ryddhau egnïon y sector landlordiaid cymdeithasol. Gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn defnyddio'r holl bwerau sydd ganddi ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad am y modd y gallwn gynhyrchu a defnyddio mwy o'i egnïon a'i rym—wedi'r cyfan, hwn yw'r adeiladwr tai mwyaf yng Nghymru—i gynhyrchu mwy o incwm iddo'i hun fel nad yw'n rhaid iddo droi at bwrs Cymru o hyd i helpu pobl fel hyn. Wedi'r cwbl, mae cyfradd trosoliad incwm y sector preifat neu incwm ar wahân i'r bloc Cymreig o'i gymharu â gweddill yr arian y mae'n ei wario yn llai yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban, ac mae hynny'n golygu nad ydym yn rhoi iddo'r rhyddid i weithredu mewn ffordd a fyddai'n

caniatáu iddo gael rhan gref a phwerus yn y maes hwn.

We are going to need that sector more than we have ever needed it before, and we are going to need it to do more than ever before. Therefore, we are going to need it to spend more money than ever before, and it will have to get that money from somewhere other than the Welsh block, as that is constrained by other spending on health and education. I hope that the regulatory reform that social landlords are looking for will appear rapidly via the Deputy Minister.

Bydd arnom angen y sector hwnnw fwy nag erioed o'r blaen, a bydd angen iddo wneud mwy nag erioed o'r blaen. Felly, bydd angen iddo wario mwy o arian nag erioed o'r blaen, a bydd yn rhaid iddo gael yr arian hwnnw o rywle ar wahân i bloc Cymru, gan fod hwnnw wedi'i gyfyngu gan wariant arall ar iechyd ac addysg. Gobeithio y daw'r diwygiad rheoliadol y mae landlordiaid cymdeithasol yn chwilio amdano yn fuan drwy'r Dirprwy Weinidog.

In conclusion, we have had a good debate. This is a very important issue that affects the lives of many people in our country, and I am glad to say we seem to be unanimous about wanting to help.

I gloi, yr ydym wedi cael dadl dda. Mae hwn yn bwnc pwysig iawn sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl yn ein gwlad, ac mae'n dda gennyf ddweud ein bod, i bob golwg, yn unfrydol ynghylch ein hawydd i helpu.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** It has been agreed that voting time will be no earlier than 4.30 p.m., so I propose that we take the short debate at this point.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cytunwyd na fydd y cyfnod pleidleisio ddim cynharach na 4.30 p.m., felly cynigiau ein bod yn cymryd y ddadl fer yn awr.

## Dadl Fer Short Debate

### Pŵer i'r Bobl Power to the People

**Janet Ryder:** The topic that I have chosen is power to the people. This does not refer to the earlier debate that we had about voting systems, but devolving proper power—electricity and other types of power—to Wales.

**Janet Ryder:** Pŵer i'r bobl yw'r pwnc yr wyf wedi'i ddewis. Nid yw hyn yn cyfeirio at y ddadl gynharach a gawsom am systemau pleidleisio, ond at ddatganoli pŵer go iawn—trydan a mathau eraill o bŵer—i Gymru.

We live in a time of rapidly rising energy prices and of growing concern about future access to energy, and politicians are increasingly opting for large-scale solutions to the coming energy shortfall in these islands. Those large-scale solutions are

Yr ydym yn byw mewn oes pan yw prisiau ynni'n codi'n gyflym a phryder yn cynyddu ynghylch gallu cael ynni yn y dyfodol, ac mae gwleidyddion fwyfwy yn dewis atebion ar raddfa fawr i'r prinder ynni sy'n mynd i daro'r ynysoedd hyn. Mae'r atebion hynny ar

meeting more and more local opposition. In this debate, I shall seek to start from a different perspective and to come to some radically different conclusions. I want to see Wales at the very forefront.

raddfa fawr yn achosi mwy a mwy o wrthwynebiad lleol. Yn y ddadl hon, ceisiaf ddechrau o safbwynt gwahanol a dod at gasgliadau gwahanol iawn. Mae arnaf eisiau gweld Cymru ar flaen y gad.

*Daeth Lorraine Barrett i'r Gadair am 3.55 p.m.  
Lorraine Barrett took the Chair at 3.55 p.m.*

**Janet Ryder:** I am proposing that Wales should opt out of the so-called national grid, which is a cumbersome and inefficient way to distribute electricity. Instead, I would like to suggest a more decentralised and flexible model that, despite utilising the very latest in photovoltaic and hydrogen technology, harks back to the days of municipal socialism and councils having responsibility for services such as gas, electricity and water. People might think that it is pie in the sky—a politician's wish list—but nothing could be further from the truth.

**Janet Ryder:** Cynigiaf y dylai Cymru eithrio'i hun o'r grid cenedlaethol bondigrybwyll, sy'n ffordd afrosgo ac aneffeithlon o ddsbarthu trydan. Yn hytrach, hoffwn awgrymu model mwy datganoledig a hyblyg sydd, er ei fod yn defnyddio'r dechnoleg ffotofoltäig a hydrogen ddiweddaraf un, yn mynd â ni'n ôl i ddyddiau sosialaeth fwrdeisiol pan oedd cynghorau'n gyfrifol am wasanaethau fel nwy, trydan a dŵr. Efallai y bydd pobl yn meddwl mai breuddwyd gwrach yw hyn—rhestr o ddymuniadau gwleidydd—ond ni allai dim fod ymhellach o'r gwir.

All the arguments that I am going to lay out today are based on a tried and trusted project, developed in a small English borough council over the last 15 years. It was pioneered by a man called Allan Jones who worked as an engineer at Woking Borough Council—a council with a population of just 100,000—from 1990 to 2005. During that time, the council developed a network of 81 combined heat and power, decentralised power plants and installed a localised energy grid to link them to each other and to the national grid, along with 10 per cent of the UK's photovoltaic cells as part of a concerted effort to reduce the council's energy bills and carbon dioxide emissions. On the back of a £250,000 initial investment by the council, and working with various other agencies and companies, the council is now saving £974,000 on its annual energy bills. In addition, it has reduced carbon dioxide emissions by 77 per cent. Since 2005, Allan Jones has been working with Ken Livingstone in the London Climate Change Agency, essentially to replicate the work done in Woking. This agency is the result of a pledge by the mayor, not just on energy, but on water, waste and transport, as all four are interrelated.

Mae'r holl ddadleuon y byddaf yn eu gosod gerbron heddiw yn seiliedig ar brosiect wedi ei brofi a ddatblygwyd mewn cyngor bwrdeistref bach yn Lloegr dros y 15 mlynedd diwethaf. Fe'i harloeswyd gan ddyn o'r enw Allan Jones a oedd yn gweithio fel peiriannydd i Gyngor Bwrdeistref Woking—cyngor â phoblogaeth o 100,000 yn unig—o 1990 tan 2005. Yn ystod y cyfnod hwnnw, datblygodd y cyngor rwydwaith o 81 pwerdy gwres a phŵer cyfunol wedi ei ddatganoli, a gosod grid ynni lleol i'w cysylltu â'i gilydd ac â'r grid cenedlaethol, ynghyd â 10 y cant o gelloedd ffotofoltäig y Deyrnas Unedig fel rhan o ymdrech unol i leihau biliau ynni ac allyriadau carbon deuocsid y cyngor. Ar gefn buddsoddiad cychwynnol o £250,000 gan y cyngor, a chan weithio gydag amryfal asiantaethau a chwmnïau eraill, mae'r cyngor yn awr yn arbed £974,000 ar ei filiau ynni blynyddol. At hynny, mae wedi lleihau allyriadau carbon deuocsid 77 y cant. Er 2005, mae Allan Jones wedi bod yn gweithio gyda Ken Livingstone yn yr Asiantaeth Newid yn yr Hinsawdd yn Llundain, yn y bôn i ailadrodd y gwaith a wnaethpwyd yn Woking. Mae'r asiantaeth hon yn ganlyniad addewid gan y maer, nid ar ynni'n unig ond ar ddŵr, gwastraff a thrafnidiaeth, gan fod cysylltiad rhwng y pedwar.

His inspiration is, ironically, the past—100 years ago, local municipalities ran their own gas, water and electricity companies, and provided for the needs of the community locally. The advent of a centralised national grid has not improved efficiency because electricity will always flow to the nearest load and a lot of energy is wasted in the system. This is particularly the case when power stations, of whatever nature, are situated a long way from consumers, both domestic and industrial. It is fair to say that the single biggest barrier to reducing carbon dioxide emissions—a key Assembly Government goal—is the way in which energy is produced and distributed. In addition to the loss of energy through a centralised grid, centralised electricity generation adds to the inefficient production. Coal power stations are only 36 per cent efficient, gas plants operate at 48 per cent efficiency, and nuclear plants are only 38 per cent efficient. They waste up to two thirds of primary energy input in the form of heat ejected into the atmosphere, and there are further losses in the transmission and distribution networks.

How do you make a localised grid work? Again, we have to look at the Woking model. The initial Woking plan was a modest affair. It aimed to improve energy efficiency by 20 per cent within six years—that was actually achieved in five years. With an initial £250,000 investment by the council, the scheme developed a network of combined heat and power plants and photovoltaic cells that were often put into the same project. In this way, health centres, local shopping centres, sheltered housing units, a new hotel, and a multistorey car park got energy-efficient heating and cooling systems by using section 106 agreements with developers. Allan Jones used his engineering know-how to take that a step further. Woking had the first tri-generation system in the world, producing electricity, heat and also cooling for air-conditioning systems. In total, 81 of these energy-producing islands were created throughout the borough.

4.00 p.m.

Where surplus electricity was being

Ei ysbrydoliaeth, yn eironig, yw'r gorffennol—100 mlynedd yn ôl byddai bwrdeistrefi'n rhedeg eu cwmnïau nwy, dŵr a thrydan eu hunain, gan ddarparu ar gyfer anghenion y gymuned yn lleol. Nid yw dyfodiad grid cenedlaethol canolog wedi gwella effeithlonrwydd, oherwydd bydd trydan wastad yn llifo i'r llwyth agosaf a gwastreffir llawer o ynni yn y system. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd gorsafoedd pŵer, o ba bynnag natur, gryn bellter oddi wrth y defnyddwyr, yn rhai domestig a diwydiannol. Mae'n deg dweud mai'r un rhwystr mwyaf rhag lleihau allyriadau carbon deuocsid—nod allweddol gan Lywodraeth y Cynulliad—yw'r modd y cynhyrchir ynni a'i ddsbarthu ynni. Yn ogystal â cholli ynni drwy grid canoledig, mae cynhyrchu trydan yn ganolog yn ychwanegu at y cynhyrchu aneffeithlon. Dim ond 36 y cant yn effeithlon yw gorsafoedd pŵer glo, mae gweithfeydd nwy 48 y cant yn effeithlon, a dim ond 38 y cant yn effeithlon yw atomfeydd. Maent yn gwastraffu hyd at ddwy ran o dair o fewnbnw ynni cynradd ar ffurf gwres a ollyngir i'r atmosffer, ac mae colledion pellach yn y rhwydweithiau trawsgludo a dosbarthu.

Sut mae gwneud i grid lleol weithio? Eto, rhaid inni edrych ar fodel Woking. Cymharol fach oedd cynllun cyntaf Woking. Ei nod oedd gwella effeithlonrwydd ynni 20 y cant o fewn chwe blynedd—cyflawnwyd hynny mewn pum mlynedd. Gyda buddsoddiad cychwynnol o £250,000 gan y cyngor, datblygodd y cynllun rwydwaith o orsafoedd pŵer a gwres cyfunol a chelloedd ffotofoltäig a roddid i mewn i'r un prosiect yn aml. Fel hyn, yr oedd canolfannau iechyd, canolfannau siopa lleol, unedau tai gwarchod, gwesty newydd, a maes parcio aml-lawr yn cael systemau gwresogi ac oeri effeithlon drwy ddefnyddio cytundebau adran 106 gyda datblygwyr. Defnyddiodd Allan Jones ei wybodaeth beirianyddol i fynd â hynny gam ymhellach. Gan Woking yr oedd y system gynhyrchu driphlyg gyntaf yn y byd, yn cynhyrchu trydan, gwres ac oeri hefyd ar gyfer systemau aer cyson. Cafodd cyfanswm o 81 o'r ynysoedd cynhyrchu ynni hyn eu creu drwy'r fwrdeistref.

Lle'r oedd trydan dros ben yn cael ei

produced, it was traded with other energy islands. For example, the combined heat and power plant in the local hospital supplied surplus electricity to a neighbourhood school through the local distribution network. That has also happened in Denmark where combined heat and power units in local schools provide power for nearby housing.

Therefore, how can we adapt the Woking experience to Wales? The Woking experience has proved that even the smallest borough council in Wales could develop a localised distribution network and improve energy efficiency without major capital investment. Allan Jones used the existing planning system to promote a radically different energy system. It is a device that all planners and councillors will recognise and understand. Allan Jones is now seeking to replicate the Woking experience on a London-wide basis. His London Climate Change Agency is 100 per cent council owned, but is making money to be recycled in ultra-green projects that cannot pay for themselves. It is joining up various aspects of council thinking under one agency. Although it works with the private sector to deliver its targets where necessary, the public sector is a procurement agent; it drives the project and is always in control of it.

In Wales, we have set ambitious targets for reducing carbon dioxide emissions. Allan Jones has also been charged with reducing carbon dioxide emissions in London by 60 per cent by 2025. His aim is to take London's energy supply off the grid completely. If it can be done for a city of 7 million people, it can be done for a country of 3 million.

As well as running these combined heat and power plants on conventional fuels but in a more efficient way, the London Climate Change Agency is now investigating the possibilities of a hydrogen economy, with bendy buses, for example, running on hydrogen. Hybrid versions of that kind already exist in California, and there are some ground-breaking innovations in Wales. Last week, on World Environment Day, my

gynhyrchu, câi ei fasnachu gydag ynysoedd ynni eraill. Er enghraifft, o gyfarpar gwres ac ynni cyfunol yn yr ysbyty lleol rhoddwyd cyflenwad o drydan dros ben i ysgol yn y gymdogaeth drwy'r rhwydwaith dosbarthu lleol. Mae hynny wedi digwydd hefyd yn Nenmarc, lle mae unedau gwres a phŵer cyfunol mewn ysgolion lleol yn rhoi pŵer i dai cyfagos.

Felly, sut y gallwn addasu profiad Woking i Gymru? Mae profiad Woking wedi profi y gallai hyd yn oed y cyngor bwrdeistref lleiaf yng Nghymru ddatblygu rhwydwaith dosbarthu lleol a gwella effeithlonrwydd ynni heb fuddsoddiad cyfalaf mawr. Defnyddiodd Allan Jones y system gynllunio bresennol i hybu system ynni sy'n wahanol iawn. Mae'n ddyfais y bydd pob cynllunydd a chynghorwr yn ei hadnabod a'i deall. Mae Allan Jones yn awr yn ceisio ailadrodd profiad Woking dros Lundain gyfan. Mae'r Asiantaeth Newid yn yr Hinsawdd yn Llundain dan berchenogaeth y cyngor 100 y cant, ond mae'n gwneud i arian gael ei ailgylchu mewn prosiectau tra gwyrdd na allant dalu amdanynt eu hunain. Mae hyn yn golygu bod agweddau amrywiol ar syniadau'r cyngor yn cael eu cydgyssylltu dan un asiantaeth. Er ei fod yn gweithio gyda'r sector preifat i gyflawni ei dargedau pan fydd angen, asiantaeth gaffael yw'r sector cyhoeddus; mae'n llywio'r prosiect ac mae bob amser yn ei reoli.

Yng Nghymru, yr ydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer gostwng allyriadau carbon deuocsid. Cafodd Allan Jones ei wneud yn gyfrifol am ostwng allyriadau carbon deuocsid yn Llundain 60 y cant erbyn 2025. Ei nod yw symud cyflenwad ynni Llundain oddi ar y grid yn gyfan gwbl. Os gellir gwneud hynny ar gyfer dinas o 7 miliwn o bobl, gellir ei wneud ar gyfer gwlad o 3 miliwn.

Yn ogystal â rhedeg y cyfarpar gwres a phŵer cyfunol ar danwydd confensiynol, ond mewn ffordd fwy effeithlon, mae'r Asiantaeth Newid yn yr Hinsawdd yn Llundain yn awr yn archwilio posibiliadau economi hydrogen, gyda bysiau ystwyth, er enghraifft, yn rhedeg ar hydrogen. Mae fersiynau hybrid o'r math hwnnw yn bod eisoes yng Nghaliffornia, ac mae rhai datblygiadau newydd arloesol yng Nghymru.

colleague, Ieuan Wyn Jones, launched a hybrid minibus developed by the University of Glamorgan, which runs on three different power sources, including hydrogen fuel cells.

There are already combined heat and power stations running on hydrogen fuel cells, and London is also exploring ways of creating gas from waste materials that can power combined heat and power plants, which would eliminate 98 per cent of London's landfill. There are also clear social and economic benefits for the people of Wales who currently pay 10 per cent more for their electricity than their counterparts in England.

The current cost of electricity per kilowatt hour is around 10p, but only 2.5p of that is the energy cost itself. The rest is down to the overheads of the national grid and the big electricity companies' profits. A local energy network can aim to tackle fuel poverty by offering households electricity for £6 per week. Imagine the difference and the improvement that that would make to our poorest communities and families. That is a genuine practical step to end the fuel poverty that affects so many pensioners and low-income families.

From talking to Allan Jones and studying his work, I strongly believe that the Woking experience demonstrates the savings that can be made in energy production, carbon dioxide emissions and money. In a world where energy conservation and efficient energy production will be vital to our future wellbeing and prosperity, we need to make a start on this course of action as soon as possible.

There are other benefits in that we already have the companies to produce these high-tech solutions. In north Wales alone, we have Sharp in Llay, Kingspan in Holywell, and Dyesol in St Asaph producing solar panels and cells for buildings. We already have a Commission on Climate Change, which was launched last year, and is a welcome step towards recognising the real challenges that

Yr wythnos diwethaf, ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, lansiodd fy nghyd-Aelod, Ieuan Wyn Jones, fws mini hybrid a ddatblygwyd gan Brifysgol Morgannwg. Mae'n rhedeg ar dair ffynhonnell ynni wahanol, gan gynnwys celloedd tanwydd hydrogen.

Mae gorsafoedd gwres a phŵer cyfunol, sy'n rhedeg ar gelloedd tanwydd hydrogen, yn bod eisoes, ac mae Llundain hefyd yn archwilio ffyrdd i greu nwy o ddeunyddiau gwastraff sy'n gallu gyrru cyfarpar gwres a phŵer cyfunol. Byddai hynny'n dileu 98 y cant o ddeunyddiau Llundain sy'n cael eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi. Hefyd mae buddiannau cymdeithasol ac economaidd eglur i bobl Cymru, sydd ar hyn o bryd yn talu 10 y cant yn fwy am eu trydan o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

Cost bresennol trydan fesul awr gilowat yw tua 10c, ond dim ond 2.5c o hwnnw sy'n gost ynni. Mae'r gweddill, yn y bôn, yn cyfateb i orbenion y grid cenedlaethol ac elw'r cwmnïau trydan mawr. Mae rhwydwaith ynni lleol yn gallu anelu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy gynnig trydan i gartrefi am £6 yr wythnos. Dychmygwch y gwahaniaeth a'r gwelliant y byddai hynny'n eu creu i'n cymunedau a'n teuluoedd tlotaf. Mae hynny'n gam ymarferol dilys i roi terfyn ar y tldodi tanwydd sy'n effeithio ar gynifer o bensynwyr a theuluoedd ar incwm isel.

O siarad ag Allan Jones ac astudio'i waith, credaf yn gryf fod profiad Woking yn dangos yr arbedion y gellir eu gwneud wrth gynhyrchu ynni, allyriadau carbon deuocsid ac arian. Mewn byd lle y bydd gwarchod ynni a chynhyrchu ynni mewn modd effeithlon yn hanfodol i'n lles a'n ffyniant yn y dyfodol, mae angen inni ddechrau'r camau gweithredu hyn cyn gynted â phosibl.

Mae yna fuddiannau eraill gan fod gennym eisoes y cwmnïau i gynhyrchu'r atebion uwch-dechnoleg hyn. Yng ngogledd Cymru yn unig, mae gennym Sharp yn Llai, Kingspan yn Nhreffynnon, a Dyesol yn Llanelwy yn cynhyrchu paneli a chelloedd solar ar gyfer adeiladau. Mae gennym eisoes Gomisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd, a lanswyd y llynedd, ac sy'n gam i'w



we face environmentally. I hope that that body can assist by taking the practical steps that I have outlined today to tackle climate change, to reduce our carbon emissions, and to prepare Wales for a post-oil economy. As the Woking experience has shown, we need more than an advisory panel; we require a body that can act and direct with strong political support, which is not caught up in a bureaucratic process.

There is an additional relevance for Wales. Rather than producing a centralised national grid, we would opt to develop a network of localised energy grids, dependent on need. Wales is benefiting from political devolution; this proposal is, literally, a case of devolving power to people.

**The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):** Thank you, Janet, for bringing forward an extremely important topic, and it is one on which we have consulted, via the renewable energy route-map that was published in February. It is important that we focus on renewable energy as much as possible in the context of our commitment to achieve annual reductions of 3 per cent in greenhouse gas emissions from 2011 and our commitment to alleviating fuel poverty in Wales. Every day seems to bring news of another price rise in the traditional fossil-fuel energy market. We are keen to look at the most effective way of ensuring that people living in our rural off-grid areas have a good-quality supply of electricity. These are issues that the Sustainability Committee has taken seriously, too.

groesawu at gydnabod y gwir heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu. Gobeithio y bydd y corff hwnnw'n gallu cynorthwyo drwy gymryd y camau ymarferol a amlinellais heddiw i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, i leihau ein hallyriadau carbon, ac i baratoi Cymru ar gyfer economi ar ôl i'r olew ddiflannu. Fel y mae profiad Woking wedi ei ddangos, mae arnom angen mwy na phanel ymgynghorol; mae arnom angen corff sy'n gallu gweithredu a chyfarwyddo gyda chefnogaeth wleidyddol gadarn, heb gael ei ddal mewn proses fiwrocraataidd.

Mae perthnasedd ychwanegol i Gymru. Yn hytrach na chynhyrchu grid cenedlaethol canolog, byddem yn dewis datblygu rhwydwaith gridiau ynni lleol, yn dibynnu ar angen. Mae Cymru'n cael budd o ddatganoli gwleidyddol; mae'r cynnig hwn, yn llythrennol, yn achos o ddatganoli pŵer i bobl.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Diolch ichi, Janet, am gyflwyno testun pwysig dros ben. Mae'n fater yr ydym wedi ymgynghori arno, drwy'r trywydd ynni adnewyddadwy a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Mae'n bwysig inni ganolbwyntio ar ynni adnewyddadwy gymaint â phosibl yng nghyd-destun ein hymrwymiad i sicrhau gostyngiadau blynyddol o 3 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o 2011 a'n hymrwymiad i liniaru tlodi tanwydd yng Nghymru. Ymddengys bod pob diwrnod yn dod â newyddion am godiad pris arall yn y farchnad ynni tanwydd ffosil traddodiadol. Yr ydym yn awyddus i edrych ar y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau bod gan y bobl sy'n byw yn ein hardaloedd gwledig, nad ydynt ar y grid, yn cael cyflenwad trydan o safon. Mae'r rhain yn faterion y mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi eu cymryd o ddifrif hefyd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.06 p.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.06 p.m.*

I note what you say about the work of the London Climate Change Agency. One of the first steps that I took when I became Minister for sustainability was to meet Ken

Nodaf yr hyn a ddyweddech am waith Asiantaeth Newid yn yr Hinsawdd Llundain. Un o'r camau cyntaf a gymerais pan ddeuthum yn Weinidog dros gynaliadwyedd

Livingstone and his team, because he was leading the way dramatically on this debate. When I was asked, on stage at the Hay festival, by Guto Harri, Boris Johnson's new press adviser, what advice I would give him as the new mayor incumbent, my answer was that he should not change Ken's climate change agenda. I hope that people in this Assembly applaud that; I got tremendous applause from those people listening to the debate in Hay, because they wanted to see the climate change agenda in London carried on as effectively as it has been delivered to date.

It is very important that we find the right mechanisms for energy delivery, which is why we are proposing energy supply companies in the context of the renewable energy route-map. I am proud that hydrogen buses have been working effectively to provide the link between the University of Glamorgan campus in my constituency and the new Atrium centre in Cardiff. They demonstrate daily to students and others the use of an alternative fuel resource. In our renewable energy route-map, we have said unequivocally that we want to move Wales towards self-sufficiency in renewable energy within a generation. We see that as taking some 20 years. We know that we currently use some 24 TWh per year of electricity, and we see that it is possible for us to generate that much ourselves. We want to drive more energy efficiency and have much more of our extensive heating requirements supplied from renewable sources.

Local energy distribution and generation has an integral part to play in helping us to achieve that aim, whether through community or district renewable installations or microgeneration technologies that serve individual buildings. As your focus was on larger organisations, you did not talk about microgeneration in your contribution. However, I think that it is a critical part of getting communities and individuals to pick up this big agenda. We have been consulting since October 2007 on substantial waste

oedd cyfarfod â Ken Livingstone a'i dîm, oherwydd yr oedd yn arwain y ffordd yn ddramatig ar y ddadl hon. Pan ofynnwyd imi, ar y llwyfan yng Ngŵyl y Gelli, gan Guto Harri, cynghorydd newydd y wasg i Boris Johnson, pa gyngor y byddwn yn ei roi iddo fel deiliad newydd swydd y maer, fy ateb oedd na ddylai newid yr agenda a ddatblygwyd gan Ken ar newid yn yr hinsawdd. Gobeithio bod pobl yn y Cynulliad hwn yn cymeradwyo hynny; cefais gymeradwyaeth anferth gan y bobl a oedd yn gwrandao ar y ddadl yn y Gelli, oherwydd yr oeddent am weld yr agenda yn Llundain ar newid yn yr hinsawdd yn cael ei gweithredu mor effeithiol ag y cafodd ei gweithredu hyd yma.

Mae'n bwysig iawn inni ddod o hyd i'r mecanweithiau cywir i ddarparu ynni, a dyna pam yr ydym yn cynnig bod cwmnïau cyflenwi ynni yn gweithredu yng nghydeustun y trywydd ynni adnewyddadwy. Yr wyf yn falch fod bysiau hydrogen wedi bod yn gweithio'n effeithiol i ddarparu'r cyswllt rhwng campws Prifysgol Morgannwg yn fy etholaeth i a'r ganolfan Atrium newydd yng Nghaerdydd. Maent yn dangos bob dydd i fyfyrwyr ac eraill y modd y gellir defnyddio ffynhonnell danwydd amgen. Yn ein trywydd ynni adnewyddadwy, yr ydym wedi dweud yn glir ein bod am symud Cymru i fod yn hunangynhaliol mewn ynni adnewyddadwy o fewn cenhedlaeth. Credwn y bydd hynny'n cymryd tuag 20 mlynedd. Gwyddom ein bod ar hyn o bryd yn defnyddio tua 24 TWh o drydan y flwyddyn, a chredwn ei bod yn bosibl inni gynhyrchu cymaint â hynny ein hunain. Yr ydym am sbarduno mwy o effeithlonrwydd ynni a sicrhau bod llawer mwy o'n gofynion gwresogi helaeth yn cael eu cyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae gan y modd y caiff ynni ei ddosbarthu a'i gynhyrchu yn lleol ran annatod wrth ein cynorthwyo i gyrraedd y nod hwnnw, boed drwy osodiadau adnewyddadwy mewn cymunedau neu ardaloedd neu dechnolegau microgynhyrchu sy'n gwasanaethu adeiladau unigol. Gan ichi ganolbwyntio ar sefydliadau mwy, nid oeddech yn siarad am microgynhyrchu yn eich cyfraniad. Fodd bynnag, credaf ei fod yn rhan hanfodol o gael cymunedau ac unigolion i ddilyn yr agenda fawr hon. Yr ydym wedi bod yn ymgynghori

reduction targets, or rather on turning our waste into resources and looking at recycling 70 per cent of our waste by 2025. As part of that debate, we talked explicitly about generating energy from waste to divert waste from landfill.

It is important that we get local authorities and other major public sector partners to think like Woking and those pioneers who have been leading the way, demonstrating that a commitment to renewable energy is good for the planet, in that it brings down carbon emissions, and good for the pocket. We have seen that in a number of cases. For example, Ceredigion's biomass won awards two years ago. However, there has also been a substantial reduction in energy costs for that local authority.

4.10 p.m.

Therefore, the Assembly Government is actively picking up that agenda. I would be delighted to take your contribution today and include it in the responses to the renewable energy route-map consultation. I will be bringing forward the national energy and efficiency savings plan consultation later this year and an energy strategy next year that will bring all these issues together.

**The Deputy Presiding Officer:** It has been agreed that voting time will not be before 4.30 p.m. and I will therefore arrange for the bell to be rung at 4.25 p.m. I adjourn the meeting until that time.

er mis Hydref 2007 ar dargedau sylweddol ar gyfer lleihau gwastraff, neu'n hytrach ar droi ein gwastraff yn adnoddau a cheisio ailgylchu 70 y cant o'n gwastraff erbyn 2025. Fel rhan o'r ddadl honno, buom yn sôn yn benodol am gynhyrchu ynni o wastraff i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

Mae'n bwysig inni gael awdurdodau lleol a phrif bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i feddwl fel Woking a'r arloeswyr hynny sydd wedi bod yn arwain y ffordd, gan ddangos bod ymrwymiad i ynni adnewyddadwy yn llesol i'r blaned, gan ei fod yn lleihau allyriadau carbon ac yn llesol i'r boced. Yr ydym wedi gweld hynny mewn nifer o achosion. Er enghraifft, enillodd biomas Ceredigion wobrau ddwy flynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol hwnnw wedi cael gostyngiad sylweddol mewn costau ynni hefyd.

Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn yr agenda honno mewn modd gweithredol. Byddwn wrth fy modd yn cymryd eich cyfraniad heddiw a'i gynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghori ar y trywydd ynni adnewyddadwy. Yn ddiweddarach eleni byddaf yn cyflwyno'r ymgynghoriad cenedlaethol ar ddarpariaethau arbed ynni ac effeithlonrwydd, a'r flwyddyn nesaf byddaf yn cyflwyno strategaeth ynni a fydd yn tynnu'r holl faterion hyn ynghyd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cytunwyd na fydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn 4.30 p.m. a threfnaf felly i'r gloch gael ei chanu am 4.25 p.m. Yr wyf yn gohirio'r cyfarfod tan yr amser hwnnw.

*Gohiriwyd y Cyfarfod Llawn rhwng 4.10 p.m. a 4.30 p.m.  
Plenary adjourned between 4.10 p.m. and 4.30 p.m.*

4.30 p.m.

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Cynnig NDM3919: O blaid 18, Ymatal 8, Yn erbyn 21.  
Motion NDM3919: For 18, Abstain 8, Against 21.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burnham, Eleanor  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 German, Michael  
 Hutt, Jane  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lloyd, David  
 Morgan, Rhodri  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 James, Irene  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Neagle, Lynne  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained:

Bourne, Nick  
 Burns, Angela  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Williams, Brynle

*Gwrthodwyd y cynnig.  
 Motion defeated.*

*Gwelliant 1 i NDM3954: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 14.  
 Amendment 1 to NDM3954: For 33, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Law, Trish  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment carried.*

*Gwelliant 2 i NDM3954: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
 Amendment 2 to NDM3954: For 14, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Law, Trish  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment defeated.*

*Gwelliant 3 i NDM3954: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 15.  
 Amendment 3 to NDM3954: For 32, Abstain 0, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Jones, Carwyn  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment carried.*

*Gwelliant 4 i NDM3954: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 14.  
 Amendment 4 to NDM3954: For 33, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Jones, Carwyn  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment carried.*

Motion NDM3954 as amended: that

*the National Assembly for Wales:*

*notes the contention that between 1997 and 2006 Wales achieved the lowest economic growth of any nation or region in the UK.*

*recognises that, in reality, during the 1997 to 2006 period Wales achieved an economic growth rate in excess of 2 per cent per annum in real terms, faster than under the previous nine-year period of Conservative government;*

*congratulates the firm action by the Assembly Government under the 'One Wales' agreement to reach 80 per cent economic activity level and to ensure a success of convergence funding.*

Cynnig NDM3954 fel y'i diwygiwyd: bod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi'r honiad bod Cymru wedi cyflawni'r twf economaidd isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU rhwng 1997 a 2006.*

*yn cydnabod bod Cymru, mewn gwirionedd, yn ystod y cyfnod rhwng 1997 a 2006 wedi cyflawni cyfradd twf economaidd sy'n fwy na 2 y cant y flwyddyn mewn termau real, sy'n gyflymach na'r hyn a gyflawnwyd o dan gyfnod naw mlynedd blaenorol llywodraeth Geidwadol;*

*yn llongyfarch y gweithredu pendant gan Lywodraeth y Cynulliad o dan gytundeb 'Cymru'n Un' i gyrraedd lefel gweithgarwch economaidd o 80 y cant a sicrhau llwyddiant o gyllid cydgyfeirio.*

*Cynnig NDM3954 fel y'i diwygiwyd: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 13.  
 Motion NDM3954 as amended: For 34, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Asghar, Mohammad  
 Barrett, Lorraine  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Franks, Chris  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Brynle  
 Williams, Kirsty

Jones, Carwyn  
 Jones, Gareth  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Trish  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM3954 fel y'i diwygiwyd.  
 Motion NDM3954 as amended carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â  
 today's proceedings to a close. chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.32 p.m.  
 The meeting ended at 4.32 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**  
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)



Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)